Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diogelu dyfodol Cymru

## Pontio o'r Undeb Ewropeaidd i berthynas newydd ag Ewrop

# Cynnwys


1 Rhagarweiniad y Prif Weinidog — Tudalen 4

2 Rhagarweiniad Arweinydd Plaid Cymru — Tudalen 5

3 Crynodeb — Tudalen 6

4 Y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol — Tudalen 9

5 Mudo — Tudalen 15

6 Cyllid a Buddsoddi — Tudalen 19

7 Materion Cyfansoddiadol a Datganoli — Tudalen 26

8 Mesurau Diogelu a Gwerthoedd Cymdeithasol ac Amgylcheddol — Tudalen 29

9 Trefniadau Pontio — Tudalen 33

10 Casgliad — Tudalen 34

11 Atodiad A — Tudalen 35

12 Atodiad B — Tudalen 49


Datblygwyd y Papur Gwyn hwn ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.


ebost: europeantransition@wales.gsi.gov.uk


Mae'r ddogfen hon wedi cael ei diweddaru ers iddi gael ei chyhoeddi gyntaf, a hynny er mwyn cywiro nifer bach o wallau teipograffyddol.


OGL © Hawlfraint y Goron 2017



WG30683 ISBN Argraffu: 978 1 4734 8749 9 ISBN Digidol: 978 1 4734 9133 5

# 1 Rhagarweiniad y Prif Weinidog



## Pleidleisiodd mwyafrif pobl Cymru dros ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE), ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir o'r cychwyn cyntaf bod rhaid parchu'r penderfyniad democrataidd hwn.

Rydym yn dweud yr un mor glir bod rhaid i delerau'r ymadawiad ddiogelu buddiannau hanfodol Cymru, a medru dod â'r rhai a bleidleisiodd dros ymadael a'r rhai a bleidleisiodd dros aros ynghyd. Nid ydym yn credu i bobl gael eu perswadio i bleidleisio dros ymadael gyda'r bwriad i Gymru fod ar ei cholled, ac nid ydym chwaith yn meddwl y dylai hyn fod yn anochel yn sgil ymadael â'r UE.

Bydd penderfyniadau'r misoedd nesaf yn pennu buddiannau economaidd a chymdeithasol Cymru dros nifer o flynyddoedd i ddod. Mae ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno peryglon clir sydd angen eu rheoli a'u lliniaru, ac mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gynnal a datblygu ffyniant y wlad. Bydd cyfleoedd hefyd i feddwl o'r newydd am ein polisïau a'n rhaglenni, ynghylch sut i gydweithio mewn Teyrnas Unedig wahanol y tu allan i'r UE, a'r potensial i helpu busnesau i edrych ar farchnadoedd newydd ar draws y byd.

Nid oes gan wleidyddion Cymru fonopoli ar ddoethineb ac rydym wedi ystyried y drafodaeth helaeth nid yn unig o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ond hefyd y tu hwnt. Mae'n Grŵp Cynghori ar Ewrop yn edrych ar farn arbenigol a'r sbectrwm o safbwyntiau gwleidyddol wrth i ni ystyried cwestiynau manwl. Mae'r Cyngor Adnewyddu'r Economi yn tynnu sylw arbennig at yr heriau i'r economi ac i fyd busnes. Yn ehangach, mae syniadau am ddyfodol Cymru'n ystyried y drafodaeth helaeth a bywiog ar draws sectorau megis amaeth, yr amgylchedd, Addysg Uwch, y trydydd sector, y sector creadigol, llywodraeth leol ac eraill.

Nid yw ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn golygu o gwbl y bydd Cymru'n troi ei chefn ar Ewrop. Mae parhau i gael mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl yn hanfodol ar gyfer ein dyfodol. Bydd ein cyfeillion a'n cymdogion yn Ewrop yn parhau i fod yn gyfeillion ac yn gymdogion i ni, a rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd eraill o weithio gyda'n gilydd ar heriau cyffredin. Ar yr un pryd, mae Cymru'n wlad sy'n edrych allan ar y byd mawr. Mae gennym brofiad hir o fasnachu a buddsoddi gyda Gogledd America, Japan a'r Dwyrain Canol ymysg llefydd eraill. Rydym yn barod i groesawu'r byd ac edrych tua'r gorwel, a phan fo cyfleoedd masnach newydd yn codi, byddwn yn gweithio gyda busnesau i helpu ein heconomi i ffynnu.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu buddiannau a blaenoriaethau strategol Cymru wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r UE. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban gyda'r bwriad o helpu i lunio safbwynt negodi ymarferol a chydsyniol i'r DU. Mae'r Papur Gwyn hwn yn gosod nodau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer y negodiadau hynny. O'r dechrau i'r diwedd, mae'r pwyslais ar gynnal a hybu ffyniant, gan gydnabod dymuniad y mwyafrif i ymadael â'r UE.

Wrth i ni wynebu'r dyfodol, mae nifer o gwestiynau'n parhau. Rhaid i Lywodraeth Cymru wynebu ei gwaith mewn ffyrdd newydd, a rhaid i'r DU ei hun addasu a newid. Credwn y dylai ymadawiad y DU â'r UE ddigwydd drwy negodi adeiladol ar sail parch o'r ddwy ochr a chydnabyddiaeth o'r buddiannau cyffredin rydym yn rhannu yn y tymor hir gyda'n cymdogion Ewropeaidd.

**Mae Llywodraeth Cymru'n benderfynol o amddiffyn buddiannau hanfodol y wlad hon a ffyniant Cymru ar gyfer y dyfodol.**



**Carwyn Jones**
Prif Weinidog Cymru

# 2 Rhagarweiniad Arweinydd Plaid Cymru



## Ers y bleidlais i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, mae Plaid Cymru wedi dadlau y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau ac amddiffyn buddiannau cenedlaethol Cymru, yn arbennig ein buddiannau economaidd.

Roedd Plaid Cymru o'r farn bod angen safbwynt negodi ffurfiol i Gymru ar gyfer y broses o ymadael â'r UE. Roeddem am i'r partïon gydweithio i ddiffinio a hyrwyddo buddiannau cenedlaethol Cymru ac am weld Cymru'n sefydlu cymaint o dir cyffredin â phosib gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill fel bod modd mynd ati ar sail 'Pedair Gwlad'.

Diolch i'r gwaith sylweddol a chadarnhaol a wnaed drwy drafodaethau rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru, mae'r safbwyntiau hyn wedi'u datblygu a byddant yn awr yn dod yn rhan o bolisi'r llywodraeth ac yn cael eu harddel gan fwyafrif amlwg o Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol.

I Blaid Cymru, mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu un o'n prif egwyddorion, sef bod gan Gymru hawl ddemocrataidd i gyfrannu at y modd y bydd y broses o ymadael yn mynd rhagddi.

Dylai Cymru allu dylanwadu ar unrhyw negodiadau a gaiff eu cynnal, yn hytrach na derbyn y gall y broses o ymadael â'r UE fynd rhagddi heb ystyried buddiannau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Wrth negodi, mae'n hollbwysig felly bod Llywodraeth y DU yn cadw mewn cof mai gwladwriaeth aml-genedl yw'r DU, ac nid un wlad.

Drwy hyrwyddo buddiannau cenedlaethol Cymru, mae'r Papur Gwyn hwn yn ategu barn y partïon dan sylw y dylai Cymru barhau i elwa ar fod yn rhan o'r Farchnad Sengl Ewropeaidd. Mae cryn drafod wedi bod ymysg y partïon wrth gytuno ar y ffyrdd posib o barhau'n aelod. Cytunwyd y gallai hyn gynnwys aelodaeth o'r EEA a/neu EFTA a bod rhaid osgoi rhwystrau tariff.

Mae'r ddogfen yn croesawu cyfraniad gweithwyr a mudwyr Ewropeaidd i gymdeithas Cymru a'n heconomi ac yn herio'r agwedd negyddol sydd wedi cael lle rhy amlwg yn nhrafodaethau'r byd gwleidyddol. Mae'n cefnogi'r egwyddor o allu symud yn rhydd ac mae felly'n gyson â chael rhan lawn yn y Farchnad Sengl.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi trywydd i Gymru ei ddilyn er mwyn sicrhau nad yw ar ei cholled yn ariannol pan fydd cyllid yr UE yn dod i ben. Mae'n ei gwneud yn glir y gallai ac y dylai Cymru barhau i elwa ar yr amrywiaeth o raglenni Ewropeaidd sydd o fudd i'n pobl.

O ran rheoliadau amgylcheddol, cymdeithasol a'r gweithle, caiff neges gref ei hanfon at Lywodraeth y DU na ddylai'r rhain gael eu gwanhau na'u diddymu mewn unrhyw ffordd yn enw dadreoli neu ideoleg.

Pwynt allweddol o ran Plaid Cymru yw bod y ddogfen yn datgan y dylai ymadael â'r UE arwain at ailfodelu strwythurau llywodraethu'r DU – barn y mae ein plaid wedi'i harddel ers amser maith.

Mae'r ddogfen hefyd yn lleisio galwadau Plaid Cymru i gael polisi rhyngwladol ehangach, ynghyd â'n blaenoriaeth i gadw a gwella'r cysylltiadau pwysig rhwng Cymru ac Iwerddon.

Yn yr un modd ag y mae Plaid Cymru wedi gweithio yn enw undod cenedlaethol Cymru i ddatblygu'r safbwynt hwn ar y cyd, rydym yn hyderus y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Alban, Gogledd Iwerddon a phartneriaid eraill i adnabod tir cyffredin, a hynny cyn ac yn ystod unrhyw negodiadau.

Sut bynnag y pleidleisiodd pobl yn y refferendwm ar yr UE, dylem fod yn hyderus yn awr bod safbwynt Cymru'n glir a chadarn ac yn barod ar gyfer y negodiadau sydd i ddod. Mae ein buddiannau a'n hanghenion fel cenedl wedi'u mynegi'n glir yn y papur hwn, ac rwy'n barod iawn i'w gymeradwyo i bobl Cymru.



**Leanne Wood**
Arweinydd Plaid Cymru

# 3 Crynodeb

Mae'r Papur Gwyn hwn yn gosod y prif faterion yr ydym wedi'u nodi fel rhai hanfodol i Gymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fe gafodd ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru drwy Bwyllgor Cyswllt swyddogol[1]. Mae sylwadau'r Grŵp Cynghori ar Ewrop, a benodwyd gan y Prif Weinidog yn haf 2016[2], wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu'r cynnwys.

Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU wrth i'r DU baratoi i ymadael â'r UE a symud tuag at berthynas wahanol gyda'n cymdogion Ewropeaidd. Wrth ochr Plaid Cymru, bydd Llywodraeth Cymru'n siarad ar ran ein gwlad er mwyn sicrhau nad yw'r telerau wrth i'r DU ymadael â'r UE yn niweidio buddiannau Cymru. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU yn ei thro roi ystyriaeth lawn i'r materion yr ydym wedi'u nodi fel rhai hanfodol i fuddiannau Cymru wrth lunio ei safbwynt negodi. Wrth wneud hynny, rydym yn credu'n gryf y bydd y DU yn ceisio sicrhau canlyniadau sy'n fuddiol i'r DU yn gyfan, yn ogystal â Chymru.

Credwn fod angen rhoi sylw i chwe maes wrth negodi: y Farchnad Sengl a masnach ryngwladol, mudo, cyllid a buddsoddi, materion cyfansoddiadol a datganoli, mesurau diogelu a gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a'r trefniadau pontio.

## Y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol

Mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n agos iawn â Marchnad Sengl yr UE, ac mae tua dwy rhan o dair o allforion adnabyddadwy Cymru'n mynd i wledydd yr UE. Mae llwyddiant Cymru o ran denu Buddsoddiadau Uniongyrchol o Dramor dros sawl degawd wedi'i seilio'n helaeth ar fynediad at farchnad yr UE o dros 500 miliwn o gwsmeriaid. Dengys dadansoddiadau y bydd unrhyw gyfyngiad sylweddol ar fynediad at y Farchnad Sengl yn niweidiol, a po fwyaf y cyfyngiad, y gwaethaf fydd y canlyniad o ran llai o dwf neu dwf negyddol. Credwn fod mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf – gan gynnwys ein prif gynhyrchion amaethyddol a bwyd – yn hanfodol ar gyfer buddiannau Cymru a'r DU yn gyfan yn y dyfodol, ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu hyn fel y brif flaenoriaeth wrth negodi gyda'r UE. Mae amrywiol ffyrdd o sicrhau hyn. Gallai hyn olygu aelodaeth y DU o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA), yr oedd y DU yn aelod ohoni cyn ymuno a'r UE, ac o ganlyniad parhau i fod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA); neu negodi trefniant penodol, unigryw i'r DU.

(isod) Abertawe gyda'r hwyr



[1] Yn y Papur hwn, mae "ni" yn cyfeirio at Lywodraeth Cymru a Phlaid Cymru.
[2] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/euadvisory/?skip=1&lang=cy

## Mudo

Rydym yn cydnabod mai'r dymuniad i roi sylw i bryderon yn ymwneud â mudo o'r UE oedd yn rhannol gyfrifol am y gefnogaeth i'r ymgyrch dros ymadael â'r UE, a bod Llywodraeth y DU yn ystyried mudo fel un o brif elfennau'r negodiadau sydd i ddod. Yn yr un modd, rydym yn croesawu'r cyfraniad cadarnhaol iawn y mae mudwyr o'r UE yn ei wneud i'n heconomi a'n cymunedau. Dylid gwarantu ar unwaith hawliau mudwyr o'r UE sydd eisoes yn byw yng Nghymru i aros, a rhaid i bob un sy'n byw yma gael ei drin gyda'r un faint o barch. Rydym yn galw ar yr UE i roi gwarant cyfatebol i ddinasyddion Cymru a'r DU sy'n byw yn yr UE. Credwn y bydd Cymru'n parhau i fod angen mudwyr o wledydd yr UE i helpu i gynnal ein heconomi sector preifat a'n gwasanaethau cyhoeddus. Yn ein barn ni, yr allwedd yw sicrhau bod hawl pobl i symud yn rhydd yn gysylltiedig â chyflogaeth, ac eithrio yn achos myfyrwyr a phobl sy'n medru cynnal eu hunain yn annibynnol. Ar gyfer myfyrwyr ac ymchwilwyr, rydym yn credu mai cynnal yr hawl i symud yn rhydd ar draws Ewrop fyddai fwyaf manteisiol i Gymru a'r DU yn gyfan. Dylai'r cysylltiad rhwng symudiad a chyflogaeth gael ei ategu gan orfodaeth gadarn o'r ddeddfwriaeth bresennol i atal camfanteisio ar weithwyr, yn arbennig y rhai mewn swyddi cyflog isel.



## Cyllid a Buddsoddi

**Mewn termau cyllidebol, mae Cymru ar ei hennill o fod yn aelod o'r UE, ac ar hyn o bryd yn derbyn tua £680 miliwn o gyllid yr UE bob blwyddyn.**

Yn ogystal â bod yn aruthrol o bwysig i Gymru o ran ysgogi twf economaidd a swyddi, mae hyn hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddenu adnoddau ychwanegol o ffynonellau preifat a chyhoeddus. Er bod Llywodraeth y DU wedi rhoi gwarant gyffredinol o gyllid ar gyfer prosiectau a gytunwyd cyn 2020, mae'n hanfodol yn y tymor hirach i'r cyllid Ewropeaidd sy'n cael ei golli gael ei gyfnewid am ddiwygiad i'r Grant Bloc. Yn ystod ymgyrch y refferendwm, sicrhawyd pleidleiswyr na fyddai Cymru ar ei cholled wrth ymadael â'r UE, ac mae'n hanfodol anrhydeddu'r addewid hwn er mwyn cadw hyder y cyhoedd yn y broses wleidyddol. Rhaid i'r cyllid newydd o ffynonellau'r DU adlewyrchu'r cyllid Ewropeaidd presennol ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol, amaethyddiaeth a chefn gwlad. Mae nifer o raglenni Ewropeaidd llai yn ysgogi buddsoddiad sylweddol yng Nghymru, ac rydym yn credu'n gryf y dylai Cymru barhau i fanteisio ar fynediad iddynt o'r tu allan i'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys: Horizon 2020, ERASMUS+, Ewrop Greadigol a'r Rhaglen Cymru-Iwerddon. Rydym hefyd yn egluro pam rydym o'r farn y dylai'r DU barhau i fod yn bartner Banc Buddsoddi Ewrop.



(uchod) Banc Buddsoddi Ewrop, Lwcsembwrg

## Materion Cyfansoddiadol a Datganoli

Mae ymadael â'r UE yn drobwynt cyfansoddiadol sylweddol i Gymru a'r DU yn gyfan. Bydd pwerau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru – amaethyddiaeth, pysgodfeydd, datblygu rhanbarthol a'r amgylchedd

er enghraifft – yn cael eu defnyddio yma yn y dyfodol heb fframwaith rheoleiddiol yr UE. Yn yr un modd, gallai'r pwerau sydd wedi'u cadw yn ôl a'u defnyddio, mewn egwyddor, ar lefel y DU (er enghraifft ar fasnach ryngwladol neu gystadleuaeth) effeithio'n negyddol ar bolisïau datganoledig Cymru. Ni fydd y system rynglywodraethol bresennol bellach yn addas i'r diben a bydd yn rhaid datblygu ffyrdd newydd o weithio – ar sail cytundebau gwirfoddol rhwng Llywodraeth y DU a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig, yn amodol ar gymodi annibynnol. Mae graddfa'r newid yn golygu bod rhaid i'r DU ei hun gael ei hail-lunio i ysgogi dyfodol deinamig, llai canolog, ar sail cydweithrediad, amcanion cyffredin, cefnogaeth a strwythurau ymarferol, mwy ffederal. Rydym yn gweld y paratoadau i ymadael â'r UE fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth fanwl am ddiwygio a newid o fewn y DU. Rhaid i ni weld manylion y "Bil Diddymu Mawr" sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU cyn i ni fedru penderfynu ar y goblygiadau ar gyfer datganoli yng Nghymru.

Ar ôl dadansoddi, os oes angen i ni yn y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i ddiogelu ein setliad datganoli mewn perthynas a'r Bil Diddymu, byddwn yn gwneud hynny.

## Mesurau diogelu a gwerthoedd cymdeithasol ac amgylcheddol

Mae'r DU wedi bod yn rhan o'r UE ers dros 40 mlynedd, ac mae corff sylweddol o ddeddfwriaeth wedi'i ddatblygu i ddiogelu amgylchedd a llesiant cymdeithasol Cymru. Y ddeddfwriaeth hon yw'r sylfaen ar gyfer ein aer, dŵr a thraethau glân. Gwelwyd amrywiol hawliau a mesurau i amddiffyn gweithwyr a chyfyngu ar gamfanteisio yn y gweithle, er enghraifft y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, gan arwain at well amgylchedd ac amodau gwaith i weithwyr. Deddfwriaeth yr UE sydd wedi arwain at ddiogelwch y cynnyrch yn ein siopau ac amrywiol fesurau eraill i amddiffyn defnyddwyr. Yn y tymor byr bydd y Bil Diddymu Mawr, fel y'i gelwir, yn cadw'r ddeddfwriaeth bresennol mewn cyfraith ddomestig. Wrth ymadael â'r UE, rhaid i ni fod ar ein gwyliadwriaeth a mynnu na ddylid erydu'r safonau a'r mesurau diogelu sydd mor fanteisiol i'n dinasyddion ac i les cymdeithas yn gyfan.

## Trefniadau Pontio

Ymddengys yn gynyddol annhebygol y bydd modd negodi telerau ein hymadawiad a llunio perthynas fanwl, ymarferol gyda'r UE ar gyfer y dyfodol o fewn yr amserlen gyfyngedig a osodwyd ar gyfer negodiadau Erthygl 50. Mae profiad yn awgrymu bod negodiadau masnach, er enghraifft, yn gorfod bod yn broses hir a chymhleth. Mae graddfa'r gwaith angenrheidiol i addasu ein strwythurau cyfreithiol, cyfansoddiadol a sefydliadol yr un mor gymhleth ac yn debyg o fod angen cryn dipyn o amser datblygu. Felly credwn y dylai Llywodraeth y DU roi blaenoriaeth uchel yn y negodiadau Erthygl 50 i geisio sicrhau cytundeb ar gyfnod pontio ar ôl ein hymadawiad ffurfiol o'r UE, er mwyn osgoi'r anhrefn a'r ansicrwydd a fyddai'n codi yn sgil ymadawiad sydyn 'dros y dibyn'. Nid yw ymadael â'r UE yn golygu gadael Ewrop, ac rydym yn credu y dylai'r negodiadau gael eu seilio ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr.

(isod) Bae'r Tri Chlogwyn, Gŵyr



# 4 Y Farchnad Sengl a Masnach Ryngwladol

## Effaith economaidd ymadael â'r UE

Mae economi Cymru a'r DU yn elwa'n sylweddol o gymryd rhan ym Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd. Yn ôl ffigurau diweddaraf CThEM, allforion i'r UE yw tua dwy ran o dair o'r holl nwyddau sy'n cael eu hallforio'n uniongyrchol o Gymru i wledydd y tu allan i'r DU. Llwyddwyd i ddenu buddsoddiad tramor i Gymru - elfen mor bwysig i'r economi ers y 1970au - i raddau helaeth yn sgil y ffaith bod y DU yn cynnig amgylchedd diwylliannol a rheoleiddiol ffafriol o fewn y Farchnad Sengl. Am y rheswm hwn, rydym yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau mynediad llawn a dirwystr at Farchnad Sengl Ewrop ar gyfer buddiannau economaidd Cymru yn y dyfodol: drwy gydol y Papur Gwyn hwn rydym yn cyfeirio at y mynediad hwnnw fel 'cymryd rhan yn y Farchnad Sengl'.

Byddai gosod tariffau, a rhwystrau o fath arall megis ardystio cynnyrch a chofrestru cwmnïau, rhwng y DU a'r UE yn gwneud dim byd ond niwed i fusnesau yng Nghymru a'r DU (gweler Atodiad A). Nid oes unrhyw ddadl i'r gwrthwyneb yn bodoli. Yn wir, yr unig bwynt trafod difrifol yw graddfa'r niwed economaidd i Gymru pe bai hyn yn digwydd. Wrth ddadansoddi effaith ymadael â'r UE ar y DU yn gyfan, mae arbenigwyr annibynnol yn rhannu canfyddiadau cyffredin:

- disgwylir i'r effaith economaidd gyffredinol fod yn negyddol ac yn sylweddol
- disgwylir i raddfa'r effaith negyddol gyfateb yn uniongyrchol i raddfa'r mynediad at y Farchnad Sengl sy'n cael ei gadw ar ôl ymadael â'r UE.



(uchod) Fferi yn dadlwytho, Dover

Pe bai cymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn cael ei ddisodli gan reolau Sefydliad Masnach y Byd, mae'r prif arbenigwyr economaidd yn cytuno y gallai economi'r DU fod hyd at 8 - 10% yn llai na'r hyn y byddai fel arall, ac y byddai'n dinistrio masnach mewn rhai sectorau penodol, yn arbennig bwyd - sector cynhyrchu mwyaf y DU - a'r sector modurol. Byddai hyn yn cael effaith ganlyniadol ar safonau byw a thlodi yng Nghymru ar unwaith ac yn y tymor hir.

Credwn ei bod yn hanfodol cynnal mynediad llawn at y Farchnad Sengl, heb dariffau na rhwystrau technegol o fath arall, ar gyfer masnachu a buddsoddi. Lle nad oes tariffau ar nwyddau a gwasanaethau ar hyn o bryd, ni ddylid eu gosod yn y dyfodol. Lle bo rhwystrau technegol rhag masnachu wedi'u goresgyn gan gydgyfeirio rheoleiddiol, dylai'r cydgyfeirio hwnnw aros yn ei le. Dylai'r rhai sy'n credu y dylem symud o'r trefniadau masnachu presennol i sefyllfa wannach, er enghraifft rheolau Sefydliad Masnach y Byd, gyfiawnhau pam eu bod o'r farn y byddai hyn er lles busnesau Cymru a'r DU yn gyfan.

Mae'r ddadl dros barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn aruthrol, ac ni allwn gytuno ar unrhyw safbwynt arall. Mae amrywiol ffyrdd o sicrhau hyn. Gallai hyn olygu aelodaeth y DU o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop (EFTA), yr oedd y DU yn aelod ohoni cyn ymuno â'r UE, ac o ganlyniad parhau i fod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA); neu negodi trefniant penodol, unigryw i'r DU. Mae parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn golygu, wrth gwrs, y byddai'n rhaid i'r DU barhau i sicrhau bod y drefn rheoleiddio nwyddau a gwasanaethau yn y DU yn cyfateb i rai'r UE, a bod trefniadau datrys anghydfodau priodol yn eu lle. Credwn yn gryf fod hyn yn bris werth ei dalu am y manteision economaidd na ellir eu cael heb barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl.

Mewn nifer o ffyrdd, mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n agos gydag economi'r DU yn ehangach. Gan gofio pwysigrwydd agosatrwydd daearyddol a fframwaith sefydliadol go gyffredin, nid yw'n



(uchod) Awyren Airbus Beluga, Glannau Dyfrdwy

syndod bod Cymru'n masnachu llawer mwy gyda gweddill y DU na gyda gwledydd eraill. Mae gwerth llif y fasnach rhwng Cymru a gweddill y DU, yn arbennig Lloegr, o bosib bedair gwaith yn fwy na gwerth allforion rhyngwladol uniongyrchol Cymru[3]. Bydd nwyddau o Gymru sy'n cael eu hanfon i weddill y DU yn aml yn gydrannau mewn nwyddau eraill sy'n cael eu hallforio yn y pen draw, er nad oes data dibynadwy ar gael ar gyfer hyn.

Byddai unrhyw drefniadau masnachu newydd sy'n cyfyngu ar fynediad at y Farchnad Sengl yn cael yr effaith fwyaf ar Gymru yn anuniongyrchol drwy gysylltiadau masnachu Cymru gyda gweddill y DU. Felly rydym yn credu ei bod yn hanfodol i'r DU yn gyfan barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl. Bydd parhau i gynnal ein safonau yn unol â rhai'r Farchnad Sengl nid yn unig yn diogelu ein buddiannau economaidd ond hefyd yn gwarchod marchnad fewnol y DU. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach ym Mhennod 7.

Ein prif ddadl dros gymryd rhan yn y Farchnad Sengl yw er mwyn atal buddsoddiadau a swyddi rhag llifo allan o Gymru yn sgil dirywiad radical o'r masnachu rhwng Cymru a gweddill y DU gyda'n prif farchnadoedd Ewropeaidd. Hefyd byddai gosod rhwystrau ar fewnforion o'r UE yn arwain at effeithiau negyddol gan gynnwys cynnydd mewn prisiau nifer o nwyddau i'r defnyddwyr a chynyddu costau sylfaenol nwyddau a gwasanaethau sy'n dibynnu ar fewnforion. Er enghraifft, mae dros 81% o'n pren wedi'i fewnforio, felly hefyd y rhan fwyaf o'n porthiant amaethyddol a'n gwrtaith (sy'n cael effaith uniongyrchol ar brisiau bwyd) ac, wrth gwrs, bwyd ei hun.

Nid yw'r cysylltiadau economaidd wedi'u cyfyngu i ambell sector penodol. Mae Cymru'n allforio'n sylweddol yn uniongyrchol i'r UE ar draws amrywiaeth eang o sectorau nwyddau, gan gynnwys amaethyddiaeth, dur, moduron, cemegau, electroneg, awyrofod, fferyllol, cyfarpar trafnidiaeth a phetrolewm. Mae dur yn ddiwydiant strategol enfawr i Gymru a'r DU, yn gweithredu mewn marchnad ryngwladol hynod gystadleuol, ac â chysylltiad agos â marchnadoedd a pholisi'r UE. Nid oes unrhyw dystiolaeth gredadwy i gyfiawnhau'r awgrymiadau gan rai y gallai cytundebau unigol sector wrth sector roi'r sicrwydd, ehangder neu symlrwydd angenrheidiol i fusnesau ar draws Cymru a'r DU, a gallai awgrymiadau o'r fath fod yn hynod niweidiol. Rhaid ystyried pwysigrwydd cynhyrchu a gweithgynhyrchu sylfaenol ac nid gwasanaethau yn unig wrth ddiffinio mynediad priodol at y Farchnad Sengl. Hefyd rhaid ystyried allforion anuniongyrchol (nwyddau sy'n cael eu cyflenwi i gwmnïau yn Lloegr, ac sydd wedyn yn cael eu hallforio), gwasanaethau a mewnforion.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod Cymru o bosib yn fwy agored i ddioddef ergydion economaidd na rhannau eraill o'r DU yn sgil ffactorau megis incwm aelwydydd cymharol isel a mwy o ddibyniaeth ar weithgynhyrchu. Byddai dirywiad economaidd yn y DU o ganlyniad i ymadael â'r UE yn cael effaith anghymesur o uchel ar economi Cymru.

Ar ben hynny, yn gyffredinol, byddai disgwyl i lefelau allbwn is economi'r DU o ganlyniad i 'Brexit caled' arwain at lai o refeniw treth a mwy o bwysau ar gyllid cyhoeddus, dadansoddiad a gadarnhawyd gan Ddatganiad yr Hydref y Canghellor. Byddai ymadael â'r UE heb gymryd rhan yn y Farchnad Sengl bron yn sicr o arwain at doriadau hyd yn oed yn fwy sylweddol i wasanaethau cyhoeddus Cymru, neu godi trethi, neu'r ddau. Mae hyn yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod Cymru'n cael cyllid llawn i wneud yn iawn am golli cyllid Ewropeaidd (gweler Pennod 6).

## Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth yn elfen hanfodol ar gyfer economi effeithiol yn lleol ac yn fyd-eang. Dros y degawdau diwethaf, canolbwyntiodd

[3] Efallai bod y gwir ffigur llawer uwch, gan gofio'r gwerth ychwanegol domestig isel mewn sawl categori sylweddol o allforion Cymru, megis cynhyrchion petrolewm (gweler isod).

datblygiadau polisi'r UE ar brif feysydd polisi trafnidiaeth megis diogelu'r awyr, moroedd a ffyrdd; mwy o ddewisiadau trafnidiaeth i deithwyr; hawliau teithwyr wrth deithio ar awyrennau, trenau, llongau a bysiau; a datblygiadau technolegol tuag at drafnidiaeth lanach a lleihau'r allyriadau niweidiol i'r amgylchedd. Hefyd mae safonau cyffredin ar gyfer cerbydau, trwyddedu gyrwyr a phrofion gyrru ar gyfer gyrwyr proffesiynol a phreifat, ac agor y farchnad ar gyfer gwasanaethau cludo nwyddau ar lorïau, wedi helpu i weithredu'r Farchnad Sengl yn effeithiol ar gyfer nwyddau a gwasanaethau.

Mae rheolau cymorth gwladwriaethol a chaffael yn arbennig o bwysig ar gyfer trafnidiaeth, gan ddarparu fframwaith a chyfyngu ar ymyrraeth gan y llywodraeth. Rhaid i fesurau dros dro yn y meysydd hyn fod yn ymarferol er mwyn i bobl Cymru barhau i fedru manteisio ar gynlluniau trafnidiaeth. Y DU oedd yn arwain y drafodaeth am ystwytho trafnidiaeth yr UE, ac ni fyddem am weld unrhyw fenter trafnidiaeth yng Nghymru yn cael ei rhwystro rhag mentro i farchnad yr UE.

Dros y blynyddoedd mae'r UE wedi datblygu fframwaith ar gyfer mwy o hawliau ac iawndal i deithwyr, yn cwmpasu teithiau ar drenau a bysiau, awyrennau ac ar y môr (llongau fferi a llongau pleser). Rydym am weld y manteision a'r hawliau cyfatebol hyn i deithwyr yn parhau i ddinasyddion Cymru a'r DU ar ôl ymadael â'r UE.

Mae'r UE hefyd wedi arwain y gwaith o ystwytho trafnidiaeth awyr ar draws Ewrop. Creodd hyn sawl 'rhyddid' i gwmnïau awyrennau sydd wedi'u cofrestru yn yr UE, sydd wedi caniatáu iddynt gael canolfan mewn un Aelod-wladwriaeth a chynnal gwasanaethau rhwng Aelod-wladwriaethau eraill. O ganlyniad gwelwyd mwy o ddewis i deithwyr a lleihawyd costau teithio'n sylweddol, ac rydym am gadw'r manteision hynny ar ôl ymadael â'r UE.

Mae llwybrau rheilffyrdd Cymru sy'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd yn mynd i gyrraedd safonau Ewropeaidd erbyn 2030, gan gynnwys trydaneiddio a'r gallu i ddygymod â hyd y trenau. Mae'r llwybrau craidd yn cynnwys prif linell y de i Aberdaugleddau a phrif linell y gogledd i Gaergybi. Rhaid i ranbarthau Cymru fedru ryngweithredu â rheilffyrdd yr UE er mwyn osgoi'r anfanteision o gael eu hymylu, gan gynnwys dibyniaeth anghynaliadwy ar y rhwydwaith ffyrdd fel yr unig gysylltiad realistig. Rydym am barhau i sicrhau bod trenau'n hygyrch i bobl ag anawsterau symudedd, cynnal y gallu i ryngweithredu gyda Rheilffyrdd Ewropeaidd i gynnal neu wella sylfaen weithgynhyrchu Cymru, a chynnal rhyddid ar gyfer trefniadau cyfatebol rhwng yr UE a'r DU er mwyn caniatáu cyfranogaeth mewn prosesau tendro am fasnachfreintiau.

Mae'r Farchnad Sengl yn creu hawliau i bobl a nwyddau symud yn rhydd. Byddai gadael y Farchnad Sengl yn golygu plismona cyfyngiadau newydd ar symudiad pobl a nwyddau, ac o ganlyniad gallai'r prosesau gwirio teithwyr a nwyddau fod yn fwy llafurus a gofyn am fwy o adnoddau. Byddai hyn yn effeithio ar borthladdoedd a meysydd awyr o safbwynt masnachol, yn sgil tagfeydd o ganlyniad i'r amser a'r costau

(isod) Ail Bont Hafren



ychwanegol angenrheidiol. Petai'r ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon yn cael ei thrin yn wahanol i symudiadau rhwng aelod-wladwriaethau'r UE a gweddill y DU, gallai hynny effeithio ar batrymau masnach a symud nwyddau rhwng y DU a'r Iwerddon. Pe bai mewnforwyr / allforwyr yn penderfynu symud eu cynnyrch drwy Ogledd Iwerddon, gallai hyn effeithio'n anghymesur ar Gymru, gan fod mwy o deithiau o'r Iwerddon i borthladdoedd Cymru na gweddill Prydain.

## Parhad buddsoddiad tramor yng Nghymru

Mae gan Gymru enw da am ddenu mewnfuddsoddiad o bob cwr o'r byd.

**Dros y tair blynedd ariannol ddiwethaf, gwelwyd cyfanswm o 277 buddsoddiad tramor uniongyrchol gan gwmnïau o 34 gwlad unigol.**

Mae'r buddsoddiadau hynny wedi creu neu ddiogelu dros 27,000 o swyddi. Roedd dwy ran o dair o'r prosiectau hyn o wledydd y tu allan i'r UE, ac fe ddenwyd nifer i Gymru oherwydd ein mynediad at y Farchnad Sengl.

Ers y refferendwm, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu trafodaethau rhyngwladol, gyda theithiau masnach i'r UDA dan arweiniad y Prif Weinidog ac i Japan dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Yn y dyfodol, rydym o'r farn y bydd yn hanfodol i Lywodraeth Cymru fuddsoddi hyd yn oed mwy o adnoddau ac egni mewn ymdrechion i hyrwyddo buddiannau masnachol a buddiannau ehangach Cymru dramor, er mwyn dangos bod Cymru'n parhau i fod yn wlad agored, sy'n ymwneud â'r llwyfan rhyngwladol. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU a'i chyrff rhyngwladol, megis y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, yr Adran Masnach Ryngwladol a'r British Council, i'n cefnogi yn rhagweithiol yn yr ymdrechion hyn.

Fodd bynnag, heb gymryd rhan yn y Farchnad Sengl, bydd yn

(isod) Canu'r gloch yng Nghyfnewidfa Stoc Efrog Newydd



gynyddol anodd argyhoeddi buddsoddwyr posibl sydd â diddordeb ehangach na marchnad y DU i leoli prosiectau newydd yng Nghymru. Mae prosiectau mewnfuddsoddi posibl wedi'u gohirio neu eu rhewi nes daw mwy o eglurder ynghylch telerau ymadawiad y DU â'r UE. Mae Llywodraeth Cymru'n annog Llywodraeth y DU i roi diwedd ar yr ansicrwydd drwy ymrwymo i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl fel un o brif ganlyniadau'r negodiadau.

## Yr Undeb Tollau

Er bod yr achos dros gymryd rhan yn y Farchnad Sengl, yn ein barn ni, yn aruthrol, mae'r mater a ddylai'r DU barhau i fod yn rhan o Undeb Tollau'r UE neu beidio yn fwy cymhleth. Er nad yw gwledydd fel Norwy a Gwlad yr Iâ, sy'n rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn rhan o Undeb Tollau'r UE, gallai cytundeb penodol ar gyfer y DU gynnwys hyn o bosib. Gellid gosod y dadleuon o blaid ac yn erbyn aros o fewn cyfyngiadau Undeb Tollau'r UE mewn nifer o wahanol ffyrdd.

Mae dwy brif nodwedd i Undeb Tollau. Mae'n caniatáu masnach rydd mewn nwyddau o fewn yr Undeb Tollau ac mae'r aelodau'n cytuno ar dariff allanol cyffredin ar fewnforion o weddill y byd. Mae aelodaeth o Undeb Tollau'r UE[4] yn gwahardd gwledydd rhag negodi cytundebau masnach dwyochrog eraill.

Prif fantais Undeb Tollau'r UE yw ei fod yn darparu masnach rydd mewn nwyddau gyda'r 56 gwlad y mae gan yr UE gytundebau â nhw (gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, Canada). Dyma sylfaen sylweddol o sawl perthynas masnachu ffafriol ar draws y byd i allforion Cymru




(uchod) Rhes o gerbydau yn aros i groesi'r ffin ym mhorthladd Calais

a'r DU. Dengys astudiaethau bod manteision uniongyrchol aelodaeth o Undeb Tollau'r UE yn werth o leiaf un y cant o'r Cynnyrch Domestig Gros, gyda'r manteision anuniongyrchol yn sylweddol uwch. Er mwyn i Gymru fanteisio'n llawn ar aros o fewn Undeb Tollau'r UE, byddai'n hanfodol cynnwys cynnyrch sylfaenol amaethyddiaeth a physgodfeydd fel rhan o'r cytundeb i'r DU aros o fewn Undeb Tollau'r UE.

Mantais sylweddol arall Undeb Tollau'r UE yw ei fod yn cymhwyso cymhlethdodau ynghylch gofynion Rheolau Tarddiad, a fyddai'n lleihau'n sylweddol y costau a'r rhwystrau biwrocrataidd i allforion y DU a fyddai fel arall yn berthnasol wedi i'r DU ymadael â'r UE. Y tu mewn i Undeb Tollau'r UE, mae busnesau yn elwa o'r ffaith eu bod yn osgoi oedi a chostau biwrocrataidd, ynghyd â'r fantais gudd o beidio â chael tollau'n eu rhwystro rhag masnachu.

Ar y llaw arall, gallai parhau i fod yn aelod o Undeb Tollau'r UE heb fod yn aelod o'r UE ei gwneud yn ofynnol i'r DU gyflwyno mynediad di-dariff at farchnad y DU i wledydd sy'n cadarnhau cytundebau masnach rydd gyda'r UE, heb fedru sicrhau manteision cyfatebol i allforion y DU yn syth. Mewn egwyddor, dylai unrhyw anfantais bosibl o'r fath fod yn un tymor byr yn unig.

Dywedir bod cytundebau masnach gydag economïau mwyaf y byd - yr Unol Daleithiau, Tsieina, India ac eraill - wedi peri problem i'r UE, yn rhannol yn sgil graddfa'r gystadleuaeth. Awgrymir ymhellach y gallai'r DU y tu allan i'r UE fod mewn gwell sefyllfa, mewn theori, na'r UE i negodi cytundebau masnach dwyochrog gyda'r mathau hyn o wledydd mawr.

[4] Mae Undeb Tollau'r UE yn cynnwys holl aelodau'r UE a rhai o'r gwledydd cyfagos: Twrci a nifer o ficrowladwriaethau gan gynnwys Andorra, Monaco a San Marino. Mae gan yr UE drefniadau ychydig yn wahanol gyda phob un o'r gwledydd sy'n rhan o Undeb Tollau'r UE. Er enghraifft, mae'r cytundeb gyda San Marino yn cynnwys amaethyddiaeth, tra bod cytundebau gyda Twrci ac Andorra yn eithrio cynnyrch amaethyddol.

Wrth gwrs, nid oes modd gwybod i sicrwydd ar hyn o bryd a fyddai'r DU yn medru dod i gytundeb ddwyochrog mor ffafriol gyda'r gwledydd mawr. Er mwyn i ni gefnogi'r safbwynt hwn, byddai angen cyflwyno tystiolaeth gref y byddai'r manteision posibl yn gwrthbwyso'r manteision gwirioneddol presennol o fasnachu o fewn Undeb Tollau'r UE.

Ar hyn o bryd, nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod manteision posibl tynnu yn ôl o Undeb Tollau'r UE yn fwy na'r costau.

Mae cymryd rhan yn y Farchnad Sengl yn dyngedfennol – mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod gwledydd fel rheol yn masnachu'n fwy dwys gyda'u cymdogion daearyddol ac sydd wedi datblygu i'r un graddau – ac mae cyfranogi yn Undeb Tollau'r UE yn ganlyniad naturiol, ond nid hanfodol, i hyn. Mae Undeb Tollau'r UE ar hyn o bryd yn cynnig trefniadau allforio clir i nifer o wledydd partner ar draws y byd, ac nid oes modd gweld y cymhlethdodau ynghylch Rheolau Tarddiad fel unrhyw beth ond anfantais. Lle bo cydgyfeirio ar hyn o bryd mewn trefniadau i helpu busnesau i allforio, dylid ceisio cadw'r cydgyfeirio hwnnw.

## Crynodeb o'r Polisi

Mae pwysigrwydd hanfodol masnach yr UE i fusnesau Cymru a'r economi ehangach, sy'n sylfaen i safonau byw pob un sy'n byw yn ein gwlad, yn glir. Nid oes modd i ni gefnogi cytundeb i ymadael â'r UE a fyddai'n golygu nad yw'r DU yn parhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl. Mae Undeb Tollau'r UE yn cynnig manteision i fusnesau Cymru, ac nid yw'r achos dros strategaeth wahanol wedi'i chyflwyno'n ddigon credadwy, gyda digon o dystiolaeth, hyd yma. Rydym o'r farn ar hyn o bryd mai parhau i fod yn aelod o Undeb Tollau'r UE, gan gynnwys cynhyrchion sylfaenol amaethyddiaeth a physgodfeydd, yw'r sefyllfa orau i fusnesau Cymru a'r DU.

# 5 Mudo

Mae Cymru wedi elwa ar fudo o'r UE a nifer o rannau eraill o'r byd. Credwn fod mudwyr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi Cymru ac i'r gymdeithas yn ehangach. Rydym yn gresynu gweld y cynnydd diweddar mewn senoffobia a hiliaeth a waethygwyd gan naws afresymol y drafodaeth o rai cyfeiriadau o'r gymuned wleidyddol, ac rydym yn condemnio hynny.

Rydym yn sefyll mewn undod llwyr gyda'n holl bobl, o ba wlad bynnag y maent yn dod yn wreiddiol, ac yn credu y dylai Llywodraeth y DU fod eisoes wedi dweud yn glir eu bod yn gwarantu hawliau pawb sydd yn preswylio'n gyfreithiol yn y DU ar ôl i ni ymadael â'r UE. Galwn ar Lywodraeth y DU i wneud datganiad clir ynghylch hyn er mwyn tawelu meddyliau dinasyddion[5] yr UE sy'n byw yng Nghymru a thu hwnt yn y DU. Galwn ar yr UE i wneud datganiad cyfatebol mewn perthynas â dinasyddion Cymru a'r DU sy'n byw yn yr UE. Gwrthodwn yn llwyr unrhyw awgrym y dylid defnyddio statws dinasyddion sydd â hawl ddilys i fyw yma i fargeinio wrth negodi ynghylch ymadawiad y DU â'r UE.

Mae nifer o sectorau economi Cymru yn dibynnu ar sgiliau mudwyr o'r UE, er enghraifft:

- Roedd tua 1,360 aelod o staff academaidd Prifysgolion Cymru yn dod o wledydd yr UE ym mis Rhagfyr 2014; gallai unrhyw gyfyngiadau ar allu gweithwyr i symud yn rhydd effeithio'n sylweddol ar allu Cymru i gyrraedd at dalent academaidd a chymryd rhan mewn prosiectau cydweithio trawsffiniol.
- Mae'r sector gwyddorau bywyd a'r diwydiant fferyllol yn dibynnu'n sylweddol ar bobl o'r UE.
- Mae'r sector adeiladu'n ddibynnol iawn ar weithwyr mudol, gydag adroddiadau am brinder sgiliau difrifol; yn ôl amcangyfrifon Cynllun Seilwaith Cenedlaethol y DU (Medi 2015) bydd angen 100,000 o weithwyr adeiladu eraill erbyn 2020.
- Mae sector bwyd a diod Cymru yn adlewyrchu ffigurau cyffredinol y DU, gyda dros 25% o'r gweithlu o'r tu allan i'r DU. Enillodd bron i 50% o filfeddygon cofrestredig y DU eu cymwysterau mewn rhan arall o'r UE[6]. O fewn y gwasanaethau hylendid cig, amcangyfrifir bod dros 80% o'r gweithlu milfeddygol yn ddinasyddion yr UE nad ydynt yn Brydeinwyr[7].
- Mae gallu'r sector creadigol i deithio a gweithredu yng ngwledydd yr UE heb rwystrau cost rheoleiddiol yn ysgogi cryn dipyn o refeniw yn y diwydiant pwysig hwn; mae recriwtio a chadw staff o wledydd yr UE yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd y sector.
- Yn y sector iechyd a gofal, ym mis Medi 2015 roedd tua 1,140 o ddinasyddion yr UE wedi'u cyflogi gan GIG Cymru, gyda 6% o'n meddygon yr oedd eu cenedligrwydd yn hysbys wedi hyfforddi mewn rhannau eraill o'r UE.
- Mae ffigurau presennol yn awgrymu mai gweithwyr mudol yw tua 11% o'r rhai sydd wedi'u cyflogi gan y diwydiant twristiaeth yng Nghymru, gyda'u hanner yn dod o wledydd yr UE.

(isod) Morvus Technology, y Fenni



[5] Dylai cyfeiriadau yn yr adran hon at ddinasyddion yr UE gael eu hystyried i olygu dinasyddion yr UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.
[6] Royal College of Veterinary Surgeons
[7] Veterinary Public Health Association

Mae'n hanfodol i wahanol sectorau o'r economi fedru diwallu eu hanghenion recriwtio lle gwelwyd bod y farchnad lafur gartref yn annigonol.

Cyflogaeth uniongyrchol yw un o'r pryderon sylweddol yn ymwneud â mudo, ond nid dyna'r unig un. Porthladdoedd Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro yw'r prif lwybrau rhwng y DU ac Iwerddon. Mae'r porthladdoedd hyn hefyd yn derfynfeydd pwysig ar y rhwydwaith Traws-Ewropeaidd, yn cysylltu Iwerddon gydag Ewrop y tu hwnt i Brydain. Iwerddon yw un o brif gyrchfannau allforio Cymru yn gyson, ac mae'n un o'r prif fuddsoddwyr i economi Cymru. Mae'n busnesau a thwristiaid, i'r ddau gyfeiriad, yn dibynnu ar y llwybrau hyn.

Byddai unrhyw newidiadau i reolau mudo a/neu dollau yn cael effaith sylweddol ar unwaith ar borthladdoedd Cymru. Byddai'n cynyddu'r gost, yr amser, yr anghyfleustra a'r rheoliadau o ganlyniad, gan gael effaith negyddol ar y sectorau preifat a chyhoeddus a'r dinasyddion. Gallai'r porthladdoedd ddod yn llai deniadol yn fasnachol, a gallai busnesau a thwristiaid gael eu hannog i chwilio am lwybrau eraill, gan arwain at ganlyniadau economaidd negyddol i gyffiniau'r porthladdoedd yn gyffredinol – yng Nghymru ac Iwerddon.

Credwn fod hawl dinasyddion i deithio yn rhydd a heb fisa i wledydd Ewrop, fel twristiaid ac ar ymweliadau tymor byr, yn fantais gwerth ei chadw. Byddai hynny'n wir hyd yn oed pe na bai'r UE yn bodoli. Nid oes unrhyw ddiben cadarnhaol gosod rhwystrau diangen ar dwristiaid, myfyrwyr a theithwyr busnes cyffredin o wledydd Ewrop.

Yn yr un modd, byddai Llywodraeth Cymru'n gresynu ac yn gwrthwynebu gweld codi rhwystrau fyddai'n llesteirio pobl Cymru a Phrydain rhag teithio'n gyffredinol yn Ewrop. Mae cadw hawl pobl i symud yn rhydd yn y ffordd hon yn dda i fusnes mewn gwledydd cyfagos sy'n rhannu buddiannau, ac fe ddylid gwrthwynebu unrhyw awgrym o fisâu ar gyfer teithwyr cyffredin o fewn Ewrop, sy'n gam yn ôl.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod pryderon ynghylch graddfa'r mudo o'r UE yn un o'r prif bryderon yn y refferendwm ar gyfer nifer o'r rhai a bleidleisiodd dros ymadael. Mynegwyd pryder hefyd am 'dwristiaeth budd-daliadau' gan fudwyr o'r UE. Fel y mae'r ymchwil yn Atodiad B yn dangos, mae graddfa mudo o'r UE i Gymru mewn gwirionedd yn gymharol isel, a dim ond lleiafrif bach o fudwyr o'r UE i'r wlad hon sy'n ddi-waith neu yn dibynnu ar fudd-daliadau.

Yn wir, un effaith glir i fudo fu gwella graddfa gyffredinol economi'r DU ac o ganlyniad cynyddu refeniw treth. Bydd mudwyr, wrth gwrs, hefyd yn ychwanegu at y galw am wasanaethau cyhoeddus ac o ganlyniad y gost o'u darparu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y twf economaidd yn fwy na'r cynnydd mewn costau, yn rhannol yn sgil proffil oedran y mudwyr. Er ein bod yn cefnogi ailgyflwyno systemau cyllido priodol i gefnogi ardaloedd sy'n wynebu straen ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i lefelau uchel o fudo, byddai 'Brexit caled' sy'n cwtogi mudo o'r UE yn sylweddol nid yn unig yn cyfyngu ar allu cyflogwyr i gyrraedd at sgiliau ond hefyd yn lleihau ffyniant economaidd a gwariant cyhoeddus ar ben yr effaith negyddol fyddai'n dod o golli mynediad at y Farchnad Sengl.

(isod) Myfyrwyr Addysg Uwch © Renzo Mazzolini



Credwn y dylai unrhyw system fydd gan y DU yn y dyfodol ar gyfer rheoli gallu pobl i symud yn rhydd rhwng y DU a'r UE/ Ardal Economaidd Ewropeaidd fod yn deg, yn dryloyw, heb gamfanteisio ac yn seiliedig ar reolau. Yn ein barn ni, yr allwedd i roi sylw i'r pryderon yw sicrhau bod hawl mudwyr newydd o'r UE / Ardal Economaidd Ewropeaidd i symud yn rhydd yn gysylltiedig â chyflogaeth, ac eithrio yn achos myfyrwyr a phobl sy'n medru cynnal eu hunain yn annibynnol. Gallai hynny olygu cynnig swydd o flaen llaw neu'r gallu i sicrhau cynnig o fewn cyfnod byr i gyrraedd i'r wlad. Byddai dull gweithredu o'r fath yn adfer hyder yn y polisi ar fudo, ac yn galluogi'r DU i gadw rheolaeth ddomestig dros fewnfudo a chaniatáu i'r gweithlu symud o fewn Ewrop ar yr un pryd, sy'n egwyddor sylfaenol i'r Farchnad Sengl. Credwn y byddai'n bosibl i Lywodraeth y DU ddyfeisio system o'r fath sy'n gyson yn gyffredinol â'r egwyddor o hawl pobl i symud yn rhydd, ac yn unol ag arferion aelod-wladwriaethau eraill yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.



Wrth gwrs, nid yw mudo o fewn yr UE yn symud i un cyfeiriad yn unig. Mae miloedd o ddinasyddion Cymru a'r DU yn dewis byw, gweithio neu astudio yng ngwledydd yr UE dan nawdd trefniadau cyfatebol. Mae hyn yn cynnwys nifer o bobl sydd wedi dewis ymddeol mewn gwledydd Ewropeaidd. Yn ein barn ni, dylai unigolion dros oedran ymddeol sydd â digon o adnoddau i'w cynnal (naill ai eu pensiynau o wlad eu mebyd neu eu hadnoddau personol eu hunain) barhau i fod yn rhydd i ymgartrefu yng Nghymru ac, yn yr un modd, dylai dinasyddion y DU fedru ymgartrefu yng ngwledydd yr UE ar yr un sail.

Mae myfyrwyr wedi manteisio ar raglenni ERASMUS+ a rhaglenni eraill sydd wedi rhoi cyfle iddynt astudio neu gymryd lleoliadau mewn gwledydd Ewropeaidd.

**Yn 2014/15 roedd 5,425 o fyfyrwyr yr UE a 18,805 o fyfyrwyr tramor eraill yn astudio ym Mhrifysgolion Cymru, gyda myfyrwyr rhyngwladol yn 18.2% o gyfanswm y corff o fyfyrwyr yng Nghymru.**

**Cynhyrchwyd £530 miliwn o enillion allforion gan fyfyrwyr rhyngwladol a'u hymwelwyr yn 2014, sy'n cyfateb i 4% o'r holl allforion o Gymru. Creodd hyn 7,600 o swyddi a £400m o Werth Ychwanegol Gros dros yr un cyfnod[8].**

Rydym yn annog cadw'r trefniadau cyfatebol sy'n caniatáu i fyfyrwyr yr UE astudio yn sefydliadau'r DU, ac i'r gwrthwyneb, pan fydd y DU y tu allan i'r UE. Nid ydym yn credu y dylai myfyrwyr gael eu cyfri fel 'mudwyr' at ddibenion ystadegau cenedlaethol.

Ym mhob achos, rydym yn credu y dylai gwledydd yr UE fel rhan o drefniadau o'r fath warantu hawliau dinasyddion Cymru / y DU yng ngwledydd yr UE, ac y dylai'r DU warantu'r un hawliau i ddinasyddion yr UE sy'n byw, gweithio neu astudio'n gyfreithlon yma.

Credwn y dylai dull gweithredu doeth ar gyfer mudo gael ei ategu gan ddiwylliant cryf o orfodi deddfwriaeth i atal cyflogwyr diegwyddor rhag camfanteisio ar weithwyr drwy geisio talu llai na'r cyfraddau cyflog a sefydlwyd yn lleol ac osgoi rheoliadau priodol y diwydiant. Rhaid i holl weithwyr Cymru a'r DU, o ba bynnag wlad yn wreiddiol, gael eu trin yn gyfartal ac yn deg yn unol â'r gyfraith. Credwn fod

[8] Holl ffigurau; Prifysgolion Cymru 2015

dull gweithredu o'r fath yn cydnabod pryderon etholwyr Cymru ac yn diogelu'r economi ar yr un pryd. Credwn ymhellach fod cysylltu mudo â gwaith, dan system dryloyw o reolau domestig, yn cyd-fynd ag ysbryd hawl pobl i symud yn rhydd yn y Farchnad Sengl, ac yn cynnig sylfaen gadarn ar gyfer negodiadau.

Credwn hefyd ei bod yn berthnasol nodi ar gyfer y negodiadau bod Cymru a gweddill y DU ar agor i fudwyr o'r 'gwledydd newydd eu derbyn' ar unwaith yn dilyn ehangu'r UE o 15 i 25 Aelod yn 2004, tra bod gwledydd eraill yr UE (ac eithrio Sweden ac Iwerddon) yn parhau i gau eu ffiniau i fudwyr am nifer o flynyddoedd ar ôl y dyddiad hwn. Roedd hyn yn arwydd cryf o undod economaidd rhwng y DU a'r gwledydd newydd eu derbyn, ac yn gyd-destun pwysig i'r negodiadau.

Llywodraeth y DU sydd â'r cymhwysedd dros bolisi mudo ond, fel rhan o'n trefniadau ar gyfer y dyfodol, rhaid ystyried anghenion gwasanaethau cyhoeddus a'r sectorau busnes yng Nghymru. Rhaid i unrhyw reolau fod wedi'u seilio ar egwyddorion clir a bod ar gael yn dryloyw i gyflogwyr a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn awyddus i weithio'n fanylach ar gynigion gyda Llywodraeth y DU, ac rydym yn galw arnynt i weithredu er budd pennaf busnesau Cymru a'r DU, a'r gymdeithas yn gyfan.

## Crynodeb o'r Polisi

Rydym yn cydnabod bod pryderon ynghylch agweddau ar fudo. Credwn fod lle i roi sylw i'r pryderon hyn drwy ddull gweithredu deublyg sy'n cadw manteision mudo ar gyfer busnesau a chymunedau:

- sicrhau cysylltiad cryfach rhwng cyflogaeth a'r hawl i fudwyr newydd o'r UE aros, os nad ydynt yn astudio ac nad oes ganddynt ffordd o gynnal eu hunain yn annibynnol, dull gweithredu sy'n cyd-fynd yn gyffredinol ag egwyddorion hawl pobl i symud yn rhydd yn ein barn ni;
- gorfodaeth llawer cryfach i ddiogelu gweithwyr cyflog isel rhag dioddef camfanteisio.

Mae'n foesol ac yn economaidd hanfodol diogelu hawliau dinasyddion gwledydd yr UE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd. Credwn yn gryf bod rhaid i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru gael eu diogelu'n gyfartal gan y gyfraith.

Rydym yn gwrthod yn llawn unrhyw ymgais i gamfanteisio ar lafur mudwyr ar delerau is na gweithwyr domestig. Mae mudwyr yr UE yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau, a rhaid eu trin â pharch a chydraddoldeb.

Rydym yn dweud yn glir hefyd na ddylai unrhyw newidiadau i bolisi mudo niweidio busnesau, addysg uwch na gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Credwn nad mudwyr yw myfyrwyr, ac ni ddylid eu cyfri yn yr ystadegau mudo cenedlaethol. Dylid cadw hawl myfyrwyr ac ymchwilwyr o bob cwr o Ewrop i symud yn rhydd.

Mae porthladdoedd Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro yn llwybrau economaidd pwysig, ac fe ddylid ystyried buddiannau'r cymunedau hynny a'u diogelu os bydd unrhyw newidiadau i drefniadau'r ffin.

# 6 Cyllid a Buddsoddi



Mae Cymru'n cael cyfanswm o tua £680 miliwn o gyllid gan yr UE bob blwyddyn. Daw'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn o daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a'r Cronfeydd Strwythurol. Daw'r gweddill gan Horizon 2020 a chronfeydd eraill llai ond sydd yn dal yn bwysig yn economaidd megis Ewrop Greadigol.

**Yn wahanol i'r DU yn ei chyfanrwydd, mae Cymru ar ei hennill yn ariannol o gyllid yr UE.**

Golyga hyn bod y cyllid y mae Cymru'n ei gael yn fwy na'r swm gaiff ei gyfrannu gan drethdalwyr Cymru drwy daliadau'r DU i gyllideb yr UE. Mae cyllid yr UE o fudd i Gymru gan ei fod yn diwallu'r angen drwy ddefnyddio fformiwla dryloyw sydd wedi'i seilio ar reolau. Credwn fod angen i'r egwyddorion hyn fod yn ganolog i'r dull newydd o ddyrannu cyllid i Gymru o adnoddau'r DU unwaith y mae'r DU wedi ymadael â'r UE. Yn ystod ymgyrch y refferendwm gwnaed addewid na fyddai Cymru geiniog ar ei cholled y tu allan i'r UE, ac wrth gydnabod canlyniad y refferendwm ym mis Mehefin 2016, dywedom yn glir ein bod yn benderfynol o sicrhau bod yr addewid hwnnw'n cael ei gadw.

Wrth ymadael â'r UE, bydd rhaid addasu swm sylfaenol Grant Bloc Cymru fel ei fod yn adlewyrchu'r wir golled ariannol i Gymru yn sgil ymadael â'r UE, gan ystyried hefyd y cyllid y byddai Cymru wedi disgwyl ei gael yn rhesymol o ffynonellau Ewropeaidd fel arall.

Rydym yn cydnabod y byddai angen cyfraniad ariannol gan y DU er mwyn parhau i fod yn rhan o'r Farchnad Sengl. O ystyried y dystiolaeth ynghylch hyd a lled y manteision o fasnachu'n rhydd yn y Farchnad Sengl, rydym o'r farn y byddai cyfraniad priodol, wedi'i negodi, yn werth pob ceiniog o ystyried y manteision economaidd ehangach i fusnesau ac economi Cymru a'r DU'n gyffredinol. Ni fydd y DU yn rhan o'r PAC na phrif raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd mwyach. Rydym ni'n dymuno parhau i fod yn gymwys ar gyfer rhaglenni llai yr UE fel y nodir mewn rhan arall o'r Papur Gwyn hwn (Horizon 2020 ac ERASMUS+, er enghraifft), ond cymedrol iawn fyddai'r cyfraniadau gofynnol i wneud hyn ac fe fyddai'r manteision i economi Cymru a'r DU yn sylweddol.

## Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Mae datblygu economaidd rhanbarthol yn faes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru ac sydd â seiliau cryf yn neddfwriaeth yr UE. Caiff cyfanswm o tua £370 miliwn ei ddyrannu i Gymru o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi'r UE bob blwyddyn wrth ochr adnoddau Llywodraeth Cymru ei hun a ffynonellau cyllido eraill, gan gynnwys buddsoddiadau preifat.

**Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys £295 miliwn bob blwyddyn i'r Cronfeydd Strwythurol, £80 miliwn ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig a £2 filiwn o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd.**

Mae'r adnoddau hyn yn hanfodol i Gymru. Ers 2000, mae buddsoddi arian yr UE wedi helpu i arafu'r dirywiad ym mherfformiad economaidd Cymru ac wedi gosod sylfaen ar gyfer sicrhau ffyniant sy'n fwy cynaliadwy. Mae hyn yn arbennig o wir yn rhanbarth y Gorllewin a'r Cymoedd a gafodd ei dargedu. Dyma rai o'r manteision a welwyd:

- twf mewn cyflogaeth yn rhanbarth y Gorllewin a'r Cymoedd o 64.6% yn 2000 i 70.7% ym mis Mehefin 2016;
- gostyngiad yn lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd (o 30.8% i 25.2% yn y Gorllewin a'r Cymoedd);
- gwella sgiliau ledled Cymru; rhwng 2004 a 2015 mae cyfran yr oedolion oed gweithio sydd heb gymwysterau wedi gostwng o 17% i 9.5%;
- mae'r buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu wedi mwy na dyblu ers 2000 o £351m i £716m. Cafodd hyn ei ysgogi gan fuddsoddiadau o'r sector preifat ac mae'n unol â symiau cyfartalog y DU.

**Ers 2007, mae prosiectau a ariannwyd gan yr UE wedi helpu i gefnogi bron i 73,000 o bobl i gael gwaith a 234,000 o bobl i ennill cymwysterau. Maent hefyd wedi helpu i greu bron i 12,000 o fusnesau a tua 37,000 o swyddi.**

Mae rhaglenni presennol y Cronfeydd Strwythurol yn werth dros £2.6 biliwn i Gymru dros gyfnod 2014-2020, gyda'r gyfran fwyaf yn cael ei dyrannu i'r Gorllewin a'r Cymoedd a'r gweddill i'r Dwyrain. Mae'r adnoddau hyn yn hynod o bwysig i Gymru wrth ddylanwadu ar dwf economaidd a swyddi. Caiff dros £1.2 biliwn ei fuddsoddi gan y rhaglenni i wella ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau, cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, a gwella cysylltiadau a datblygiadau trefol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol sylweddol megis Metro De Cymru a fydd yn helpu i ddarparu pecyn ehangach o gynigion a chynhyrchu buddsoddiadau pellach o dan gynigion Dinas-ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig.

Yn ogystal, bydd tua £860 miliwn (Cronfa Gymdeithasol Ewrop) yn cael ei fuddsoddi mewn mesurau trechu tlodi ac i gynyddu cynhwysiant cymdeithasol drwy gefnogi pobl i gael gwaith a chynyddu sgiliau (gan gynnwys ymhlith pobl ifanc a'r rhai mwyaf difreintiedig). Mae'r cyllid yn cefnogi 5,000 o bobl y flwyddyn i gael gwaith ac yn helpu tua 21,500 o bobl i ennill cymwysterau bob blwyddyn. Gwelir llwyddiant prosiectau datblygu economaidd rhanbarthol ar ei orau ar lefel micro mewn cymunedau, ac rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y cyfraniad a wneir gan gyflogwyr, awdurdodau lleol a'r trydydd sector ledled Cymru, drwy bartneriaethau.

Mae rhaglen Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn ymwneud â thros 600,000 hectar o dir ac o fudd i tua 1.3 miliwn o bobl ledled y Gymru wledig. Mae buddsoddiadau'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer tua 10,000 o bobl a chreu 860 o swyddi mewn ardaloedd gwledig. Mae ein cymunedau arfordirol yn elwa'n uniongyrchol ar fuddsoddiadau o gronfa'r pysgodfeydd ar gyfer dyframaeth a mesurau cystadleuol



eraill. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda ffermwyr, y cymunedau gwledig a'r diwydiant pysgota i lunio dyfodol llewyrchus. Caiff polisi yng Nghymru ei gefnogi a'i ategu gan y ddeddfwriaeth arloesol sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiadau'r dyfodol yng Nghymru gynnwys amcanion polisi a mabwysiadu canlyniadau cynaliadwy hirdymor.

Gallai'r telerau i ymadael â'r UE gaiff eu negodi gan Lywodraeth y DU gael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth o raglenni presennol yr UE yng Nghymru a fydd o bosib yn para hyd 2023. Mae angen i Lywodraeth Cymru chwarae rhan amlwg yn yr agwedd hon o'r negodiadau i sicrhau ei bod yn manteisio i'r eithaf ar gyllid yr UE ac i osgoi gorfod anfon unrhyw gyllid yn ôl.

Er gwaethaf llwyddiannau'r polisi datblygu rhanbarthol, mae'n bwysig bod yr heriau a'r anfanteision y mae Cymru'n eu hwynebu yn y tymor hir yn parhau i gael eu cydnabod fel materion sydd angen buddsoddiad penodol ychwanegol. Dylai dyraniadau'r DU i Gymru adlewyrchu'r golled ariannol ar lefel sy'n gyfwerth â'r hyn y byddai Cymru wedi ei gael gan yr UE fel arall. Mae datblygu economaidd rhanbarthol yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli a Llywodraeth Cymru'n unig, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, busnesau a'r trydydd sector, sy'n meddu ar y gallu strategol i roi datblygu economaidd micro ar waith, boed hynny ar lefel cymunedol neu ranbarthol. Byddwn yn gwrthod yn gadarn unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ymyrryd yn y maes datganoledig hwn.



(uchod) Casglu cocos, Gŵyr

## Amaethyddiaeth a Physgodfeydd

O ystyried lefel uchel Tariff Allanol Cyffredin yr UE ar gynnyrch amaethyddol, bydd sector ffermio a bwyd Cymru yn wynebu bygythiad uniongyrchol os bydd unrhyw rwystr rhag bod yn rhan o'r Farchnad Sengl.

Yn ogystal, mae ffermwyr a thirfeddianwyr Cymru ar hyn o bryd yn elwa ar tua £274 miliwn bob blwyddyn ar ffurf cymorthdaliadau uniongyrchol o dan y PAC, tra bod y diwydiant pysgota ac ardaloedd arfordirol Cymru'n elwa ar gyllid llai y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ni fydd y cyllid hwn ar gael bellach.

Mae'r symiau y mae Cymru'n eu cael o dan y PAC yn sylweddol uwch na 'chyfran Barnett' o'r hyn y mae'r DU yn eu cael, gan adlewyrchu'r gyfran uchel o Ardaloedd Llai Ffafriol a natur ymylol ac incwm isel llawer yn niwydiant ffermio Cymru. Mae nifer o ffermydd yn dibynnu ar y cymorth y maent yn ei gael i gynnal busnesau hyfyw. Er bod y gwaith sy'n mynd rhagddo gyda rhanddeiliaid amaethyddol ac amgylcheddol wedi dechrau nodi'r ffyrdd y gall y sector ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi wrth ymadael â'r UE, gan gynnwys cryfhau cadwyni cyflenwi a chynyddu gwerth ychwanegol, bydd angen amser ac adnoddau i ailgyfeirio. Mae'n hanfodol felly i'r DU roi adnoddau sydd naill ai'n fwy neu'n cyfateb i'r hyn y byddai Cymru wedi ei gael o dan y PAC a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, i gefnogi diwydiant ffermio a physgodfeydd Cymru. Yng Nghymru ei hun, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r heriau sylweddol fydd yn codi o adael y PAC a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin drwy gydweithio'n agos â'r diwydiant, cymunedau a phartneriaid eraill er mwyn creu polisïau amaethyddiaeth a physgodfeydd llewyrchus, sy'n edrych tua'r dyfodol. Mae cynhyrchu bwyd yn fantais gystadleuol bwysig i Gymru ac mae'n hollbwysig ei bod yn cadw ac yn adeiladu ar y fantais hon, gyda phwyslais cryf yn cael ei roi i allforio.

Mae mwy i sicrhau adnoddau na chefnogi'r diwydiant ffermio'n unig. Gydag 83% o arwynebedd tir Cymru yn cael ei reoli ar gyfer ffermio ac 14% ar gyfer coedwigaeth, mae gwahaniaethu rhwng trefniadau rheoli ar gyfer 'yr amgylchedd' ac 'amaethyddiaeth' yn artiffisial ar y gorau. Byddai argyfwng yn y byd ffermio yn creu perygl mawr i gynnal adnoddau amgylcheddol Cymru. Mae'r

ardaloedd gwledig a'r arfordir yn rhan annatod o Gymru ac yn werthfawr i'w thrigolion. Yn yr ardaloedd gwledig y mae ein hieithoedd, ein diwylliant a llawer o'n traddodiadau fel cenedl yn cael eu cynnal. Yr ardaloedd hynny hefyd fyddai'r cyntaf o bosib i weld effeithiau sylweddol ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol i fuddiannau'r ardaloedd gwledig gael eu diogelu a chwarae rhan ganolog wrth i Gymru weithio tuag at ddyfodol y tu allan i'r UE.

## Cymorth Rhanbarthol – Polisi ar Gystadleuaeth

Y tu allan i'r UE, bydd angen llunio trefniadau newydd ar gyfer y rheolau ar gystadleuaeth/cymorth gwladwriaethol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cymhwyso drwy'r UE, er mwyn eu rheoli yng nghyd-destun marchnad y DU. Rhaid i Lywodraeth Cymru gael cyfle i ddylanwadu'n sylweddol ar y gwaith o ddatblygu unrhyw fframwaith newydd fel y bydd yn gallu ennyn parch a gweithio'n deg er lles economaidd Cymru a phob rhan o'r DU.

Mae'r gallu i gynnig cymorth rhanbarthol yn hanfodol os yw Cymru am barhau fel lleoliad cystadleuol i fuddsoddi ynddo.

**Yn 2014, er enghraifft, dim ond 0.1% o'r holl fentrau yng Nghymru oedd yn sefydliadau mawr, ond roeddent yn gyfrifol am 55.8% o'r holl drosiant a 41% o'r holl gyflogaeth.**

Mae cymorth rhanbarthol yn cefnogi buddsoddiadau gan gwmnïau cynhenid, ynghyd â helpu i sicrhau mewnfuddsoddi[9]. Mae'r amrywiaeth a welir yn economi Cymru wedi cael hwb sylweddol gan fewnfuddsoddiadau. Yn 2015/16, cafodd 96 o brosiectau buddsoddi eu cofnodi o 23 o wledydd ar draws y byd, ar y cyd roeddent yn werth tua £660 miliwn i economi Cymru.

Yn yr un modd, rydym yn cydnabod yr angen i bolisïau deallus a rhesymol ar gymorth rhanbarthol gael eu hategu gan bolisïau teg a thryloyw ar gystadleuaeth er mwyn osgoi 'ras i'r gwaelod' ymhlith y rhanbarthau sy'n cystadlu. Mae llawer o waith angen ei wneud yn y maes hwn ac rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnwys Cymru yn y gwaith o'r dechrau'n deg.

## Banc Buddsoddi Ewrop (y Banc)

Mae Banc Buddsoddi Ewrop yn fuddsoddwr diwyd yn economi Cymru. Dros y degawdau o fod yn rhan o'r UE, mae Cymru wedi cael cannoedd o filiynau o bunnoedd o fenthyciadau gan y Banc. Nid oes corff cyfatebol yn y DU sy'n darparu'r un math o gyllid i fuddsoddi am gost cyfatebol. Tra bod y rhan fwyaf o waith y Banc yn Ewrop, mae hefyd yn cefnogi prosiectau ym mhob cwr o'r byd, gan adeiladu seilwaith a chapasiti ar gyfer datblygu economaidd gwell.

Fel aelod o'r UE, mae gan y DU gyfranddaliadau gwerth 16% yn y Banc. O dan y rheolau presennol, dim ond Aelod-wladwriaeth o'r UE gaiff fod yn berchen ar gyfranddaliadau'r Banc. Rydym yn credu y dylai'r DU negodi i barhau fel partner o'r Banc. Mae'n heconomi yn elwa'n uniongyrchol o'r Banc ac mae hefyd yn gwella capasiti economaidd mewn meysydd eraill sydd o gymorth i'r amgylchedd fasnachu byd-eang yr ydym yn ei chefnogi. Cyfalaf benthyciadau yw cyfraniad ariannol y DU i'r Banc ac mae'n cael ei ad-dalu, felly mae ei effaith ar gyllidebau'r DU'n un niwtral.

Mae manteision pellach i Gymru a'r DU o ran mynediad at arbenigedd fasnachol sylweddol y Banc. Er enghraifft, mae prosiect Metro De Cymru'n elwa ar arbenigedd masnachol y Banc mewn perthynas â'r broses gaffael. Mae buddsoddiadau blaenorol yng Nghymru hefyd wedi elwa ar arbenigedd a'r arferion gorau gaiff eu cynnig gan y Banc.

**Rydym yn argymell yn gryf y dylai'r DU barhau fel partner cyfranddaliadol ac y dylai Cymru barhau i elwa ar ein perthynas uniongyrchol â'r Banc.**

## Partneriaethau, Rhwydweithiau a Chydweithredu Tiriogaethol

Mae Cymru'n wlad sy'n edrych tuag allan, sy'n masnachu'n rhyngwladol ac sydd wedi denu buddsoddiadau gan wledydd ar draws y byd. Mae ein prifysgolion a'n harloeswyr yn gweithio gyda phartneriaid drwy Ewrop a thu hwnt. Rydym eisiau i fyfyrwyr Cymru barhau i gael y cyfle i brofi addysg yn Ewrop (ERASMUS+ ac Europass) ac rydym eisiau i ymchwilwyr Cymru barhau i gymryd rhan mewn rhwydweithiau ymchwil ac arloesi Ewropeaidd (Horizon 2020).

[9] Y Comisiwn Ewropeaidd: **Ex-Post evaluation of the Regional Aid Guidelines 2007-2013.** Lwcsembwrg: Swyddfa Cyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, 2013 – 194 pp. – 21.0 x 29.7 cm ISBN 978-92-79-28199-0 doi: 10.2763/32114

Mae gan Gymru berthynas gydweithio neilltuol o agos gyda Gweriniaeth Iwerddon, ein cymydog dros y môr, drwy'r Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd. Rydym yn dymuno parhau â'r cydweithio hwn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n bosib y bydd cydweithredu o'r fath hyd yn oed yn bwysicach pan fydd y DU yn ymadael â'r UE, ac rydym wedi ymrwymo'n arbennig i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae angen arbennig i Gymru ddatblygu'r ardaloedd o amgylch ein porthladdoedd pwysicaf – Caergybi, Abergwaun a Doc Phenfro – i sicrhau ffyniant ac i warchod eu rolau fel y prif gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (a'r DU gyfan mewn gwirionedd).

Mae Cymru wedi bod yn gefnogwr brwd o waith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig erioed a chredwn y bydd yn bwysig cynyddu cydweithio ar lefel strategol rhwng pob rhan o'r ynysoedd hyn drwy gyfrwng y corff hwn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae cydweithio trawsffiniol mewn meysydd ymchwil a datblygu, sy'n digwydd yn bennaf drwy Horizon 2020 ar hyn o bryd, yn neilltuol o bwysig a dylai'r gwaith barhau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae rhaglenni'r UE yn cynnig cyfleoedd i fusnesau gydweithio â'i gilydd i gyrraedd nod cyffredin sy'n aml o fudd i gymdeithas. Mae Cymru a'r DU gyfan wedi elwa'n sylweddol ar Raglenni Ymchwil a Datblygu'r UE sydd hefyd yn agored i wledydd eraill nad ydynt yn rhan o'r UE cyn belled ag eu bod yn cyfrannu'n ariannol. Rydym am weld Cymru'n parhau i gael mynediad at y rhaglenni hyn.

Mae Cymru wedi cymryd rhan lawn yn y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, gan ddenu cyllid o £7.3m y flwyddyn.



(uchod) Tardis Dr Who, Bae Caerdydd

**O dan raglenni 2007-13, roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn 94 o brosiectau cydweithredol gan sicrhau bron i £35m o fuddsoddiad gan yr UE i Gymru.**

Ar ben hyn, mae Cymru'n cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o rwydweithiau a phartneriaethau (sy'n aml yn cynnwys aelodau o wledydd Ewrop nad ydynt yn rhan o'r UE) sy'n ein galluogi i feithrin cysylltiadau gyda phartneriaid i rannu arferion gorau ac i gydweithio. Mae'r math hwn o gydweithio wedi bod yn allweddol wrth sefydlu Cymru fel partner gweithgar, uchel ei barch yn Ewrop ac i sicrhau buddsoddiadau. Mae'r Sector Creadigol, diwydiant lle mae gan Gymru fantais gymharol naturiol, wedi ffynnu o gael mynediad at raglenni trawsffiniol yr UE. Mae'n hanfodol i'r cysylltiadau hyn barhau ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ac i Gymru gadw llwyfan i rannu blaenoriaethau strategol sy'n edrych tuag allan yn Ewrop.

Mae Cymru hefyd yn elwa'n ariannol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd ar fod yn aelod gweithgar o raglen ERASMUS+. Yn ystod 2014 yn unig, cymerodd dros 2,000 o unigolion ran mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol ac yn 2014 a 2015 gyda'i gilydd llwyddodd sefydliadau o Gymru i sicrhau tua €10 miliwn o gyllid ar gyfer 86 o brosiectau.

Mae ERASMUS+ yn gyfle i ddatblygu sgiliau bywyd gwerthfawr ynghyd â chael profiad rhyngwladol sydd o gymorth i'r unigolion wrth iddynt ddatblygu'n bersonol, yn broffesiynol ac yn academaidd yn yr economi fyd-eang sy'n bodoli heddiw. Yn ogystal â gwella sgiliau, cyflogadwyedd[10] a thâl posib y rheini sy'n cymryd rhan, mae'r profiad rhyngwladol sy'n rhan annatod o astudio, gwirfoddoli neu weithio dramor yn hwb i hyder yr unigolion, gan eu helpu i sefyll allan ac i lwyddo wrth gystadlu am waith. Credwn y dylai Cymru, ac yn wir y DU yn gyfan, barhau i gymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid rhyngwladol fel ERASMUS+ a'r hyn fydd yn ei holynu ar ôl ymadael â'r UE. Byddai ein dull arfaethedig o fynd i'r afael â mudo ym Mhennod 5 hefyd yn cefnogi'r uchelgais hon.

[10] Mae Uned Ryngwladol Addysg Uwch y DU yn adrodd bod myfyrwyr sy'n astudio dramor lai tebygol o wynebu diweithdra a'u bod yn ennill mwy ar gyfartaledd na'r rhai nad ydynt yn treulio cyfnod dramor yn ystod eu gradd.



(uchod) Myfyrwyr Addysg Uwch © Renzo Mazzolini

Rydym eisiau i'r DU negodi ein bod yn parhau'n rhan o raglen Ewrop Greadigol. Dyma raglen sy'n cefnogi cydweithio yn y sector diwylliannol a chreadigol ac mae Cymru wedi cael budd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chanlyniadau da i'w gweld yn sgil y buddsoddiadau. Er enghraifft, gwelwyd nifer o brosiectau Cymraeg yn cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid Ewropeaidd drwy'r rhaglen hon. Llwyddodd darlledwyr i sicrhau cyllid a chynulleidfa ehangach o ganlyniad i gydweithio Ewropeaiddmewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosib mewn cyd-destun y DU yn unig.

Nid yw ymadael â'r UE yn golygu bod rhaid i Gymru gefnu ar Ewrop, ac nid yw hynny'n fwriad gennym. I'r gwrthwyneb, rydym yn benderfynol y bydd Cymru'n parhau i weithio ar y buddiannau sydd ganddi'n gyffredin â'i chymdogion Ewropeaidd o safle newydd y tu allan i'r UE. Rydym hefyd yn dymuno parhau i gadw mewn cysylltiad â'r rhwydweithiau Ewropeaidd a chysylltiadau dwyochrog presennol a byddwn yn agored i feithrin perthnasoedd newydd a chryfach er lles Cymru.

Y tu hwnt i Ewrop, rydym yn parhau'n ymroddedig i'n rhaglen Cymru o Blaid Affrica ac i sicrhau bod llais priodol o Gymru ar ddinasyddiaeth rhyngwladol. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu polisi ar ymgysylltu rhyngwladol sydd hyd yn oed yn fwy gweithredol. Blaenoriaeth bwysig i ni yw datblygu ac ehangu ein hymdrechion i hyrwyddo Cymru'n rhyngwladol fel lle i fasnachu a buddsoddi ynddo.

## Addysg Uwch

Y prifysgolion yw rhai o asedau sefydliadol mwyaf gwerthfawr Cymru a'r DU. Ni ddylai'r telerau i ymadael â'r UE danseilio hynny. Mae'r galw am leoedd yn ein prifysgolion yn cyfrannu'n sylweddol at allforion Cymru, yn ogystal â meithrin ewyllys da a chydnabyddiaeth i Gymru.

Mae ymchwilwyr ac academyddion yn gweithio mewn 'marchnad' ryngwladol gystadleuol ac mae peryg i'n sefydliadau fynd yn ynysig os nad ydym yn cael ein gweld ar lefel Ewropeaidd. Gan mai prifysgolion yw'r arweinwyr o ran arloesi, mae'r manteision ehangach i'r economi o warchod mynediad at raglenni Ewropeaidd yn amlwg.

Ar hyn o bryd mae mwy na 5,000 o fyfyrwyr o'r UE yn astudio mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru ac mae'n siomedig y byddwn yn debygol o weld gostyngiad yn y nifer yn sgil canlyniad y refferendwm.

**Amcangyfrifir bod myfyrwyr rhyngwladol yn werth cyfanswm o tua £530 miliwn[11] i allforion Cymru, felly byddai unrhyw ostyngiad yn y niferoedd rhyngwladol yn niweidiol i hyn.**

Credwn ei bod yn gamarweiniol ac yn anghywir cynnwys myfyrwyr yn yr ystadegau mudo cenedlaethol a bod hyn yn arwain at ffigurau sy'n edrych yn llawer uwch heb fod angen. Yn ein barn ni, mae'n amlwg nad yw myfyrwyr yn fudwyr yng nghyd-destun arferol y gair. Maent yn dod i Gymru am gyfnod cyfyngedig ac ar gyfer diben penodol, sef astudio. Wedi hynny,

[11] Effaith Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru, Prifysgolion Cymru, Hydref 2015



mae'r rhan fwyaf yn gadael y wlad. Tra'u bod nhw yma nid ydynt yn faich ar bwrs y wlad. I'r gwrthwyneb, maent yn talu ffioedd sy'n cael eu hystyried yn allforion ac yn cynnal eu hunain yn ariannol tra hefyd yn cyfrannu at yr economi leol.

Mae gallu ym meysydd gwyddoniaeth, ymchwil ac arloesi'n bwysig i Gymru a'r DU. Byddai peidio â pharhau'n rhan o raglenni ymchwil Ewropeaidd yn cael effaith andwyol ar ymchwil yng Nghymru gan y byddai'n arwain at ostyngiad mewn incwm, ymadawiad ymchwilwyr a methu â denu talent newydd. Edrychwn at Lywodraeth y DU i roi sicrwydd y bydd lefelau presennol y buddsoddiadau ar gyfer rhaglenni gwyddoniaeth yr UE yn cael eu cynnal, ynghyd â hawl ymchwilwyr i symud yn rhydd. Byddai hyn yn cael ei roi ar waith o dan y polisïau a argymhellir ym Mhennod 5 y Papur Gwyn hwn.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU geisio sicrhau ein bod yn parhau'n rhan o Horizon 2020 ac unrhyw raglenni olynol. Dylai hyn gynnwys galluogi prifysgolion y DU a'u partneriaid ymchwil i gydlynu prosiectau a ariennir gan y rhaglenni hyn. Mae manteision sylfaenol o gydlynu prosiectau cydweithredol rhyngwladol, a byddai colli'r cyfleoedd hyn yn crebachu ac yn ynysu ymchwil yng Nghymru a'r DU.

Yn benodol, ein prif ofynion er mwyn cynnal statws economaidd a rhagoriaeth prifysgolion Cymru yw:

- parhau i fod yn rhan o Horizon 2020 a chynlluniau ymchwil eraill dan arweiniad yr UE
- cadarnhau trefniadau cyfatebol ynghylch ffioedd dysgu myfyrwyr, fel bod myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn yr UE yn talu lefelau lleol o ffioedd myfyrwyr, a myfyrwyr yr UE sy'n astudio yng Nghymru'n cael eu trin fel myfyrwyr y DU at bwrpas ffioedd a chostau astudio
- parhau i gymryd rhan yng nghynllun cyfnewid staff a myfyrwyr ERASMUS+
- gwarantu statws fisa a dinasyddiaeth pobl o'r UE sy'n gweithio mewn prifysgolion yn y DU
- peidio â chynnwys myfyrwyr mewn ystadegau mudo cenedlaethol
- cyfranogiad gan brifysgolion Cymru yn y cynllun fisa gwaith sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd mewn pedair prifysgol yn Lloegr
- hyrwyddo mwy o symudedd staff a myfyrwyr sy'n astudio ac yn gweithio mewn prifysgolion yng Nghymru mewn ffordd ragweithiol.

## Crynodeb o'r Polisi

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n elwa ar tua £680 miliwn o arian yr UE bob blwyddyn. Mae cyfran Cymru o'r PAC a chyllid datblygu rhanbarthol wedi'i seilio ar yr angen a'r rheolau a nodir yn neddfwriaeth yr UE ac mae'n sylweddol uwch na chyfran gwariant Llywodraeth y DU a ddefnyddir yn fformiwla Barnett. Yn syml, mae Cymru (yn wahanol i'r DU gyfan) ar ei hennill yn ariannol o gyllid yr UE.

Pan fydd Fframwaith Ariannol Aml-flwyddyn presennol yr UE yn dirwyn i ben yn 2020 mae'n rhaid i Gymru barhau i gael yr un cyllid ag y byddai wedi disgwyl ei gael yn rhesymol pe bai'r DU wedi aros yn rhan o'r UE. Rhaid i Lywodraeth y DU wireddu'r hyn a addawyd yn ystod ymgyrch y refferendwm, sef na fyddai Cymru'n colli ceiniog o gyllid o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Credwn y dylai'r DU barhau i gymryd rhan yn y rhaglenni Ewropeaidd allweddol sy'n agored i wladwriaethau nad ydynt yn aelodau o'r UE, yn bennaf Horizon 2020, ERASMUS+ ac Europass, y Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd, Ewrop Greadigol a'r rhaglenni fydd yn eu holynu ar ôl 2020. Dylai Cymru hefyd geisio cynyddu ei phroffil rhyngwladol i fynd i'r afael ag unrhyw awgrym bod ymadael â'r UE yn arwydd o ymynysiaeth.

# 7 Materion Cyfansoddiadol a Datganoli

**Bydd ymadael â'r UE yn newid sylfaenol i gyfansoddiad Cymru a'r DU yn gyfan. Nid yw'n opsiwn troi yn ôl at arferion cyn 1973, oherwydd nid oedd datganoli'n rhan o strwythur gwleidyddol y DU bryd hynny.**

Fodd bynnag, os yw'r Llywodraeth am geisio gwella'r rhaniadau dwfn a amlygwyd gan y refferendwm ac am ddod â phobl o wahanol farn ynghyd, yn hytrach na'u gelyniaethu, does bosib na fydd am ysgogi brwdfrydedd newydd i gydweithio i adlewyrchu buddiannau cyffredin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ers tro y dylid sefydlu Confensiwn Cyfansoddiadol i ystyried trefniadau ac arferion cyfansoddiadol o fewn y DU, ac rydym yn credu y bydd ymadael â'r UE yn arwain at newid i'r fath raddau nes bod rhaid ailfodelu'r DU ar strwythur newydd, mwy ffederal.

Ar hyn o bryd, mae amrywiol bwerau sydd eisoes wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn cael eu gweithredu o fewn fframwaith rheoleiddiol yr UE. Mae hyn yn cynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd, yr amgylchedd a datblygu economaidd. Wrth i'r DU ymadael â'r UE, pan fydd fframweithiau rheoleiddiol a gweinyddol yr UE yn peidio â bod yn berthnasol bellach, bydd y pwerau hyn yn parhau i fod wedi'u datganoli i Gymru. Yn yr un modd, bydd Llywodraeth a Senedd y DU yn parhau i fod yn gyfrifol am nifer o bwerau sydd wedi'u cadw yn ôl ond sy'n bwysig i Gymru ac yn effeithio'n uniongyrchol ar feysydd polisi datganoledig, megis y polisi ar gystadleuaeth, cyfraith cyflogaeth a masnach ryngwladol. Bydd hyn yn wir nes bydd cytundeb, os o gwbl, i newid y setliad datganoli ymhellach, ac rydym yn ystyried hynny fel gwaith sy'n mynd rhagddo. Rydym yn dadlau bod y newidiadau hyn yn gofyn am edrych o'r newydd ar strwythur llywodraethu'r DU er mwyn adlewyrchu'r rhyngddibyniaeth a'r buddiannau sy'n cael eu rhannu rhwng meysydd datganoledig a heb eu datganoli. Rydym yn cydnabod mewn rhai achosion, yn absenoldeb fframweithiau'r UE sy'n rhoi elfen o gysondeb ar draws marchnad fewnol y DU, y bydd yn rhaid datblygu fframweithiau newydd ar draws y DU i sicrhau bod marchnad y DU yn gweithio'n esmwyth.

Rydym yn barod i chwarae rhan weithgar iawn yn datblygu fframweithiau o'r fath, yn ddibynnol ar nifer o egwyddorion yn ymwneud â meysydd polisi datganoledig:

- cydsyniad rhydd y tair deddfwrfa a gweinyddiaeth ddatganoledig i gyfranogi ar delerau cyfartal gyda Llywodraeth y DU, a fydd yn cynrychioli buddiannau Lloegr;
- model sy'n cadw o leiaf y lefelau presennol o hyblygrwydd i weithredu polisïau sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion penodol pob un o'r gwledydd;

(isod) Y Senedd, Bae Caerdydd



- systemau cymodi cadarn a gwirioneddol annibynnol i ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch cysondeb mesurau polisi unigol mewn un wlad gyda'r fframweithiau a gytunwyd.

Bydd hyn yn gofyn am system rynglywodraethol cyfan gwbl newydd ar gyfer

a. galluogi fframweithiau ar draws y DU ar gyfer materion datganoledig lle mae'r pedair gweinyddiaeth yn cytuno bod angen dull gweithredu cyffredin;

b. sicrhau trefniadau cadarn ar y cyd mewn perthynas â materion heb eu datganoli ond sydd â goblygiadau sylweddol ar gyfer swyddogaethau datganoledig;

## Yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Mae goblygiadau a heriau cyfansoddiadol ymadael â'r UE yn arbennig o ddwys ym maes yr amgylchedd a materion gwledig. Mae'r meysydd polisi hyn wedi'u datganoli'n sylweddol a dros y 17 mlynedd ers cychwyn datganoli gwelwyd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfeiriad polisi gwahanol rannau'r DU.

Gellir gweld manylion yr effaith ar y meysydd hyn ym Mhennod 8. Maent yn dangos bod rhaid cael cydnabyddiaeth ehangach o'r angen am strwythur llywodraethu clir i'r DU gan adlewyrchu rhynddibyniaethau a buddiannau sy'n cael eu rhannu rhwng meysydd datganoledig a heb eu datganoli. Mae'n glir bod angen fframwaith rheoleiddiol sy'n ein galluogi i gynnal cynnydd, ateb heriau a gyrru canlyniadau economaidd a chymdeithasol yn eu blaen, gan barchu cymwyseddau datganoledig ar yr un pryd.



(uchod) Eryri

## Perthynas rynglywodraethol a pholisi a gedwir yn ôl: Llywodraethau Cymru a'r DU yn cydweithio y tu allan i'r UE

Mae'r Papur Gwyn hwn yn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol meysydd fel trafodaethau masnach ryngwladol a pholisi cystadleuaeth, sydd ar hyn o bryd wedi'u cadw yn ôl gan Lywodraeth y DU ond a fydd yn effeithio'n sylweddol ar swyddogaethau datganoledig ac ar ffyniant a llesiant Cymru.

Bydd rheoli'r meysydd polisi hyn yn gofyn am systemau a strwythurau llywodraethu llawer mwy difrifol a dwys na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio trefniadau newydd a chadarn i ddiwallu ein hanghenion a diogelu ein buddiannau o fewn tirwedd wleidyddol a chyfansoddiadol newydd y DU.

Er enghraifft, os yw'r DU yn gadael Undeb Tollau'r UE ac yn dilyn polisi masnach annibynnol, mae'n bosibl y bydd trefniadau masnach rydd newydd gyda gwledydd fel Seland Newydd neu'r Ariannin yn cael effaith sylweddol yn uniongyrchol ar gadernid a chynaliadwyedd amaethyddiaeth a chymunedau gwledig Cymru. Mae'n hanfodol peidio ag ystyried materion o'r fath fel rhai i Lywodraeth a Senedd y DU yn unig. Rhaid sefydlu systemau cadarn a thryloyw er mwyn nodi effeithiau posibl cyn ymrwymo i gytundebau, a galluogi cytuno ar gamau priodol mewn ymateb. Mewn achosion lle bo effaith sylweddol iawn ar feysydd polisi datganoledig a lle nad yw'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cytuno gyda'r camau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cymryd, rhaid cael systemau annibynnol i ddatrys anghydfodau.

**Credwn y gellid ac y dylid creu systemau llywodraethu a fydd yn ateb yr heriau llywodraethu a fydd yn codi i'r DU yn y dyfodol.**

Er enghraifft, credwn y gellid ailedrych ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion presennol a'i ailadeiladu fel Cyngor Gweinidogion y DU i edrych ar amrywiol agweddau polisi lle bo angen cytundeb rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru'n

barod iawn i fod yn rhan o'r broses o ystyried ymhellach sut y dylai'r DU ddatblygu prosesau penderfynu gorfodol a chynhwysol y tu allan i'r UE.

## Parhad deddfwriaethol a'r setliad datganoli

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno 'Bil Diddymu Mawr' i gadw cyfraith yr UE yn y DU, wrth ymadael, fel y mae ar hyn o bryd. Gan ddibynnu ar ei union ddarpariaethau, mae'n bosibl y bydd y Bil hwn angen cydsyniad deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddai'r Bil yn cadw deddfwriaeth yr UE yn ei lle yng Nghymru, nes i Lywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU (gan ddibynnu ar y cymhwysedd) benderfynu pa newid i'w wneud, os o gwbl.

Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth y DU ei bod yn hanfodol darparu cysondeb deddfwriaethol ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael â'r UE, ac rydym yn deall mai dyma brif nod y 'Bil Diddymu Mawr' arfaethedig. Fodd bynnag, rydym yn pryderu fod hyn o bosib yn dasg enfawr gan gofio nad oes modd trosi llawer o'r ddeddfwriaeth, yn arbennig rheoliadau'r UE sy'n berthnasol yn uniongyrchol, i gyd-destun lle nad oes awdurdod bellach gan sefydliadau'r UE.

Ar ben hynny, gallai'r Bil effeithio'n sylweddol, yn fwriadol neu beidio, ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'n polisi craidd yw na ddylai ymadawiad y DU o'r UE arwain at Lywodraeth y DU yn crafangu pwerau datganoledig yn ôl. Bydd unrhyw ymgais o'r fath yn cael ei gwrthwynebu'n gadarn gennym.

Rydym yn aros i weld manylion Bil Llywodraeth y DU i weld a yw'r Bil Seneddol yn adlewyrchu'r setliad datganoli yn ddigonol. Ar ôl dadansoddi, os oes angen i ni yn y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i ddiogelu ein setliad datganoli mewn perthynas â'r Bil, byddwn yn gwneud hynny.

## Crynodeb o'r Polisi

Mewn meysydd polisi datganoledig, yn arbennig lle bo angen newidiadau sylweddol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, rhaid parchu gwahanol swyddogaethau'r pedair Llywodraeth fel ei gilydd. Rhaid i unrhyw fframwaith ar draws y DU gael ei seilio ar gydsyniad cyffredinol y pedair Llywodraeth. Bydd angen systemau datrys anghydfodau cadarn ac annibynnol. Ni fydd system bresennol y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn ddigonol ar gyfer yr hyn y dylid ei weld fel 'sofraniaeth gyfun' o fewn y DU ar gyfer meysydd lle cytunwyd bod buddiannau cyffredin. Dylai meysydd polisi sydd heb eu datganoli ond sy'n effeithio'n sylweddol ar swyddogaethau datganoledig, fel trafodaethau masnach ryngwladol a pholisi cystadleuaeth, hefyd gael trefniadau cadarn i rannu sofraniaeth. Rhaid i ni weld manylion y 'Bil Diddymu Mawr' cyn medru datgan barn gadarn am y goblygiadau ar gyfer datganoli yng Nghymru. Ar ôl dadansoddi, os oes angen i ni yn y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i ddiogelu ein setliad datganoli mewn perthynas a'r Bil, byddwn yn gwneud hynny.

Mae'n amlwg bod ymadael â'r UE yn newid sylfaenol i gyfansoddiad y DU, un sydd angen dychymyg a gweledigaeth i ysgogi ffyrdd newydd o gydweithio ymysg gweinyddiaethau y tu allan i'r UE.

# 8 Mesurau Diogelu a Gwerthoedd Cymdeithasol ac Amgylcheddol

## Trosolwg

Ers i'r DU ymuno â'r UE yn 1973, cymerwyd camau mawr ymlaen i ddatblygu safonau gofynnol ar gyfer materion hanfodol yn ymwneud ag ansawdd bywyd, fel yr amgylchedd, hawliau yn y gweithle a chydraddoldeb. Rydym yn cydnabod ac yn talu teyrnged i waith diflino'r mudiad anabledd, ymgyrchwyr cydraddoldeb, amgylcheddwyr, undebau llafur ac eraill yn helpu i wella ansawdd bywyd i bawb yn ein gwlad drwy weithredu gyda'i gilydd ar lefel yr UE. Credwn yn gryf na ddylai ymadael â'r UE gynnig esgus i lastwreiddio neu ddad-wneud safonau sydd wedi gwella bywydau ein dinasyddion.

Mae'r argymhellion i ddarparu cysondeb deddfwriaethol ar ôl i ni ymadael â'r UE , a drafodwyd ym Mhennod 7 uchod, yn golygu y bydd gan Lywodraeth Cymru gyfleoedd ac opsiynau polisi newydd yn y meysydd hyn, gan alluogi Cymru i ddiogelu fframweithiau a grëwyd gan yr UE, neu eu disodli â dulliau gweithredu gwahanol yn benodol ar gyfer anghenion Cymru. Fel y nodwyd yn flaenorol, mewn rhai meysydd efallai y bydd Llywodraeth Cymru am drafod gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill drwy fframweithiau cyffredin ar draws y DU, lle credwn y bydd hynny er budd Cymru.

## Adnoddau Naturiol

Mae Cymru'n ymfalchïo yn y cynnydd a wnaed i ddiogelu'r amgylchedd, ac fe ddylid cydnabod bod y DU yn gyfan yn elwa ar y nwyddau a'r gwasanaethau amgylcheddol a'r manteision ehangach y mae Cymru'n eu darparu i'r cyhoedd – fel mynediad at ddŵr glân a ffynonellau ynni adnewyddadwy. Daeth nifer o'r manteision hyn o ganlyniad uniongyrchol i ddeddfwriaeth a chyllid yr UE. Er enghraifft, llwyddodd Cymru i gyflawni ei nodau datblygu cynaliadwy byd-eang gyda chryn dipyn o gymorth gan Fframwaith yr UE. Mae angen sicrhau bod modd i Gymru gyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol o hyd. Rydym wedi ymrwymo, er enghraifft, i gynnal y safonau presennol o leiaf mewn perthynas ag ansawdd aer a dŵr, allyriadau a diogelu'r amgylchedd.

Rydym wedi ymrwymo'n arbennig i'r egwyddor o ddefnyddio 'twf gwyrdd' fel ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd, sy'n deg yn gymdeithasol ac yn sicrhau fod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio a'u rheoli'n gynaliadwy

Ymysg yr enghreifftiau o dwf gwyrdd mae'r canlynol:

- Symud tuag at economi gylchol sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Cynnal twf a rheolaeth gynaliadwy sectorau adnoddau naturiol Cymru – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd, twristiaeth ac ynni adnewyddadwy.



Datblygu marchnadoedd uchel eu gwerth ar gyfer cynnyrch a gwasanaethau newydd ac arloesol ar sail datblygu cynaliadwy.

## Mae gan adnoddau naturiol Cymru ran ganolog i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni twf gwyrdd Llywodraeth Cymru gan fod eu rheoli'n effeithiol yn allweddol i gyflawni saith Nod Llesiant statudol Cymru.

Mae ein gallu i sicrhau esblygiad parhaus y polisi a'r fframwaith rheoleiddio yn allweddol – ac fel y nodir ym Mhennod 6, bydd hyn yn dibynnu ar wneud yn iawn am y cyllid a gollwyd i'r sector tir o ganlyniad i adael y PAC.

Ar hyn o bryd mae'r UE yn darparu fframwaith deddfwriaethol uniongyrchol (Rheoliadau a Phenderfyniadau'r UE) a hefyd gweithrediadau a gweinyddiaeth ganolog ar gyfer cyfeirio polisi. Er enghraifft, mewn perthynas â chemegau, mae Rheoliadau'r UE ar Gofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau yn darparu fframwaith deddfwriaethol uniongyrchol, gyda llawer o'r gefnogaeth weinyddol yn cael ei darparu gan yr Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd. Mae'r Rheoliad hwn wedi ysgogi safonau ar lefel amgylcheddol yn ogystal ag ar gyfer cynhyrchu.

Mae rhywfaint o ddeddfwriaeth yr UE sy'n berthnasol yng Nghymru ar hyn o bryd yn gosod gofynion ar gyfer diogelu iechyd anifeiliaid/ pobl a diogelu'r gadwyn fwyd. Bydd angen cynnal y gofynion a'r safonau hyn beth bynnag am rwymedigaethau'r UE er mwyn ceisio osgoi perygl sylweddol i'r cyhoedd yn gyffredinol, dyfodol yr amgylchedd ac economi Cymru.

Er mwyn sicrhau bod modd i Lywodraeth Cymru barhau i reoli pysgodfeydd Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, bydd angen newidiadau i'r setliad datganoli. Datganolwyd rheolaeth dros bysgodfeydd i Gymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru a Choncordat y DU. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a rheoleiddio dyframaethu a physgodfeydd morol rhynglanwol, masnachol a hamdden ledled Cymru, gan gynnwys ei moroedd tiriogaethol a Pharth Cymru. Bydd angen i'r setliad datganoli newid i ddarparu cymhwysedd gweithredol a



(uchod) Meddygon, Ysbyty Ystrad Fawr, Caerffili

deddfwriaethol llawn er mwyn gallu parhau i reoli pysgodfeydd ar draws Parth Cymru a busnesau pysgota Cymru ble bynnag y maent wedi'u lleoli. Ar ben hynny, mae angen cydbwyso cwotâu pysgota'r DU mewn ffordd decach. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o'r cwota pysgota sydd gan gychod bach – sef mwyafrif fflyd bysgota Cymru a Lloegr. Cychod pysgota dan 10 metr yw tua 90% o fflyd Cymru (tua 426 o gychod), ond dim ond 3% o gyfanswm cwota pysgota'r DU yn ardaloedd Cymru sydd ganddynt.

### Bwyd a Diod

## Rhaid i Gymru gadw'i 'brand' cryf ar sail safonau uchel ac ansawdd ei chynnyrch.

Mae'r enw da sydd wedi'i feithrin ar gyfer cynnyrch Cymru, yn arbennig ei bwyd a'i diod, wedi'i seilio ar nifer o ffactorau gan gynnwys diogelu iechyd pobl, rheoli clefydau anifeiliaid yn effeithiol, safonau amgylcheddol, defnyddio enwau





bwyd wedi'u hamddiffyn a safonau uchel ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cael eu sicrhau drwy fframwaith yr UE, a bydd hyn yn sylfaen ar gyfer ein huchelgais i'r sector hanfodol hwn yn y dyfodol.

## Iechyd

Mae amrywiol drefniadau gofal iechyd cyfatebol yn berthnasol i ddinasyddion Cymru a'r DU sy'n teithio i Ewrop neu'n byw yno, ac i'r gwrthwyneb (rhai ohonynt yn hŷn nag aelodaeth y DU o'r UE ac yn berthnasol ar sail ddwyochrog). Credwn ei bod er budd dinasyddion Cymru a'r DU i drefniadau cyfatebol o'r fath barhau lle bynnag y bo'n bosibl, ar sail budd cyffredin a pharch at uniondeb trefniadau gofal iechyd cenedlaethol unigol. Dylai'r GIG, ac yn wir holl wasanaethau iechyd gwledydd yr UE, gael eu hamddiffyn rhag camfanteisio anghyfreithlon.

Fel y nodir ym Mhennod 5, mae'r GIG yn rhan sylweddol o'n hystyriaethau ar faterion yn ymwneud â mudo. Mae cyfraniad dinasyddion yr UE i GIG Cymru yn hanfodol, ac rydym yn rhagweld y bydd y galw'n parhau i recriwtio meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd eraill o'r UE yn y dyfodol. Galwn ar Lywodraeth y DU i gydweithio gyda ni er mwyn datblygu dull o ymdrin â mudo sy'n osgoi niweidio GIG Cymru.

## Cyflogaeth a Diogelwch Cymdeithasol

Credwn fod y gyfres bresennol o drefniadau amddiffyn gweithwyr, fel yr uchafswm oriau gwaith dan y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, yn hanfodol ar gyfer cynnal yr economi a'r gymdeithas yr ydym am ei hyrwyddo. Rhaid sicrhau nad yw ymadael â'r UE yn arwain at 'ras i'r gwaelod' o ran mesurau amddiffyn gweithwyr ar sail y camsyniad bod hynny'n hyrwyddo cystadleurwydd. Byddai'r llwybr hwnnw'n arwain at gyflogau isel, ansicrwydd swyddi ac arferion o gamwahaniaethu, a hynny'n effeithio o ganlyniad ar ffyniant Cymru a hefyd ar y gwaith o gyflawni polisïau cymdeithasol.

Trefniadau amddiffyn gweithwyr yw'r ffordd i weithwyr unigol sicrhau cyflog teg am eu gwaith, ac o ganlyniad fedru cyrraedd at nwyddau a gwasanaethau. Rydym am weld Cymru ffyniannus wedi'i seilio ar degwch, parch a chyfiawnder cymdeithasol. Dangosodd refferendwm yr UE ei hun i ba raddau y mae nifer o bobl yn teimlo bod eu bywydau'n dioddef yn sgil gwaith ansefydlog, cyflogau isel ac amodau gwaith gwael, er gwaetha'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym a chyfraddau uchel cyflogaeth ar hyn o bryd. Fel y nodwyd yn ym Mhennod 5, credwn fod gorfodaeth gryfach o'r trefniadau amddiffyn sydd eisoes yn eu lle yn hanfodol wrth roi sylw i'r pryderon hyn, sydd hefyd wedi amlygu eu hunain fel pryderon am fudo.

Rydym yn bryderus tu hwnt am y potensial i gamfanteisio ar weithwyr isel eu cyflog, gan gynnwys mudwyr. Rydym yn cynnig y dylai Llywodraeth y DU, fel rhan hanfodol o'i hymateb i ymadael â'r UE, sicrhau fod y ddeddfwriaeth bresennol ar faterion fel lleiafswm cyflog ac iechyd a diogelwch yn cael ei gorfodi'n gadarn er mwyn amddiffyn hawliau gweithwyr agored i niwed. Nodwn fod toriadau difrifol wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf i gyllidebau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, tra bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau yn y Senedd mai nifer cyfyngedig o staff sydd wedi'u cyflogi i blismona'r ddeddfwriaeth lleiafswm cyflog. Rydym hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i gymryd rhan weithredol, cyn i'r DU adael yr UE, yn y trafodaethau gyda sefydliadau Ewropeaidd am ddiwygio'r Gyfarwyddeb Gweithwyr a Adleolir mwyn cyfyngu ar unrhyw gyfleoedd i gyflogwyr ddefnyddio hyn i danseilio mesurau diogelu cymdeithasol.

## Caffael

Credwn ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cymru sicrhau rheolaeth lawn dros y polisi caffael cyhoeddus, i'r graddau y mae setliad newydd gyda'r UE yn galluogi'r DU i symud oddi wrth reolau caffael yr UE, i'w ddefnyddio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Dylai hyn ganiatáu i ni ailfeddwl am y cyfyngiadau presennol i ddefnyddio caffael yn rhagweithiol fel ffordd o gynhyrchu gweithgarwch economaidd lleol, a gallai hynny ein galluogi – lle bo hynny'n werth da am arian – i gadw gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

**Ar hyn o bryd, mae cyflenwyr o Gymru'n ennill 55% o'r gwariant caffael cyhoeddus blynyddol o £5.5bn.**

Gallai set newydd o reolau sy'n ystyried cyfanswm cost penderfyniadau contract alluogi'r ffigur hwn i godi ymhellach, gan gefnogi swyddi a gweithredu fel catalydd ar gyfer strategaeth ddiwydiannol ac economaidd Cymru yn y dyfodol.

Mae'r deddfwriaeth gaffael bresennol hefyd yn rhoi diffiniad o weithwyr difreintiedig a busnesau a gynorthwyir y gellid cadw contractau yn ôl ar eu cyfer. Gyda rheolaeth lawn dros bolisi caffael, gellid adolygu'r diffiniad hwn i sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa ddemograffig Cymru, gan ysgogi manteision pellach i bobl Cymru.

## Cydraddoldeb

Rhaid i ni ystyried yn fanwl beth yw goblygiadau ymadael â'r UE ar gyfer cydraddoldeb, ac fe fyddwn yn trafod hyn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Yn benodol, rhaid ystyried effaith bosibl colli cyllid yr UE ar gyfer cydraddoldeb a lles pobl â nodweddion gwarchodedig. Yr egwyddor sylfaenol yw na ddylai ymadael â'r UE leihau ein sylw mewn unrhyw ffordd ar hyrwyddo cydraddoldeb a herio camwahaniaethu lle bynnag y mae'n bodoli. Hefyd, yn unol ag Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, byddwn yn gwrando ar sylwadau plant a phobl ifanc gan y bydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn hanfodol bwysig ar gyfer eu dyfodol.

## Amddiffyn Defnyddwyr

Nid ydym yn credu fod unrhyw un am weld defnyddwyr Cymru'n agored i dderbyn nwyddau o safon isel, ac rydym o'r farn y byddai parhau i fod yn gyson â rheoliadau'r UE – sy'n angenrheidiol i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl – hefyd yn arwain at amddiffyn defnyddwyr fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rhaid i ni gydnabod y gallai unrhyw ymgais radical i sicrhau cytundebau masnach rydd gyda gwledydd yn y trydydd byd sydd â safonau llawer is o ran amddiffyn defnyddwyr – er mwyn gwneud yn iawn am golli mynediad at farchnadoedd yr UE – arwain o bosib at beryglon difrifol i ddefnyddwyr yn y DU.

## Crynodeb o'r Polisi

Rydym wedi ymrwymo o hyd i'r mesurau diogelu cymdeithasol, amgylcheddol a chyflogaeth a sicrhawyd drwy fod yn aelod o'r UE. Ni ddylai rhain gael eu tanseilio ar ôl ymadael â'r UE. Yn benodol, ni ddylid cymryd cam yn ôl o ran hawliau a mesurau amddiffyn gweithwyr, sydd wedi gwella'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf o ganlyniad i weithredu ar lefel yr UE. Hefyd rhaid sicrhau fframwaith cywir, effeithiol a thryloyw ar draws y DU i ddarparu sylfaen ar gyfer rheoleiddio materion fel yr amgylchedd, amaethyddiaeth a physgodfeydd yn effeithiol – materion sydd wedi'u llywodraethu'n drwm gan gyfraith yr UE.

# 9 Trefniadau Pontio

Cydnabyddir yn gynyddol fod y cyfnod o ddwy flynedd sydd ar gael i gwblhau negodiadau dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd – sy'n gorfod cynnwys amser ar gyfer unrhyw brosesau cadarnhau, gan gynnwys cydsyniad Senedd Ewrop – o bosib yn rhy fyr i alluogi'r DU i ddod i gytundeb ynghylch ymadael a llunio perthynas fasnachu newydd gyda'n partneriaid yn yr UE yn llwyddiannus. Mae busnesau wedi dweud yn glir eu bod yn pryderu'n ddifrifol am 'ddibyn' lle byddai'r cyfnod o ddwy flynedd yn dod i ben heb gytundeb. Credwn ei bod yn hanfodol i'r trefniadau pontio fod yn rhan o drafodaethau Erthygl 50, gan sicrhau mynediad parhaus at y Farchnad Sengl a chyn lleied â phosib o newidiadau i strwythur ein perthynas fasnachu. Dylai'r trefniadau hynny fod yn weithredol pan fydd y DU yn ymadael â'r UE hyd nes y bydd cytundeb ynghylch perthynas economaidd newydd, llawn yn dod i rym. Dylai hyn ddigwydd wrth ochr gwaith i sicrhau bod modd i'n fframweithiau cyfreithiol a gwleidyddol domestig ddygymod â chyfnod pontio o'r fath (gweler Pennod 7). Nid ydym yn credu y gellid yn synhwyrol adael ystyried mater o'r fath yn nes diwedd y broses: yn hytrach rhaid i Lywodraeth y DU dechrau negodiadau Erthygl 50 â chais pendant i negodi trefniadau o'r fath.

Beth bynnag fo'r canlyniad yn y tymor hir, credwn y dylai'r DU barhau i fod yn Undeb Tollau'r UE, o leiaf am gyfnod pontio, er mwyn darparu cysondeb a sefydlogrwydd i allforwyr. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu edrych ar gyfleoedd i sicrhau cytundebau masnach rydd dwyochrog gyda gwledydd fel yr UDA, Tsieina ac India, nad ydynt yn rhan o gytundebau tollau'r UE ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod gwerth posibl cytundebau o'r fath, os oes modd eu negodi, yn y tymor hir. Fodd bynnag, nid oes modd i gytundebau o'r fath gymryd lle'r manteision o gymryd rhan yn y Farchnad Sengl. Dan yr amgylchiadau hynny, ar ôl cyfnod pontio, efallai y byddai'n fwy gwerthfawr ymadael ag Undeb Tollau'r UE. Os felly, dylai Llywodraeth y DU geisio ailadrodd telerau Undeb Tollau'r UE ar sail ddwyochrog gyda phob gwlad sy'n cytuno.

Efallai y gellid sicrhau manteision mynediad parhaus at y Farchnad Sengl yn ystod cyfnod pontio drwy barhau i fod yn aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (a gwneud cais am aelodaeth o Gymdeithas Masnach Rydd Ewrop yn ôl yr angen). Dylai'r opsiwn hwn, gyda darpariaeth briodol i gefnogi cyfleoedd masnachu parhaus i gynnyrch sylfaenol diwydiant amaeth a physgodfeydd Cymru a'r DU, gael ei ystyried yn llawn.

## Crynodeb o'r Polisi

**Mae'n amlwg y bydd yn heriol llwyddo i negodi cytundeb i ymadael â'r UE a chytundeb economaidd newydd rhwng y DU a'r UE yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd ar ôl tanio Erthygl 50. Felly mae'n hanfodol cytuno, fel dewis wrth gefn a dros dro, ar drefniadau pontio sy'n caniatáu i'r DU barhau i gymryd rhan yn y Farchnad Sengl a bod yn aelod o Undeb Tollau'r UE wrth ystyried a negodi perthynas fasnach ar gyfer y dyfodol.**

# 10 Casgliad

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar y prif faterion sy'n codi i Gymru, yr ydym yn credu bod rhaid i Lywodraeth y DU eu cynnwys yn llawn yn ei safbwynt negodi wrth ddechrau ar y cyfnod ffurfiol o negodi telerau ymadael. Nid yw'r papur hwn yn hollgynhwysfawr, ac nid oes modd iddo fod felly. Fe gafodd ei ysgrifennu heb i ni gael gweld cynllun clir gan Lywodraeth y DU, nac unrhyw ddadansoddiad ganddi am yr opsiynau ar gyfer y dyfodol. Wrth i'r DU ystyried ymhellach a dechrau ar gyfnod o negodi ffurfiol, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n newid ac y bydd rhai safbwyntiau'n amrywio.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU. Rydym yn annog Llywodraeth y DU i ystyried buddiannau Cymru, fel y nodwyd gennym, yn llawn o fewn safbwynt ehangach y DU. Yn yr un modd ag y mae'r Papur Gwyn hwn yn cynrychioli barn mwy nag un blaid yng Nghymru, rydym yn dweud yn glir bod yn rhaid i'r penderfyniadau ystyried buddiannau cenedlaethol Cymru a'r DU yn y tymor hir. Byddwn yn gefnogol lle bynnag y bo modd, ond yn hynod feirniadol lle byddwn yn gweld perygl i fuddiannau Cymru gael eu bradu neu eu hesgeuluso.

Rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i negodi ar ran pob un o'i phobl a phob un o'r gwledydd sy'n rhan ohoni. Byddwn yn sicrhau mewn ffordd adeiladol ei bod yn atebol ar ran pobl Cymru. Ein nod yw sicrhau bod ewyllys ddemocrataidd pobl Cymru, a'n hanghenion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, yn cael eu hystyried yn llawn o fewn safbwynt y DU, fel nad yw ymadael â'r UE yn fygythiad, ond yn hytrach yn gyfle i sicrhau dyfodol cadarnhaol i Gymru.

# 11 Atodiad A – Crynodeb o effeithiau economaidd posibl 'Brexit' ar Gymru

## Paratowyd gan Brif Economegydd Llywodraeth Cymru

### Effeithiau tymor hir

Mae dadansoddiadau ar lefel y DU yn dangos bod graddfa'r masnachu rhwng y DU a'r UE yn un o'r prif ffactorau wrth ystyried effaith llai o fynediad at y Farchnad Sengl ar economi'r DU, ac nid yw hynny'n syndod o gwbl.

Fel y nodir isod, mae'r ystadegau allforio rhanbarthol yn dangos bod Cymru hyd yn oed yn fwy dibynnol ar farchnadoedd yr UE am allforio nwyddau tramor na'r DU yn gyfan.

Er hyn, nid oes modd pennu union effaith amrywiad daearyddol o ran mynediad at y Farchnad Sengl. Fel y gwelir isod, cyfyngedig iawn yw gwerth yr ystadegau allforio rhanbarthol at y diben hwn, ac nid oes unrhyw ddata dibynadwy ynghylch effeithiau anuniongyrchol a fyddai'n ymddangos drwy fasnach o fewn y DU. Fodd bynnag, gwelir yr effaith fwyaf o adael y Farchnad Sengl yn yr effeithiau anuniongyrchol ac ar draws yr economi gyfan, gan gynnwys y rhai sy'n dod o ganlyniad i lai o fewnforion a mewnfuddsoddi.

Dengys y dangosyddion ar gyfer twf economaidd bod Cymru a'r DU wedi gweld tueddiadau tebyg yn ystod y tymor canolig (10-15 mlynedd), yn arbennig o edrych ar Werth Ychwanegol Gros y pen ac ar Incwm Aelwydydd. O ystyried maint ac amrywiaeth yr amcangyfrifon a wnaed o ran effaith bosibl Brexit ar lefel y DU, mae'n rhesymol defnyddio'r amcangyfrifon hyn fel amcangyfrif cychwynnol o'r effaith gyffredinol debygol ar economi Cymru.

Mae Tabl 1 yn cynnwys amcangyfrifon o effaith economaidd amryw o senarios Brexit yn y tymor hirach gan dri phrif ymchwilydd, gan gynnwys dau annibynnol. Mae'r dadansoddiad sydd i'w weld yn Nhabl 1 yn canolbwyntio ar yr effeithiau yn y tymor hir (dewiswyd 2030 fel enghraifft), yn hytrach na chanlyniadau unrhyw ergydion yn y tymor byrrach a allai amlygu eu hunain yn ystod y broses negodi i ymadael a/neu i gytuno ar drefniadau masnachu newydd, ai peidio. Nid yw'r gwaith dadansoddi yn asesu effaith debygol cyfnod estynedig o ansicrwydd o ganlyniad i'r broses ychwaith. Mae'r ystod o bosibiliadau yn y meysydd hyn yn rhy eang i ganiatáu mesuriad o unrhyw werth, ond mewn rhai senarios gallai'r gost fod yn un uchel iawn.

**Tabl 1: Asesiad o effaith economaidd Brexit yn 2030**

| Senario | Sefydliad | Uniongyrchol (% o'r CDG) | Anuniongyrchol (% o'r CDG) |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth o'r EEA | CEP | -1.3 | |
| | NIESR | -1.8 | |
| | Trysorlys Ei Mawrhydi | | -3.8 |
| Cytundeb Masnach Rydd gyda'r UE | CEP | | -7.9 |
| | NIESR | -2.1 | |
| | Trysorlys Ei Mawrhydi | | -6.2 |
| Rheolau Sefydliad Masnach y Byd | CEP | -2.6 | |
| | NIESR | -3.2 | -7.8 |
| | Trysorlys Ei Mawrhydi | | -7.5 |

Ffynhonnell: Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

Gwnaed y dadansoddiad a welir yn y tabl cyn y refferendwm. Gan ei fod yn ymwneud ag effeithiau'r tymor hirach, nid yw perfformiad yr economi yn y misoedd ar ôl y refferendwm yn rhan o'r asesiad o'i ddibynadwyedd.

Amcangyfrifon canolog o'r gwahaniaethau a fyddai i'w gweld o dan y trefniadau masnachu newydd ym mhob achos yw'r ffigurau yn y tabl, a hynny o ystod eang. Yn syml, maent yn cyfeirio at y newid o gymharu â beth bynnag fyddai lefel disgwyliedig yr allbwn yn 2030 pe bai'r trefniadau presennol wedi parhau.

Byddai llai o dwf yn y Cynnyrch Domestig Gros yn cael ei adlewyrchu hefyd mewn cyflogau ac incwm is. Er eglurhad yn unig ac wrth ystyried yr effaith yng ngwerthoedd heddiw, pe bai'r effaith ar y twf yn nes at waelod yr ystod yn y tabl, byddai incwm pob person yng Nghymru tua £200 yn is y flwyddyn. Pe bai'r effaith ar y twf yn nes at ben uchaf yr ystod, byddai incwm pob person tua £1,200 yn is y flwyddyn.

Caiff canlyniadau dau o'r cyrff ymchwil economaidd annibynnol mwyaf uchel eu parch eu cynnwys, sef y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd (CEP)[12] yn Ysgol Economeg Llundain a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR)[13].

Mae canlyniadau Trysorlys Ei Mawrhydi wedi'u cynnwys hefyd[14]. Yn gyffredinol mae'r rhain yn cyd-fynd â'r amcangyfrifon annibynnol lle mae modd eu cymharu. Mae amryw o gyrff eraill wedi cyflwyno ffigurau hefyd gan ddefnyddio ystod eang o fethodoleg.

Ar y cyfan, mae'r ffigurau a ddefnyddir yn y tabl yn gyson â'r astudiaethau ehangach.

Mae'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Busnes ym Mhrifysgol Caergrawnt wedi cyhoeddi ymchwil[15] yn ddiweddar sy'n awgrymu y gallai'r effeithiau, er y byddent yn dal i fod yn negyddol, gyfateb i'r rhai ar waelod y tabl neu'n is na hynny. Mae'r ddadl hon wedi'i seilio ar amcangyfrif sy'n datgan na fyddai effaith ymadael â'r UE ar lif masnachu mor uchel â'r hyn a ragdybiwyd gan y rhan fwyaf o ymchwilwyr eraill.

Y dadansoddiad a gyflwynwyd gan 'Economists for Brexit[16]' (heb ei gynnwys yn y tabl) yw'r prif allanolyn o blith yr astudiaethau sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'n awgrymu y byddai'r DU yn gweld effaith gadarnhaol pe bai'n mabwysiadu polisi unfrydol o ddiddymu pob rhwystr i fewnforion. Mae ymchwilwyr prif ffrwd fel ymchwilwyr y Ganolfan ar gyfer Perfformiad Economaidd, yn ystyried y senario hon fel un annhebygol ac yn nodi hefyd y byddai'r cyfleoedd i fasnachu gyda gwledydd sy'n bellach yn ddaearyddol yn fwy cyfyngedig. Maent hefyd wedi dadlau nad yw prisiau mewn marchnadoedd byd-eang yn adlewyrchu'r gwerth economaidd oherwydd y gwahaniaethau mewn safonau diogelwch ac agweddau eraill ar ansawdd cynnyrch.

Mae'r effeithiau uniongyrchol sydd i'w gweld yn y tabl yn deillio o ostyngiad yn nifer y mewnforion a'r allforion a'r gostyngiad cysylltiedig yn nifer y cyfleoedd i arbenigo, ac o golli arbedion maint, cynnydd ym mhrisiau mewnforio a mewnbwn neu lai o fewnfuddsoddi. Mae amcangyfrif yr effeithiau hyn yn broses weddol syml ac annadleuol. Ffigurau net o'r newidiadau i gyfraniadau i gyllideb yr UE gaiff eu datgan. Rhagdybir mai sero yw gwerth hwn yn achos opsiwn Sefydliad Masnach y Byd a'i fod yn is na'r cyfraniadau presennol yn yr achosion eraill.

Canlyniadau llai o dwf mewn cynhyrchiant yn deillio o ffactorau fel llai o bwysau i gystadlu a chyfraddau is o fewnfuddsoddi fyddai'r effeithiau anuniongyrchol. Mae'r dystiolaeth ansoddol ar gyfer effeithiau o'r fath yn gryf, ond gan ei bod yn llawer anos eu mesur dylid bod yn ofalus wrth eu trin. Yn gyffredinol, mae'n bosibl y bydd y colledion economaidd sy'n gysylltiedig â Brexit yn rhai mawr iawn, ond ceir cysylltiad agos hefyd rhwng hyn a lefel y mynediad a fydd yn cael ei gadw at y Farchnad Sengl. Pe gellid cadw mynediad ar y raddfa fwyaf, mae'n bosibl mai cymedrol a fyddai'r colledion.

Mae'n bosibl y gallai cytundebau newydd ar fasnachu rhydd gyda gwledydd eraill liniaru effaith penderfyniad i gael mynediad ar raddfa lai at y Farchnad Sengl i ryw raddau. Er hyn, ac ar wahân i anawsterau ymarferol cadarnhau cytundebau o'r fath, mae dwy brif broblem. Yn gyntaf, ceir tystiolaeth gref bod agosrwydd yn elfen bwysig ar gyfer masnachu ar bob lefel. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt daearyddol, ond hefyd wrth ystyried pa mor ddatblygedig yw'r wlad. Yn ail, mae gwaith dadansoddi wedi dangos bod rhwystrau di-dariff yn debygol o fod yn fwy o her i fasnachu na'r tariffau eu hunain.

Mae'r amcangyfrifon yn y tabl yn gysylltiedig â chanlyniadau ymadael â Marchnad Sengl yr UE ac nid ydynt yn ystyried sefyllfa lle byddai'r DU yn parhau i fod

[12] Dadansoddiad CEP: http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/brexit02.pdf
[13] Dadansoddiad NIESR: http://www.niesr.ac.uk/sites/default/files/publications/National%20Institute%20Economic%20Review-2016-Ebell-121-38.pdf
[14] Dadansoddiad Trysorlys Ei Mawrhydi: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/517154/treasury_analysis_economic_impact_of_eu_membership_print.pdf
[15] http://www.cbr.cam.ac.uk/fileadmin/user_upload/centre-for-business-research/downloads/working-papers/wp483revised.pdf
[16] www.economistsforbrexit.co.uk/

yn aelod o Undeb Tollau'r UE mewn perthynas â nwyddau ond yn ymadael â'r Farchnad Sengl. Caiff manteision ac anfanteision aros yn rhan o Undeb Tollau'r UE sylw isod.

## Effeithiau economaidd yn y tymor byrrach

Mae'r amcangyfrifon a ddisgrifir uchod yn ymwneud â'r effeithiau hirdymor. Mae llawer o sylw wedi'i roi i amcangyfrifon ynghylch effaith bosibl yr 'ergydion' oedd gysylltiedig â chanlyniad y refferendwm a'r digwyddiadau yn syth ar ôl hynny. Hyd yn hyn, mae effeithiau o'r fath wedi bod yn llawer mwy cymedrol na'r hyn yr oedd nifer wedi'i ddisgwyl. Yn ôl rhai sylwebwyr, y camau a gymerwyd gan Fanc Lloegr i achub y blaen oedd wrth wraidd hyn i raddau. Mae gwariant defnyddwyr wedi bod yn galonogol, ond mae'n dal i fod yn ddyddiau cynnar.

Er hynny, mae dadansoddi effeithiau'r tymor byr yn codi materion gwahanol i'r rhai sy'n codi wrth ddadansoddi'r canlyniadau hir dymor na fydd yn amlygu eu hunain yn llawn nes i'r DU ymadael â'r UE yn llwyr.

Efallai mai effaith tymor byr amlycaf y refferendwm hyd yn hyn yw'r effaith y mae wedi'i chael ar y gyfradd gyfnewid. Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, roedd cyfradd gyfnewid gyfredol y bunt wedi gostwng tua 12% ers y cyfnod cyn y refferendwm.

## Yr Undeb Tollau

Trefniadau rhwng gwledydd yw undebau tollau lle mae'r partïon yn:

- Cytuno i ganiatáu masnach rydd o nwyddau o fewn yr undeb tollau, a
- Cytuno ar dariff allanol cyffredin mewn perthynas â mewnforion o weddill y byd.

Mae Undeb Tollau'r UE yn cynnwys aelodau'r UE yn ogystal ag Andorra, San Marino, Monaco a Thwrci.

Un o'r prif fanteision o aros yn rhan o Undeb Tollau'r UE yw y byddai'n gwarchod masnach rydd mewn nwyddau gydag aelodau'r UE ynghyd ag Andorra, San Marino, Monaco a Thwrci a'r gwledydd eraill sy'n bartneriaid yn y 56 o gytundebau masnach rydd sydd gan yr UE, sy'n rhoi gwell mynediad at farchnadoedd y tu allan i'r UE[18]. Dyma sail gadarn o sawl perthynas masnachu ffafriol o bob cwr o'r byd ar gyfer allforion Cymru a Phrydain.

Ar ben hyn, mae'r ymrwymiad i dariff allanol cyffredin fel arfer yn golygu nad oes rhaid wynebu cynifer o weithdrefnau tollau cymhleth wrth y ffiniau, os o gwbl, yn enwedig o ran y rhai sy'n ymwneud â gofynion 'Rheolau Tarddiad'.

Mae amcangyfrif costau economaidd rhwystrau di-dariff sy'n gysylltiedig â thollau o'r fath yn her, ond awgryma canlyniadau amryw o astudiaethau y gallai fod yn tua un y cant o'r cynnyrch domestig gros.

Ni cheir amcangyfrifon wedi'u mesur o fanteision cyffredinol aros yn rhan o Undeb Tollau'r UE gan nad yw'r astudiaethau sydd ar gael wedi gallu gwahaniaethu rhwng y manteision o fasnachu fel rhan o'r Undeb Tollau a'r manteision sy'n gysylltiedig â bod yn aelod o'r Farchnad Sengl. Yn gyffredinol, mae mwy o fanteision i'r Farchnad Sengl gan eu bod yn cynnwys rhwystrau di-dariff is yn y rhan fwyaf o feysydd (heblaw am weithdrefnau tollau) ac effeithiau cadarnhaol ar y sector gwasanaethau.

Un anfantais o aros yn rhan o Undeb Tollau'r UE ar ôl ymadael â'r UE yw y byddai hyn yn atal y DU rhag negodi cytundebau masnachu dwyochrog eraill. Gallai hefyd olygu y byddai'n rhaid i'r DU ganiatáu mynediad di-dariff at farchnad y DU i wledydd sy'n cytuno ar drefniadau masnach rydd newydd â'r UE, heb allu cadarnhau manteision cyfatebol i allforion y DU yn syth.

Mae'r dibrisiad yng ngwerth y bunt yn fantais i raddau. Un o fanteision y dibrisiad hwn yw bod prisiau yn fwy cystadleuol i ddiwydiannau sy'n mewnforio ac yn allforio. Dros amser, wrth i gwmnïau allu newid lefel eu cynhyrchiant dylai hyn arwain at nifer uwch o allforion ac at fewnforio llai. Dylai gwerth yr incwm a enillir dramor godi hefyd. Bydd yr effeithiau hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn gwell sefyllfa o ran balans taliadau.

Y prif anfanteision yw'r cynnydd yn y prisiau mewnforio. Bydd y prisiau mewnforio uwch hyn yn lleihau effaith manteision y dibrisiad yng ngwerth y bunt i allforwyr gan fod llawer o fewnbwn yn cael ei fewnforio. Bydd hefyd yn arwain at ostyngiad mewn cyflogau ac incwm real. Effaith byrdymor untro[19] yw hwn, ond os bydd yn parhau bydd twf incwm y bobl yn cael ei osod ar lwybr is.

Efallai bod rôl mewnbynnau sy'n cael eu mewnforio, ynghyd â'r ffaith bod cystadleuaeth o ran prisiau allforio'n ddibynnol ar nifer o ffactorau eraill heblaw am y pris, yn egluro'n rhannol pam fod profiad y DU o fasnachu'n rhyngwladol yn ystod cyfnodau blaenorol pan oedd y bunt

[17] Fodd bynnag, nid oes gan yr UE gytundebau masnachu gyda nifer o'r gwledydd a chanddynt economi fawr. Mae'r rhestr bresennol o farchnadoedd y mae gan yr UE Gytundeb Masnach Rydd â nhw yn cynnwys: Mecsico, Chile, Perw, Moroco, Algeria, Tunisia, yr Aifft, Gwlad yr Iorddonen, Israel, Tiriogaeth Palestina, Lebanon, Syria, FYR Macedonia, Albania, Serbia, Montenegro, Bosnia a Herzegovina, y Swistir, Corea, Antigua, Barbuda, Belize, y Bahamas, Barbados, Dominica, Gweriniaeth Dominica, Grenada, Guyana, Haiti, Jamaica, St. Kitts a Nevis, St. Lucia, St. Vincent a'r Grenadines, Suriname, Trinidad a Tobago, Colombia, Honduras, Nicaragua, Panama, Guatemala, Papua Guinea Newydd, De Affrica, Madagascar, Mauritius, Seychelles, Zimbabwe, Costa Rica, El Salvador, Fiji, Cameroon, Georgia, Moldova, Yr Wcráin, Undeb Tollau'r UE (Andorra, Monaco, San Marino, Twrci), EEA (Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein).

[18] Gan mai effaith untro sy'n rhan o'r cyfnod pontio yw hwn, nid yw'r cynnydd yn y pris yn cael ei ystyried fel "chwyddiant".

yn wan wedi bod yn siomedig. Yn yr un modd, gallai hefyd gyfyngu ar sut y byddai'r dibrisiad yng ngwerth y bunt yn lliniaru effaith y penderfyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Awgrymir weithiau y bydd effaith y dibrisiad yn gwrthbwyso (neu fwy na hynny) effaith unrhyw dariffau neu rwystrau masnach eraill a fydd yn deillio o'r trefniadau masnachu newydd y bydd angen eu sefydlu. Fodd bynnag, os yw'r prif arbenigwyr yn gywir nid oes sail gadarn i'r ddadl hon. Mae dibrisiad yn cyd-fynd â llai o dwf yn y dyfodol. Byddai'n amlwg felly bod yr effeithiau manteisiol wedi mwy na'u gwrthbwyso gan ganlyniadau negyddol ymadael ar gynhyrchiant. Byddai disgwyl i gyfnod estynedig o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â negodi'r telerau i ymadael â'r UE a chadarnhau cysylltiadau masnachu eraill arwain at ganlyniadau economaidd negyddol yn y tymor canolig, a rheini'n rai sylweddol o bosibl. Un o'r prif feysydd lle y gallai hyn amlygu ei hun fyddai gostyngiad i fuddsoddiadau mewn busnesau. Nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrifon cadarn o'r effeithiau hyn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y bydd y broses yn mynd rhagddi. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl cytuno ar drefniadau parhaol yn gyflym, ac mae hynny'n edrych yn debygol, mae'r potensial o wynebu canlyniadau negyddol sylweddol yn cryfhau'r ddadl o blaid cytuno ar y trefniadau pontio cyn gynted â phosibl.

Yn ei rhagolwg economaidd a chyllidol ym mis Tachwedd 2016 nododd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol[19] mai llai o fuddsoddi a llai o fudo i'r DU fyddai'r prif feysydd a fyddai'n effeithio ar economi'r DU yn y tymor byr yn sgil y broses o ymadael â'r UE.

Amcangyfrif canolog y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o effaith llai o fuddsoddi ar allbwn yn 2021 oedd gostyngiad o 1.5% yn y cynnyrch domestig gros, gyda chynnyrch domestig gros y pen yn gweld gostyngiad o 1.4%. Yn eu canlyniadau, roedd y cynnyrch domestig gros 1% yn is yn 2021 o ganlyniad i lai o fewnfudo gyda chynnyrch domestig gros y pen yn gweld gostyngiad o 0.3%. Effaith gyfunol llai o fuddsoddi a llai o fewnfudo yn 2021 oedd gostyngiad o 2.4% yn y cynnyrch domestig gros ac 1.7% y pen. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol bod yr amcangyfrifon hyn yn ansicr iawn.

Mae'r amcangyfrifon o'r effaith ar dwf yn y tymor byr yn gwyro tuag at ben fwy gobeithiol yr ystod o ffigurau a gyflwynwyd gan yr arbenigwyr annibynnol. Er hynny, maent yn dal i gynrychioli cost economaidd sylweddol ac nid ydynt yn awgrymu bod yr amcangyfrifon ar gyfer yr effeithiau hirdymor a nodir uchod yn or-negyddol.

## Effeithiau byrdymor penodol i Gymru

Er bod yr economi yng Nghymru wedi glynu'n eithaf agos at berfformiad economaidd y DU dros y tymor canolig, yn y tymor byr mae'n bosibl bod Cymru'n fwy agored i niwed gan yr ergydion economaidd na rhannau eraill y DU.

Daw hyn o ganlyniad i'r ffaith fod yr economi'n llai cadarn o ystyried cyflogau ac incwm is, ynghyd â lefelau uwch o amddifadedd. Gallai'r ffaith bod Cymru'n dibynnu mwy ar weithgynhyrchu na nifer o rannau eraill y DU hefyd gynyddu'r peryglon iddi.

Yn ogystal â hyn, dylid nodi bod allforion rhyngwladol Cymru yn ymwneud yn bennaf â nifer fechan o allforwyr mawr, felly gallai colli diwydiannau pwysig fod yn arwyddocaol iawn i rai lleoliadau yn y wlad.

Am yr holl resymau hyn, os bydd y broses o ymadael â'r UE yn cael ei llesteirio ar unrhyw adeg, gan ddirwasgiad hyd yn oed, bydd yr effeithiau negyddol ar Gymru yn debygol o fod yn uwch nag ar y DU yn gyfan.

## Yr effaith ar sectorau Cymru sy'n ddibynnol ar farchnadoedd rhyngwladol

Fel yr eglurwyd uchod, pe bai unrhyw drefniadau masnachu newydd yn cyfyngu ar fynediad at y Farchnad Sengl byddai'r effaith fwyaf ar Gymru yn cael ei gweld yn anuniongyrchol drwy gysylltiadau masnachu Cymru gyda gweddill y DU. Y rhesymau am hyn yw graddfa'r effaith ar fewnbwn ac allbwn economaidd y DU, graddfa'r cysylltiadau masnachu rhwng Cymru a gweddill y DU, yr effeithiau cyllidol, a'r ffaith bod y dadansoddi'n dangos mai'r effeithiau anuniongyrchol mwyaf yw canlyniadau llai o gynnydd mewn cynhyrchiant sy'n effeithio ar yr economi gyfan.

Fodd bynnag, bydd effeithiau uniongyrchol pwysig hefyd i'w gweld ar sectorau yng Nghymru sy'n allforio, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ddarparu mewnbynnau i gynnyrch sy'n cael eu hallforio o weddill y DU. Fel y nodwyd eisoes, nid oes unrhyw ystadegau ar gyfer yr allforion 'anuniongyrchol' hyn ond awgryma amcangyfrifon y gallant fod mor bwysig i economi Cymru ag allforion uniongyrchol. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal trafodaethau gyda busnesau yng Nghymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r effeithiau posibl o ganlyniad i allforion anuniongyrchol.

Byddai disgwyl i sectorau a defnyddwyr sy'n defnyddio cynnyrch wedi'i fewnforio hefyd gael eu

[17] http://cdn.budgetresponsibility.org.uk/Nov2016EFO.pdf

heffeithio pe bai cynnydd ym mhris nwyddau sy'n cael eu mewnforio neu pe byddent yn dod yn anos eu cael.


Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal gwaith dadansoddi er mwyn deall yn well beth fyddai effaith gwahanol drefniadau masnachu posibl y DU yn y dyfodol i brif sectorau economaidd Cymru. Nid diben yr Atodiad hwn yw rhoi dadansoddiad o'r fath. Ei fwriad yn hytrach yw nodi'r hyn sy'n wybyddus am batrwm presennol masnachu rhyngwladol Cymru ac amlygu rhai o'r prif faterion sy'n codi wrth ddadansoddi'r data perthnasol.

## Mewnforion ac allforion Cymru

O ran masnachu uniongyrchol, mae data ar nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio i'w cael gan swyddfa Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi[20].


Wrth baratoi'r data, dosrannwyd cyfansymiau'r DU ar gyfer busnesau sy'n gweithredu ledled y DU. Felly mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adlewyrchiad hollol gywir o ddibyniaeth unedau busnes Cymru ar farchnadoedd allforio penodol. Golyga hyn hefyd mai gwerth cyfyngedig sydd i'r data wrth i Lywodraeth Cymru roi polisi ar waith, er enghraifft i nodi'r rhannau o'r farchnad lle byddai rhagor o allforion fwyaf tebygol o fod yn llwyddiannus.

**Siart 1a: Nwyddau a allforiwyd o Gymru. 2013–2015, £m**




Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o ddata CThEM

**Siart 1b: Nwyddau a allforiwyd o Gymru 2006-2011. 2006=100**




Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o ddata CThEM

[20] https://www.uktradeinfo.com/Statistics/RTS/Pages/default.aspx

Ymhellach at hyn, nid yw'r ffigurau ar gyfer gwerthoedd allforio'n dangos y gwerth ychwanegol yng Nghymru. Dyma bwynt pwysig sy'n ategu bod angen cymryd gofal cyn dod i gasgliad ynghylch effaith economaidd newid lefelau allforio. Ceir rhagor o fanylion isod.

Gall data ar gyfer allforion fod yn ansicr hefyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd mai nifer fechan o fusnesau sy'n gyfrifol am gyfran uchel o allforion Cymru, a gall y ffigurau gael eu dylanwadu gan yr amseroedd cludo. Oherwydd hyn, dylid trin data blwyddyn unigol fel data dangosol yn hytrach na data diffiniol, ac mae hynny'n bwysicach fyth mewn cyd-destun chwarter unigol.

Gan roi ystyriaeth i'r pwyntiau hyn, mae tueddiadau allforio nwyddau diweddar Cymru i'w gweld yn Siartiau 1a ac 1b. Cynhaliodd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi welliannau i'w methodoleg yn ddiweddar sy'n golygu bod data o'r blynyddoedd cyn 2012 yn llai dibynadwy na data'r blynyddoedd diweddaraf, yn enwedig mewn perthynas â'r lefelau masnachu. Diben Siart 1b yw dangos tueddiadau cyffredinol yn unig.

Gellir gweld yn Siart 1a bod cyfanswm gwerth allforio nwyddau o Gymru i wledydd yr UE yn llawer uwch nag i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE. Gwelir hefyd ei fod wedi bod yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae Siart 1b yn dangos y newid o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaenol (2006) yn hytrach na'r union lefelau. O'r siart gwelir bod allforion i wledydd yr UE wedi bod yn sefydlog yn gyffredinol dros y tymor canolig cyn 2012, tra gwelwyd cynnydd yn yr allforion i wledydd y tu allan i'r UE. Mae'n debygol mai'r cyfnod lle gwelwyd adferiad i fasnachu byd-eang yn dilyn y dirwasgiad sy'n rhannol gyfrifol am hyn. Mae data ar gyfer y prif gategorïau o nwyddau sy'n cael eu hallforio o Gymru ac o'r DU fel cymhariaeth i'w gweld yn Nhabl 2.

Mae Tabl 2 yn dangos bod tua dwy rhan o dair o'r nwyddau gaiff eu hallforio o Gymru'n mynd i wledydd yr UE o'i gymharu â tua hanner ar gyfer y DU yn gyfan. Tua hanner yw cyfran yr Alban hefyd.

Mae Tabl 3 yn cynnwys dadansoddiad manylach o'r cynnyrch a allforiwyd sydd â'r gwerth mwyaf ar gyfartaledd dros y tair blynedd ddiwethaf er mwyn lliniaru effaith yr ansicrwydd blynyddol.

## Tabl 2: Allforion nwyddau, 2015

| | Cymru | | y DU | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfran i'r UE (%) | Cyfran y sector (%) | Cyfran i'r UE (%) | Cyfran y sector (%) |
| Bwyd ac Anifeiliaid Byw | 83% | 1% | 71% | 2% |
| Diodydd a Thybaco | 43% | 1% | 39% | 3% |
| Deunyddiau Crai, Anfwytadwy, ac eithrio Tanwydd | 28% | 4% | 41% | 2% |
| Mwynau, Tanwyddau, Ireidiau ac ati | 47% | 21% | 74% | 4% |
| Olewau Anifeiliaid a Llysiau ac ati | 61% | 0% | 84% | 0% |
| Cemegau a chynhyrchion cysylltiedig | 55% | 16% | 49% | 19% |
| Nwyddau wedi'u Cynhyrchu | 68% | 18% | 53% | 9% |
| Peiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth | 80% | 25% | 42% | 43% |
| Nwyddau Amrywiol wedi'u Cynhyrchu | 55% | 13% | 47% | 15% |
| Nwyddau Eraill | 87% | 0% | 15% | 3% |
| **Holl Nwyddau** | 67% | 100% | 48% | 100% |

Ffynhonnell:
Dadansoddiad LlC o ddata CThEM

## Tabl 3: Cynnyrch a allforiwyd o Gymru, 2013-15, £m

| | Tu allan i'r UE | UE | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarpar Trafnidiaeth Arall | 151 | 2,156 | 2,307 |
| Petrolewm, Cynnyrch Petrolewm a Deunyddiau Cysylltiedig | 999 | 1,022 | 2,021 |
| Dur a Haearn | 265 | 662 | 927 |
| Peiriannau a Chyfarpar Trydanol ac ati, a Rhannau heb eu nodi yn unman arall | 328 | 280 | 609 |
| Metelau Anfferus | 278 | 326 | 604 |
| Cerbydau Ffordd (gan gynnwys Cerbydau â Chlustogau Aer) | 79 | 354 | 432 |
| Cynnyrch Meddygol a Fferyllol | 215 | 145 | 360 |
| Eitemau Eraill wedi'i Cynhyrchu heb eu nodi yn unman arall | 62 | 295 | 358 |
| Offer a Chyfarpar Proffesiynol, Gwyddonol a Rheoli heb eu nodi yn unman arall | 187 | 102 | 288 |
| Peiriannau, Cyfarpar a Rhannau Diwydiannol Cyffredinol heb eu nodi yn unman arall | 148 | 139 | 286 |
| Dodrefn a rhannau o ddodrefn; Gwelyau a Matresi ac ati | 198 | 85 | 283 |
| Cemegau Organig | 126 | 153 | 279 |
| Cynnyrch Metel heb eu nodi yn unman arall | 76 | 175 | 251 |
| Peiriannau a Chyfarpar sy'n Cynhyrchu Pŵer | 123 | 125 | 248 |
| Mwynau a Sgrap o Fetel | 155 | 63 | 218 |
| Peiriannau Arbennig ar gyfer Diwydiannau Penodol | 127 | 76 | 203 |
| Plastigau ar Ffurf Sylfaenol | 68 | 126 | 194 |
| Papur a chynhyrchion papur | 53 | 121 | 175 |
| Deunyddiau a Chynnyrch Cemegol heb eu nodi yn unman arall | 92 | 83 | 175 |
| Peiriannau Swyddfa a Pheiriannau Prosesu Data Awtomatig | 48 | 120 | 168 |
| Cynnyrch Mwynol Anfetelaidd heb eu nodi yn unman arall | 52 | 104 | 156 |
| Plastigau ar Ffurf nad yw'n Sylfaenol | 56 | 89 | 145 |
| Offer a Chyfarpar Telathrebu ac ati | 36 | 74 | 110 |
| Olewau Hanfod a Phersawr; Cynnyrch Ymbincio ac ati | 42 | 67 | 109 |
| Cynhyrchion Rwber heb eu nodi yn unman arall | 15 | 89 | 104 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o ddata CThEM

Mae data ar gyfer allforio gwasanaethau'n cael eu cynhyrchu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sail arbrofol.

Cyfanswm yr allforion gwasanaethau o Gymru yn 2014 (y flwyddyn ddiweddaraf) oedd £4.7bn o'i gymharu â chyfanswm o £13.3bn o allforion nwyddau.

Y tri phrif gategori o allforion y sector gwasanaethau o Gymru yn 2014 oedd:


- Gwasanaethau yswiriant a phensiwn (25%)
- Gwasanaethau gweithgynhyrchu e.e. gwaith atgyweirio (25%)
- Gwasanaethau ariannol (18%).

Mae Siart 2 yn cynnwys dadansoddiad manwl, safon uchel o'r sectorau allforio mwyaf yng Nghymru o ran nwyddau a gwasanaethau, ar gyfartaledd dros y tair blynedd diweddaraf er mwyn lleihau'r ansicrwydd[21]. Yn gyffredinol, ni ellir gwahanu'r data ar allforio gwasanaethau fesul lleoliad. Caiff data ar wariant myfyrwyr rhyngwladol, sy'n fath o allforio gwasanaethau, ei gasglu o ffynhonnell wahanol felly efallai nad oes modd ei gymharu'n llwyr[22].

Mae'r data ar gyfer allforion sy'n nwyddau ac yn wasanaethau'n fesuriad cyffredinol o 'fewnbwn'[23] ac nid 'gwerth ychwanegol'. O ganlyniad, nid yw'n golygu o reidrwydd bod gwerth uchel ar gyfer allforion yn golygu bod Cymru'n elwa ar lefel uchel o werth ychwanegol neu gyflogaeth. I osod y cyd-destun, tua chwarter gwerth y trosiant yw'r gwerth ychwanegol mewn diwydiannau cynhyrchu fel arfer. Bydd cyfran y gwerth ychwanegol yn y data ar gyfer allforion hyd yn oed yn is . Mae'n debyg mai'r enghraifft fwyaf eithafol o'r gwahaniaeth rhwng gwerth allforion a gwerth ychwanegol yw ym maes allforio Petrolewm ac ati (yr elfen fwyaf o 'Nwyddau – Mwynau, Tanwydd, ac ati'), sy'n dangos gwerth uchel iawn ond lle mae llawer ohono'n perthyn i nwyddau sy'n cael eu mewnforio ac yna'u hallforio heb lawer o waith prosesu, os o gwbl[24].

Mae'n debygol y bydd cyfran gwerth ychwanegol a chyflogaeth Cymru yn uwch mewn allforion gwasanaethau na nwyddau, felly mae'n debygol y bydd y prif ddata yn Siart 2 yn rhoi'r argraff nad yw'r cyntaf mor bwysig â'r olaf. Mae gwasanaethau hefyd yn debygol o chwarae rhan gynyddol bwysig dros amser, gan fod tueddiad cyffredinol i'r galw am wasanaethau fod yn uwch na'r galw am nwyddau a weithgynhyrchir mewn gwledydd datblygedig, gan gynrychioli'r newid yn y patrymau galw wrth weld cynnydd mewn cyfoeth.

## Siart 2: Nwyddau a gwasanaethau a allforiwyd o Gymru, 2013-15, £m (cyfartaledd)




UE

Tu allan i'r UE

Cyfanswm

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

[21] Nid oes data ar gael ar gyfer gwasanaethau yn 2015, felly cyfartaledd dros ddwy flynedd sydd wedi'i ddefnyddio yn yr achos hwnnw.

[22] Bydd gwariant twristiaid rhyngwladol, oedd tua £400m y flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf, i'w weld fwyaf o dan "Gwasanaethau – Teithio".

[23] Mae gwerth yr allforion a gofnodwyd yn yr ystadegau masnachu rhanbarthol ar gyfer nwyddau yn ehangach na gwerth y gwerthiant yn unig, gan ei fod yn cynnwys gwerth nwyddau sy'n croesi'r ffin er nad yw'r perchennog yn newid (er enghraifft mewn sefyllfa o adnewyddu).

[24] Ceir ymgais dros dro i amcangyfrif y gwerth ychwanegol i Gymru mewn cysylltiad ag allforion uniongyrchol o Gymru yn yr Atodiad.

## Tabl 4: Allforio nwyddau, 2015

| | Cymru | Y DU |
|---|---|---|
| Yr Almaen | **24.8%** | **11.0%** |
| UDA | **14.6%** | **16.0%** |
| Ffrainc | **13.7%** | **6.5%** |
| Iwerddon | **7.6%** | **6.1%** |
| Yr Iseldiroedd | **5.2%** | **6.3%** |
| Gwlad Belg | **3.8%** | **4.2%** |
| Sbaen | **2.7%** | **3.2%** |
| Yr Eidal | **2.1%** | **3.1%** |
| Tsieina | **1.8%** | **4.1%** |
| Sweden | **1.8%** | **1.6%** |
| Canada | **1.8%** | **1.4%** |
| Y Swistir | **1.2%** | **2.0%** |
| Gwlad Pwyl | **1.2%** | **1.3%** |
| De Corea | **1.2%** | **1.7%** |
| Twrci | **1.1%** | **1.2%** |
| India | **0.8%** | **1.4%** |
| Japan | **0.8%** | **1.5%** |
| Awstralia | **0.7%** | **1.3%** |
| Singapore | **0.7%** | **1.3%** |
| Saudi Arabia | **0.7%** | **2.0%** |
| Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | **0.7%** | **2.1%** |
| Hong Kong | **0.6%** | **1.9%** |
| Y Weriniaeth Tsiec | **0.6%** | **<0.5%** |
| De Affrica | **0.5%** | **<0.5%** |
| Norwy | **0.5%** | **1.1%** |

Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o ddata CThEM

Mae Tabl 4 yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch lleoliadau'r allforion, yn ôl trefn eu pwysigrwydd i Gymru. Mae'r DU wedi'i gynnwys hefyd er lles cymhariaeth.

Roedd y tair prif wlad y mae Cymru'n allforio iddynt yn gyfrifol am dros 50% o'r holl allforion yn 2015, gyda'r 10 prif wlad yn cynrychioli bron i 80% o'r holl allforion.

Mae Tabl 4 yn amlygu rhai o'r gwahaniaethau rhwng Cymru a'r DU o ran eu prif marchnadoedd allforio. Yn bennaf, mae Ffrainc a'r Almaen yn bwysicach fel marchnadoedd i Gymru nag ydynt i'r DU.

## Mewnforio nwyddau o Gymru

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd yn darparu data ar fewnforio nwyddau, ond nid oes data ar gael ar gyfer mewnforio gwasanaethau. Mae data ar gyfer y flwyddyn galendr ddiweddaraf i'w gweld yn Nhabl 5.

Yn yr un modd â'r data allforio, mae'r ffigurau'n cael eu cyfrifo drwy ddosrannu data mewnforio busnesau sy'n gweithredu ledled y DU. Felly mae'n bosibl nad yw'r data'n adlewyrchiad hollol gywir o ddibyniaeth unedau busnes Cymru ar fewnbynnau sy'n cael eu mewnforio. Ynghyd â rôl y mewnforion a'r allforion 'anuniongyrchol' sy'n rhan o lif masnach Cymru â gweddill y DU, golyga hyn nad yw'n briodol cymharu mewnforion ac allforion Cymru er mwyn cyfrifo 'cydbwysedd masnach' Cymru.

## Tabl 5: Mewnforio nwyddau, 2015

| | Cymru | Y DU |
|---|---|---|
| Bwyd ac Anifeiliaid Byw | 5% | 8% |
| Diodydd a Thybaco | 1% | 1% |
| Deunyddiau Crai | 6% | 2% |
| Tanwydd Mwynol | 19% | 8% |
| Olewau Anifeiliaid a Llysiau | 0% | 0% |
| Cemegion | 10% | 13% |
| Nwyddau wedi'u Cynhyrchu | 13% | 11% |
| Peiriannau a Thrafnidiaeth | 33% | 38% |
| Cynnyrch Amrywiol | 12% | 16% |
| Nwyddau eraill | 0% | 2% |
| **Cyfran o'r UE** | 48% | 55% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad LIC o ddata CThEM

## Goblygiadau daearyddol

Efallai y byddai disgwyl i lai o fynediad at farchnadoedd Ewropeaidd oedd yn dylanwadu ar hyfywedd busnesau allforio Cymru arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol ardaloedd. Nid oes modd cael data ar gyfer allforion ar lefel is na lefel Cymru gyfan ond bydd pa mor ddibynnol yw ardal ar y diwydiant gweithgynhyrchu'n debygol o ddangos tueddiad o fod yn agored i'r effeithiau. Mae Tabl 6 yn dangos y gyfran o'r gweithlu ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithio yn y sector cynhyrchu, sy'n cynnwys y diwydiant gweithgynhyrchu yn bennaf.

Maes arall fydd efallai'n cael ei effeithio gan lai o fynediad at y farchnad yn ogystal â'r newidiadau i'r system gymorth yw amaethyddiaeth, yn ddibynnol ar y trefniadau newydd. Mae dibyniaeth gymharol ardaloedd awdurdodau lleol Cymru ar amaethyddiaeth i'w weld o'r data ar gyflogaeth yn Nhabl 7.

## Tabl 6: Y gweithlu yn y sector cynhyrchu, 2015, %

| | |
|---|---|
| Sir y Fflint | **25%** |
| Blaenau Gwent | **23%** |
| Caerffili | **22%** |
| Castell-nedd Port Talbot | **21%** |
| Wrecsam | **21%** |
| Torfaen | **18%** |
| Merthyr Tudful | **16%** |
| Rhondda Cynon Taf | **15%** |
| Ynys Môn | **15%** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **14%** |
| Sir Gaerfyrddin | **13%** |
| Casnewydd | **12%** |
| Bro Morgannwg | **12%** |
| Sir Fynwy | **10%** |
| Powys | **10%** |
| Gwynedd | **9%** |
| Sir Ddinbych | **9%** |
| Sir Benfro | **8%** |
| Caerdydd | **7%** |
| Abertawe | **7%** |
| Ceredigion | **5%** |
| Conwy | **5%** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Tabl 7: Y gweithlu mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, 2015, %

| | |
|---|---|
| Powys | **16%** |
| Ceredigion | **11%** |
| Ynys Môn | **8%** |
| Sir Gaerfyrddin | **7%** |
| Sir Benfro | **6%** |
| Gwynedd | **6%** |
| Sir Ddinbych | **5%** |
| Sir Fynwy | **5%** |
| Conwy | **3%** |
| Sir y Fflint | **2%** |
| Wrecsam | **1%** |
| Bro Morgannwg | **1%** |
| Abertawe | **1%** |
| Castell-nedd Port Talbot | **1%** |
| Rhondda Cynon Taf | **1%** |
| Torfaen | **1%** |
| Caerffili | **1%** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | **0%** |
| Merthyr Tudful | **0%** |
| Casnewydd | **0%** |
| Caerdydd | **0%** |
| Blaenau Gwent | **n/a** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Fel y nodwyd uchod, er nad oes unrhyw ystadegau swyddogol deellir bod gwerth masnach Cymru gyda gweddill y DU sawl gwaith yn uwch na gwerth yr hyn y mae Cymru'n ei allforio'n rhyngwladol. Ceir awgrym o'r sectorau lle mae Cymru'n debygol o fod yn allforiwr/mewnforiwr net i/o weddill y DU drwy edrych ar i ba raddau y mae Cymru'n arbenigo mewn gwahanol sectorau. Mae hyn yn helpu i roi ychydig o gyd-destun wrth ystyried pa sectorau a allai fod yn agored i ostyngiad yn y galw gan economi ehangach y DU.

Mae Tabl 8 yn dangos ym mha feysydd y mae Cymru'n arbenigo fwyaf a leiaf ynddynt o'u cymharu â gweddill y DU. Cafodd y ffigurau hyn eu cynhyrchu drwy gymharu lefelau cyflogaeth fesul diwydiant yng Nghymru gyda'r lefelau ar draws y DU yn gyfan[25].

[25] Mae'r cyniferydd lleoliad yn dangos dwysedd cymharol cyflogaeth yng Nghymru o'i gymharu â'r DU yn gyfan. Mae cymhareb o un yn dangos bod gan Gymru'r un gyfran o gyflogaeth yn y sector â'r DU yn gyfan. Byddai ffigur o ddau, er enghraifft, yn dangos bod gan Gymru ddwywaith y gyfran o gyflogaeth yn y sector â'r DU, tra bod ffigur o 0.5 yn dangos bod cyfran y gyflogaeth yng Nghymru hanner yr hyn a welir yn y DU yn gyfan. Mae'r data yn y tabl yn cael ei ddiweddaru gan yr ONS ar hyn o bryd. Er hynny, mae cyniferyddion lleoliad yn dueddol o newid yn raddol felly dylai data 2011 fod yn weddol gywir o hyd.

# Tabl 8: Arbenigedd fesul Sector yng Nghymru (2011)

| Mwyaf arbenigol | |
|---|---|
| Cynhyrchu metelau sylfaenol | **3.2** |
| Mwyngloddio glo a lignit | **2.8** |
| Coedwigaeth a thorri coed | **1.9** |
| Trafnidiaeth ar y dŵr | **1.9** |
| Cynhyrchu cynnyrch fferyllol sylfaenol ac ati | **1.8** |
| Atgyweirio a gosod peiriannau a chyfarpar | **1.7** |
| Cynhyrchu papur a chynhyrchion papur | **1.7** |
| Cynhyrchu cnydau ac anifeiliaid, hela a gwasanaethau cysylltiedig | **1.7** |
| Cynhyrchu cyfarpar trafnidiaeth o fath arall | **1.7** |
| Cynhyrchu golosg a chynhyrchion petrolewm wedi'i buro | **1.6** |
| Cynhyrchu cyfarpar trydanol | **1.5** |
| Cynhyrchu cerbydau modur a threlars | **1.5** |
| Mwyngloddio o fath arall | **1.5** |

| Lleiaf arbenigol | |
|---|---|
| Cynhyrchu lledr a chynnyrch cysylltiedig | **0.5** |
| Gweithgarwch cyhoeddi | **0.5** |
| Cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu ac ati | **0.5** |
| Gweithgarwch ategol i'r gwasanaethau ariannol a gweithgarwch yswiriant | **0.5** |
| Pysgota a dyframaethu | **0.5** |
| Gweithgarwch prif swyddfeydd; gweithgarwch ymgynghorwyr rheoli | **0.5** |
| Atgyweirio cyfrifiaduron a nwyddau personol a'r cartref | **0.4** |
| Gweithgarwch gwasanaethau gwybodaeth | **0.4** |
| Rhaglennu cyfrifiadurol, ymgynghori a gweithgarwch cysylltiedig | **0.3** |
| Ymchwil a datblygu gwyddonol | **0.3** |
| Hysbysebu ac ymchwil marchnad | **0.2** |
| Trafnidiaeth awyr | **0.2** |
| Cynhyrchu dillad | **0.2** |

Ffynhonnell: ONS

## Mewnfuddsoddi

Cwmnïau dan berchnogaeth tramor sy'n gyfrifol am gyfran uchel o'r allbwn gweithgynhyrchu a'r buddsoddi yng Nghymru. Yn y flwyddyn ddiweddaraf sydd ar gael, roedd cwmnïau dan berchnogaeth y tu allan i'r DU yn gyfrifol am tua 30% o werth ychwanegol Cymru – gweler siart 3. Dim ond ychydig yn uwch na chyfran y DU yn gyfan yw hyn, ond mae'r gynrychiolaeth o weithgynhyrchwyr yng nghyfanswm Cymru'n llawer uwch (heb ei ddangos).


Mae Cymru wedi gwneud yn dda wrth ddenu prosiectau mewnfuddsoddi o dramor dros y blynyddoedd diwethaf[26].

Wrth gwrs, mae'n hynod debygol y bydd effaith negyddol ar fewnfuddsoddi ledled y DU o ganlyniad i benderfyniad y DU i ymadael â'r UE[27]. Unwaith eto, bydd difrifoldeb yr effaith dros y tymor hir yn ddibynnol ar lefel y mynediad at y Farchnad Sengl a fydd yn cael ei gadarnhau yn y pen-draw a phwysigrwydd marchnadoedd yr UE i'r buddsoddwyr dan sylw. Bydd hyn yn amlwg yn amrywio[28].

Fodd bynnag, gallai'r ansicrwydd fydd yn codi o ganlyniad i broses hir o negodi fod yn fwy o bryder gan y bydd hyn yn creu ansicrwydd a fydd yn atal mewnfuddsoddwyr newydd ac ni fydd yn cymell y buddsoddwyr presennol o dramor i fuddsoddi o'r newydd. Mae'n bosibl y gellid lliniaru'r effeithiau niweidiol hyn drwy gytuno ar drefniadau pontio ffafriol cyn gynted â phosib.

Gallai effeithiau niweidiol llai o fewnfuddsoddi yng Nghymru fod yn rhai sylweddol, yn enwedig o ystyried bod tystiolaeth yn dangos bod cynhyrchiant a thâl yn dueddol o fod yn uwch ymhlith pobl sy'n cael eu cyflogi gan fusnesau aml-genedl[29]. Yn ogystal, ceir tystiolaeth bod presenoldeb busnesau o'r fath yn arwain at effeithiau 'goferu'[30], sy'n hwb i welliannau cynhyrchiant mewn cwmnïau cynhenid.

### Siart 3: Gwerth ychwanegol yn ôl gwlad perchnogaeth, 2013




Ffynhonnell: ONS

[26] Data ar gyfer 2015/16: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/550779/DIT_Investment_Results_2015-16_v1_05-09-2016.pdf

[27] Mae tystiolaeth ddiweddar yn awgrymu y gallai aelodaeth o'r UE fod wedi cynyddu buddsoddiadau uniongyrchol o dramor i'r DU o tua 30%: http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp1453.pdf

[28] Mae rhagor o wybodaeth am bwysigrwydd mynediad at Farchnad Sengl yr UE a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar fewnfuddsoddi i'w gweld yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/277171/ep7-foreign-direct-investment-trends-manufacturing.pdf

[29] http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0672.pdf

[30] Mae crynodeb o'r effeithiau goferu i'w weld yma: http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/brexit03.pdf. Fodd bynnag, mae dadansoddiad cynharach o Gymru'n dangos darlun llawer mwy cymysg: http://gov.wales/docs/caecd/research/090617-foreign-direct-investment-en.pdf

# 12 Atodiad B: Crynodeb o'r Dystiolaeth ynghylch Materion Mudo'r UE yng Nghymru

**Paratowyd gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ar gyfer Grŵp Cynghori ar Ewrop Llywodraeth Cymru**

**Tachwedd 2016**

## Crynodeb

- Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru roi cefnogaeth ddadansoddi i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop. Bydd gwaith y Sefydliad yn ategu gwaith dadansoddi swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill.
- Lluniwyd y nodyn hwn i helpu i lywio'r drafodaeth yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar Ewrop ar 28 Tachwedd. Mae'n tynnu ynghyd y dystiolaeth bresennol ynghylch pedwar mater: maint y mudo o'r UE i Gymru; mudo o Gymru i'r UE; demograffig a nodweddion marchnad lafur y mudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru; ac agweddau'r cyhoedd at fudwyr o'r UE yng Nghymru.
- Mae yna le i ddadansoddi ymhellach er mwyn llenwi rhai o'r bylchau yn y sail dystiolaeth bresennol. Gellid paratoi'r dadansoddiad hwnnw cyn i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar Ewrop gael ei gynnal ddechrau 2017.

### Maint y mudo o'r UE yng Nghymru

- Mae cyfran y rheini sy'n byw yng Nghymru sy'n fudwyr o'r UE yn isel o'i chymharu â chyfartaledd y DU.
- Mae cyfran y mudwyr o'r UE wedi cynyddu dros y degawd diwethaf, ond yn arafach na chyfartaledd y DU.
- Mae mwy na hanner y mudwyr o'r UE yng Nghymru yn byw mewn dim ond chwe ardal awdurdod lleol – Caerdydd, Casnewydd, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Sir y Fflint a Wrecsam.
- Mae dosbarthiad y mudwyr o'r UE, a'r cynnydd yn eu nifer, wedi bod yn anwastad yng Nghymru. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft Merthyr Tudful, mae'r cynnydd canrannol yn nifer y mudwyr wedi bod yn uchel, er bod y sylfaen yn isel i gychwyn.

### Gweithwyr mudol

- Mae mwyafrif y mudwyr hirdymor o'r UE yn dod i Gymru i weithio. Mae mwy na hanner ohonynt yn dweud bod ganddynt swydd eisoes cyn iddynt gyrraedd.
- Mae mudwyr o'r UE yng Nghymru sydd o oedran gweithio yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na gweddill y boblogaeth. Ar gyfartaledd, mae gweithwyr mudol yng Nghymru yn ennill ychydig yn llai na'r rheini a anwyd yn y DU ac maen nhw'n fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau elfennol (yn perfformio tasgau syml a rheolaidd sy'n aml yn galw am ymdrech gorfforol).
- Mae nifer y mudwyr o'r UE sy'n gweithio mewn gweithgynhyrchu yn fwy na theirgwaith y mudwyr nad ydynt o'r UE. Ar y llaw arall, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, mae mwy na dwywaith cymaint o fudwyr nad ydynt o'r UE yn gweithio ag sydd yna o fudwyr o'r UE.

### Agwedd y cyhoedd

- Yn ôl data arolwg diweddar nid yw pobl yng Nghymru yn cydymdeimlo cymaint â mudwyr o'r UE ag y mae pobl mewn rhannau eraill o'r DU.
- Mae bron i dri chwarter poblogaeth Cymru yn ystyried bod gweithwyr mudol o'r UE yn cynrychioli cost net, ac maent yn fwy tebygol o gredu y dylid lleihau mewnfudo nag y mae pobl mewn rhannau eraill o'r DU.
- Nid yw'r data presennol yn dangos tystiolaeth bod unrhyw berthynas gryf rhwng graddfa'r mudo i ardal a maint y bleidlais dros ymadael â'r UE.

### Goblygiadau polisi

- Mae'r lefel gymharol isel o fudwyr o'r UE i Gymru yn awgrymu y gallai cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd gael llai o effaith mewn termau crynswth bras nag mewn rhannau eraill o'r DU.
- Mae dosbarthiad y mudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru yn anghytbwys. O ganlyniad, gallai'r effaith a gaiff cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd amrywio o un gymuned i'r llall, neu rhwng diwydiannau a gwasanaethau sydd wedi'u crynhoi mewn ardaloedd penodol.
- Gallai'r ffigurau cyffredinol hefyd gelu pa mor agored y mae rhai gwasanaethau cyhoeddus a sectorau economaidd i gael eu heffeithio yn sgil cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd.

Mae dadansoddiadau yn dangos y gallai twristiaeth a gweithgynhyrchu fod yn fwy agored i gael eu heffeithio na sectorau eraill. Awgrymwyd hefyd y gallai GIG Cymru gael ei effeithio petai nifer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gweithio yn y DU yn destun cyfyngiadau (Zolle, 2016).

- Efallai na fydd cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd yn mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd yr anfodlonrwydd a deimlir yn y cymunedau hynny lle pleidleisiodd mwyafrif mawr o blaid ymadael â'r UE.

## Dadansoddiad pellach

- Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar adolygiad cyflym o'r data eilaidd sydd ar gael i'w defnyddio.
- Gellid rhoi'r casgliadau cychwynnol yr ydym wedi'u cyflwyno ar brawf trwy ddadansoddi data gweinyddol yn fanylach ac, yn wir, rydym o'r farn y dylid gwneud hynny. Byddai hyn yn cynnig dealltwriaeth well o'r llifau diweddar o fudwyr a'r rôl y mae mudwyr o'r UE yn ei chwarae yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Gallai'r dadansoddiad hwn hefyd helpu i nodi meysydd a sectorau sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan gyfyngiadau ar hawl pobl i symud yn rhydd, a thaflu mwy o oleuni ar effaith y gwahanol sefyllfaoedd a allai godi yn sgil cyfyngu ar yr hawl honno.

## Cyflwyniad

Mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru roi cefnogaeth ddadansoddi i'r Grŵp Cynghori ar Ewrop. Bydd gwaith y Sefydliad yn ategu gwaith dadansoddi swyddogion Llywodraeth Cymru ac eraill.

Un o'r themâu sy'n cael ei hystyried gan y Grŵp Cynghori ar Ewrop ar hyn o bryd yw'r goblygiadau i Gymru os bydd unrhyw newid i hawl pobl i symud yn rhydd wedi i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cafodd y nodyn hwn ei baratoi i helpu i lywio'r trafodaethau ynghylch y materion hyn yng nghyfarfod y Grŵp Cynghori ar Ewrop ar 28 Tachwedd. Mae'n tynnu ynghyd y dystiolaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd ynghylch:

- Maint y mudo o'r UE i Gymru
- Mudo o Gymru i'r UE
- Demograffig a nodweddion marchnad lafur mudwyr o'r UE
- Agwedd y cyhoedd at fudwyr o'r UE yng Nghymru.

Mae yna le i ddadansoddi ymhellach er mwyn llenwi rhai o'r bylchau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol. Gellid paratoi'r dadansoddiad hwnnw cyn i gyfarfod nesaf y Grŵp Cynghori ar Ewrop gael ei gynnal ddechrau 2017.

**Tabl 1: Maint y mudo o'r UE ac o wledydd nad ydynt yn yr UE i Gymru a'r DU (yn seiliedig ar wlad genedigaeth)**


| | Cymru | | DU | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % o'r boblogaeth | Nifer | % o'r boblogaeth |
| Mudwyr o'r UE | 79,100 | 2.6% | 3,379,500 | 5.2% |
| Mudwyr o wledydd nad ydynt yn yr UE | 97,500 | 3.2% | 5,467,000 | 8.5% |
| Cyfanswm poblogaeth y mudwyr | 176,600 | 5.8% | 8,846,500 | 13.7% |

Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth

## Ffigur 1: Ble yn y DU y mae pobl a anwyd dramor yn byw? (2015)

Cyfran o’r mudwyr (%)

Cyfran o’r boblogaeth gyfan (%)





Ffynhonnell: ONS (Rhagfyr 2015) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth

## Ffigur 2: Ble yn y DU y mae mudwyr o'r UE yn byw? (2015)

Cyfran o’r mudwyr o’r UE (%)

Cyfran o’r boblogaeth gyfan (%)




Ffynhonnell: ONS (Rhagfyr 2015) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth

## Mudo i Gymru

### Preswylwyr yng Nghymru nad anwyd yn y DU

Mae cyfran is o'r bobl sy'n byw yng Nghymru yn fudwyr nag sydd ar lefel y DU yn gyfan.

Yng Nghymru, mae 2.6% o'r boblogaeth yn fudwyr o'r UE ac mae 3.2% yn fudwyr nad ydynt o'r UE o'i gymharu â chyfartaledd y DU, sef 5.2% o fudwyr o'r UE ac 8.5% o fudwyr nad ydynt o'r UE (Tabl 1).

Mae 4.8% o gyfanswm poblogaeth y DU, ond dim ond 2% o boblogaeth mudwyr y DU, yn byw yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan Gymru gyfran is na bron unrhyw ran arall o'r DU (Ffigur 1).

### Tabl 2: Preswylwyr mewn awdurdodau lleol yng Nghymru a anwyd y tu allan i'r DU (wedi'u rhestru mewn trefn ddisgynnol yn ôl canran o'r boblogaeth)

| | Cyfanswm | % o'r holl breswylwyr nad anwyd yn y DU yng Nghymru | % o'r boblogaeth leol |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 41,100 | 23.3% | 11.6% |
| Casnewydd | 15,300 | 8.7% | 10.5% |
| Abertawe | 21,800 | 12.3% | 9.1% |
| Sir Gaerfyrddin | 13,300 | 7.5% | 7.3% |
| Ceredigion | 4,900 | 2.8% | 6.6% |
| Wrecsam | 8,600 | 4.9% | 6.3% |
| Sir y Fflint | 8,400 | 4.8% | 5.5% |
| Bro Morgannwg | 6,500 | 3.7% | 5.2% |
| Conwy | 5,600 | 3.2% | 4.9% |
| Gwynedd | 5,800 | 3.3% | 4.8% |
| Torfaen | 4,100 | 2.3% | 4.5% |
| Sir Fynwy | 4,100 | 2.3% | 4.5% |
| Sir Benfro | 5,100 | 2.9% | 4.1% |
| Sir Ddinbych | 3,800 | 2.2% | 4.1% |
| Ynys Môn | 2,700 | 1.5% | 3.9% |
| Powys | 5,000 | 2.8% | 3.8% |
| Merthyr Tudful * | 2,100 | 1.2% | 3.6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr * | 3,900 | 2.2% | 2.8% |
| Blaenau Gwent * | 1,900 | 1.1% | 2.8% |
| Caerffili | 4,900 | 2.8% | 2.7% |
| Castell-nedd Port Talbot * | 2,900 | 1.6% | 2.1% |
| Rhondda Cynon Taf * | 4,800 | 2.7% | 2.0% |

Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth.
* Yn seiliedig ar faint sampl bach (rhwng 25 a 40 o ymatebion)

## Preswylwyr nad anwyd yn y DU yn ôl ardal awdurdod lleol

Mae 61.4% o'r holl boblogaeth nad anwyd yn y DU sy'n byw yng Nghymru wedi ymgartrefu mewn chwe ardal awdurdod lleol. Mae bron i chwarter ohonynt yn byw yng Nghaerdydd. Abertawe, Casnewydd, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam a Sir y Fflint yw'r ardaloedd eraill lle ceir y nifer mwyaf o breswylwyr nad anwyd yn y DU (Tabl 2).

Mae yna amrywiadau eang rhwng ardaloedd. 2% yn unig o boblogaeth Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot sy'n breswylwyr nad anwyd yn y DU ond maent yn cynrychioli mwy na 10% o boblogaeth Caerdydd a Chasnewydd.

## Tabl 3: Mudwyr o'r UE yn byw mewn awdurdodau lleol yng Nghymru (wedi'u rhestru mewn trefn ddisgynnol yn ôl canran o'r boblogaeth)

| | Nifer | % o'r holl fudwyr o'r UE yng Nghymru | % o'r boblogaeth leol |
|---|---|---|---|
| Casnewydd | 7,900 | 10.0% | 5.4% |
| Sir Gaerfyrddin | 7,600 | 9.6% | 4.2% |
| Wrecsam | 5,300 | 6.7% | 3.9% |
| Sir y Fflint | 5,500 | 7.0% | 3.6% |
| Caerdydd | 11,800 | 14.9% | 3.3% |
| Ceredigion | 2,400 | 3.0% | 3.3% |
| Abertawe | 6,400 | 8.1% | 2.7% |
| Sir Benfro | 3,300 | 4.2% | 2.6% |
| Ynys Môn * | 1,700 | 2.1% | 2.4% |
| Sir Fynwy * | 2,200 | 2.8% | 2.4% |
| Bro Morgannwg * | 3,000 | 3.8% | 2.4% |
| Conwy | 2,700 | 3.4% | 2.4% |
| Sir Ddinbych * | 2,000 | 2.5% | 2.1% |
| Powys * | 2,500 | 3.2% | 1.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr * | 2,500 | 3.2% | 1.8% |
| Blaenau Gwent ** | 1,200 | 1.5% | 1.7% |
| Caerffili * | 3,100 | 3.9% | 1.7% |
| Merthyr Tudful ** | 1,000 | 1.3% | 1.7% |
| Gwynedd ** | 1,500 | 1.9% | 1.2% |
| Rhondda Cynon Taf ** | 2,900 | 3.7% | 1.2% |
| Castell-nedd Port Talbot ** | 1,500 | 1.9% | 1.1% |
| Torfaen ** | 900 | 1.1% | 1.0% |

Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth
* Ansawdd cyfyngedig: yn seiliedig ar rhwng 25 a 40 o ymatebion yn fras
** Ansawdd isel: yn seiliedig ar rhwng 10 a 25 o ymatebion yn fras

## Mudwyr o'r UE yn ôl ardal awdurdod lleol

Mae patrwm y mudo o'r UE ychydig yn wahanol i batrwm preswylwyr nad anwyd yn y DU yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn yr un chwe ardal awdurdod lleol y mae'r nifer mwyaf o fudwyr o'r UE yn byw ac maent yn cynrychioli mwy na hanner yr holl fudwyr o'r UE yng Nghymru.

Mae'r amrywiad rhwng ardaloedd yn llai nag ydyw yn achos preswylwyr nad anwyd yn y DU. Mae mudwyr o'r UE yn cynrychioli tua 1% o boblogaeth Torfaen o'i gymharu â 5.4% o boblogaeth Casnewydd (Tabl 3).

Mae cyfran y preswylwyr nad anwyd yn y DU sy'n fudwyr o'r UE yn amrywio'n eang ar hyd a lled Cymru. Mae llai nag un rhan o dair y preswylwyr nad anwyd yn y DU yng Nghaerdydd ac Abertawe yn fudwyr o'r UE o'i gymharu â bron i ddwy ran o dair y preswylwyr nad anwyd yn y DU yn Sir y Fflint a Sir Benfro (Tabl 4).

**Tabl 4: Mudwyr o'r UE fel cyfran o breswylwyr nad anwyd yn y DU mewn awdurdodau lleol yng Nghymru (wedi'u rhestru mewn trefn ddisgynnol yn ôl canran o'r boblogaeth)**

| | Preswylwyr nad anwyd yn y DU (N) | Mudwyr o'r UE (N) | % o'r preswylwyr nad anwyd yn y DU sy'n fudwyr o'r UE |
|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | 8,400 | 5,500 | 65.5% |
| Sir Benfro | 5,100 | 3,300 | 64.7% |
| Pen-y-bont ar Ogwr * | 3,900 | 2,500 | 64.1% |
| Caerffili * | 4,900 | 3,100 | 63.3% |
| Blaenau Gwent ** | 1,900 | 1,200 | 63.2% |
| Ynys Môn * | 2,700 | 1,700 | 63.0% |
| Wrecsam | 8,600 | 5,300 | 61.6% |
| Rhondda Cynon Taf ** | 4,800 | 2,900 | 60.4% |
| Sir Gaerfyrddin | 13,300 | 7,600 | 57.1% |
| Sir Fynwy * | 4,100 | 2,200 | 53.7% |
| Sir Ddinbych * | 3,800 | 2,000 | 52.6% |
| Castell-nedd Port Talbot ** | 2,900 | 1,500 | 51.7% |
| Casnewydd | 15,300 | 7,900 | 51.6% |
| Powys * | 5,000 | 2,500 | 50.0% |
| Ceredigion | 4,900 | 2,400 | 49.0% |
| Conwy | 5,600 | 2,700 | 48.2% |
| Merthyr Tudful ** | 2,100 | 1,000 | 47.6% |
| Bro Morgannwg * | 6,500 | 3,000 | 46.2% |
| Abertawe | 21,800 | 6,400 | 29.4% |
| Caerdydd | 41,100 | 11,800 | 28.7% |
| Gwynedd ** | 5,800 | 1,500 | 25.9% |
| Torfaen ** | 4,100 | 900 | 22.0% |

Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth
* Ansawdd cyfyngedig: yn seiliedig ar rhwng 25 a 40 o ymatebion yn fras
** Ansawdd isel: yn seiliedig ar rhwng 10 a 25 o ymatebion yn fras


## Gwlad wreiddiol

Mae dadansoddiad gan Krausova a Vargas-Silva (2014) yn dangos mai o Wlad Pwyl (18,023 o breswylwyr), Iwerddon (12,175), India (11,874), Yr Almaen (11,208) a Tsieina (6,296) y daeth y nifer mwyaf o bobl nad anwyd yn y DU i Gymru. Mae data'r Cyfrifiad yn dangos nad oedd mudwyr o'r gwledydd hyn wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar draws Cymru ac, o'r pum prif grŵp, preswylwyr a anwyd yng Ngwlad Pwyl oedd wedi'u dosbarthu yn y modd lleiaf cyfartal. Roedd eu cyfran hwy o'r boblogaeth leol nad anwyd yn y DU yn amrywio o 3.8% ym Mro Morgannwg i 38.5% ym Merthyr Tudful.

## Cynnydd mewn mudo


Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), bu cynnydd sydyn yn y mewnfudo hirdymor i'r DU o'r UE rhwng 2012 a 2014 ond mae wedi sefydlogi'n gyffredinol ers hynny. Mae hefyd yn nodi bod mewnfudo gan ddinasyddion A2 (o Fwlgaria a Rwmania) ar yr un lefel â dinasyddion A8 (o wledydd a ymunodd â'r UE yn 2004) am y tro cyntaf (69,000 a 68,000 yn ôl eu trefn). Mae'r bwlch rhwng nifer y mudwyr hirdymor[1] o'r UE a'r rhai nad ydynt o'r UE i'r DU wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Erbyn 2016, amcangyfrifwyd bod nifer y mudwyr sy'n ddinasyddion yr UE yn 268,000, a bod nifer y mudwyr nad ydynt yn ddinasyddion yr UE yn 282,000 (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Mudo hirdymor i'r DU yn ôl dinasyddiaeth (2006 i 2016)**




Ffynhonnell: Mudo Rhyngwladol Hirdymor yn seiliedig ar yr Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr (ONS, 2016). DS: Dinasyddion Prydain yw'r rheini sy'n dychwelyd i'r DU ar ôl byw dramor am flwyddyn neu fwy, neu ddinasyddion a anwyd dramor sy'n dod i'r DU am y tro cyntaf

**Ffigur 4: Prif reswm dros fudo (2006 i 2016)**




Ffynhonnell: Mudo Rhyngwladol Hirdymor yn seiliedig ar yr Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr (ONS, 2016)

[1] Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio mudwr rhyngwladol hirdymor fel rhywun sy'n symud i wlad newydd am gyfnod o 12 mis o leiaf.

Ers 2013, mae cynnydd sydyn wedi bod yn nifer y bobl sy'n symud i'r DU am resymau yn ymwneud â gwaith, ond mae'r nifer sy'n cyrraedd i astudio'n ffurfiol wedi syrthio ers 2011 (Ffigur 4). Mudwyr o'r UE oedd y mwyafrif (62%) o'r rheini a fudodd yn bennaf am resymau yn ymwneud â gwaith. Mudwyr nad ydynt o'r UE oedd y mwyafrif (72%) o'r rheini a fudodd yn bennaf i astudio.

Erbyn 2016, gwaith oedd prif reswm pobl dros symud i'r DU (yn ôl 303,000 o bobl). Roedd bron i ddwy ran o dair (62%) o'r rheini a ddywedodd eu bod yn dod ar gyfer gwaith yn ddinasyddion yr UE a dywedodd mwy na hanner y mudwyr o'r UE (56%) a oedd yn cyrraedd am resymau yn ymwneud â gwaith eu bod eisoes wedi dod o hyd i waith cyn mudo.

Rhwng 2015 a 2016, roedd nifer y dinasyddion UE-15 a oedd yn mudo i'r DU yn benodol ar gyfer chwilio am waith wedi cynyddu o 20,000 i 31,000. Dywed swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol y gallai hyn, yn rhannol, adlewyrchu amodau gwannach marchnadoedd llafur rhai o'r gwledydd UE-15 deheuol.


Gan adlewyrchu i raddau y tueddiad cyffredinol yn y DU, cynyddodd cyfran y boblogaeth sy'n byw yng Nghymru a anwyd dramor o 3.9% (114,700 o bobl) i 5.8% (176,600 o bobl) rhwng 2007 a 2016. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfran poblogaeth y DU a anwyd dramor o 9.8% (5.9 miliwn) i 13.7% (8.8 miliwn).

Cynyddodd y mudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru o 1.4% o'r boblogaeth yn 2007 (40,100) i 2.6% yn 2016 (79,100). Ar gyfer y DU yn gyfan, cynyddodd cyfran y mudwyr o'r UE o 2.6% (1.5 miliwn) i 5.2% (3.4 miliwn) (gweler Ffigur 5).

Nid yw'r data presennol yn ddigon cadarn i roi darlun cywir o'r cynnydd yn ôl ardaloedd awdurdod lleol hyd heddiw. Er hynny, mae'r Arsyllfa Mudo ym Mhrifysgol Rhydychen wedi dadansoddi newidiadau mewn poblogaethau mudwyr ar lefel awdurdod lleol yng Nghymru rhwng 2001 a 2011 gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad (Krausova a Vargas-Silva, 2014).

Maent yn adrodd, dros y ddeng mlynedd dan sylw, fod nifer y preswylwyr yng Nghymru a anwyd y tu allan i'r DU wedi cynyddu o 82%, o 92,263 i 167,871 ond roedd amrywiadau mawr o un ardal i'r llall. Ar ben uchaf y sbectrwm, cofnododd Merthyr Tudful gynnydd o 227% (1,834 o bobl), sef y cynnydd canrannol ail uchaf yng Nghymru a Lloegr, er bod y sylfaen yn isel i gychwyn. Mewn cyferbyniad, cynnydd o 36% a welwyd yn Nhorfaen (Tabl 5).

## Ffigur 5: Mudwyr fel cyfran o'r boblogaeth yng Nghymru a'r DU (2007-2016)




Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth. Yn 2014, cafodd cyfyngiadau ar hawl dinasyddion o Fwlgaria a Rwmania i weithio yn y DU eu codi

# Tabl 5:
# % y newid mewn preswylwyr nad anwyd yn y DU (2001 i 2011)

| Awdurdod Lleol | Cynnydd yn y boblogaeth nad anwyd yn y DU | % y cynnydd yn y boblogaeth nad anwyd yn y DU 2001 – 2011 |
|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 1,834 | 227% |
| Wrecsam | 5,308 | 168% |
| Abertawe | 9,274 | 117% |
| Casnewydd | 6,310 | 105% |
| Caerdydd | 22,849 | 99% |
| Sir Gaerfyrddin | 3,620 | 91% |
| Blaenau Gwent | 710 | 90% |
| Gwynedd | 2,755 | 87% |
| Powys | 2,320 | 71% |
| Sir y Fflint | 2,621 | 69% |
| Rhondda Cynon Taf | 2,982 | 68% |
| Ceredigion | 1,813 | 66% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,840 | 58% |
| Caerffili | 1,463 | 53% |
| Sir Ddinbych | 1,322 | 52% |
| Sir Fynwy | 1,318 | 48% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,116 | 45% |
| Sir Benfro | 1,736 | 45% |
| Bro Morgannwg | 1,745 | 40% |
| Ynys Môn | 670 | 39% |
| Conwy | 1,351 | 37% |
| Torfaen | 651 | 36% |


Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011

## Mudo o Gymru

Ychydig iawn o ddata ar fudo o Gymru i wledydd eraill yr UE a ddaeth i law yn sgil cynnal ein hadolygiad cyflym. Fodd bynnag, yn ôl yr Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, bu cwymp yn nifer y gwladolion Prydeinig yn allfudo o'r DU yn y cyfnod rhwng 2006 a 2010 cyn iddo sefydlogi (Ffigur 6). Cyrhaeddodd nifer yr allfudwyr benllanw yn 2006, yn 196,000. Yn 2014, roedd y nifer hwnnw yn 127,000.


Gan fod maint y sampl ar gyfer Cymru mor fach, dylid bod yn ofalus iawn wrth ddadansoddi'r data. Fodd bynnag, nid yw patrwm yr allfudo o Gymru yn dangos unrhyw dueddiad am i lawr rhwng 2006 a 2010 fel yn achos y DU (Ffigur 7).

### Ffigur 6: Gwladolion Prydeinig yn mudo o'r DU




Ffynhonnell: Data yr Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr (ONS)

### Ffigur 7: Gwladolion Prydeinig yn mudo o Gymru




Ffynhonnell: Data yr Arolwg Rhyngwladol o Deithwyr (ONS)

## Nodweddion Cyflogaeth a Marchnad Lafur Mudwyr

Yn 2016, mae cyfradd cyflogaeth mudwyr o'r UE yng Nghymru yn uwch na'r boblogaeth sydd o oedran gweithio yn gyffredinol.

Mae 79% o fudwyr o'r UE sydd o oedran gweithio (16-64 oed) yng Nghymru mewn cyflogaeth o'i gymharu â 71.3% o gyfanswm y boblogaeth sydd o oedran gweithio a 69.3% o'r holl fudwyr.

Mae'r patrwm hwn yn debyg i'r DU yn gyffredinol lle mae cyfradd cyflogaeth mudwyr o'r UE yn 79.5% o'i gymharu â 73.7% ar gyfer y boblogaeth gyffredinol a 71.5% ar gyfer mudwyr yn gyffredinol (Tabl 6)[2].

Cynyddodd cyfran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru a oedd yn fudwyr o 4% yn 2004-07 i 8% yn 2015[3,4], ac o 11% i 16% ar lefel y DU (Ffigur 8).


### Tabl 6: Pobl 16-64 oed sy'n gyflogedig (2016)

| | Cymru | | DU | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer sy'n gyflogedig | % sy'n gyflogedig | Nifer sy'n gyflogedig | % sy'n gyflogedig |
| Mudwyr o'r UE | 48,400 | 79.0% | 2,135,600 | 79.5% |
| Holl fudwyr | 97,000 | 69.3% | 5,137,000 | 71.5% |
| Cyfanswm y boblogaeth | 1,360,400 | 71.3% | 30,130,400 | 73.7% |

Ffynhonnell: StatsCymru (Mehefin 2016) yn seiliedig ar ddata yr arolygon o'r Llafurlu a Blynyddol o'r Boblogaeth

### Ffigur 8: % y rheini mewn cyflogaeth sy'n fudwyr

**Canran y rheini mewn cyflogaeth yng Nghymru nad anwyd yn y DU**




Ffynhonnell: Markaki a Vargas-Silva (2016) yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu

[2] Mae data Yswiriant Gwladol yn dangos bod 7,760 o wladolion nad ydynt o'r DU yng Nghymru o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau (Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2016). Mae'r cymorth hwn yn cynnwys budd-daliadau mewn gwaith a budd-daliadau diweithdra, gan gynnwys Lwfans Ceisio Gwaith; Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Budd-dal Analluogrwydd; Cymorthdal Incwm Rhiant Unigol; Lwfans Gofalwr; Cymorthdal Incwm a Chredyd Pensiwn; Lwfans Byw i'r Anabl a Thaliadau Annibyniaeth Personol; a Budd-dal Gwraig Weddw.

[3] Mae Ffigur 8 a Thablau 7-10 yn seiliedig ar ymchwil gan Markaki a Vargas-Silva (2016), ac nid ydy'r rheini nad anwyd yn y DU wedi'u rhannu yn ôl y rheini a anwyd yn yr UE a'r rheini nad anwyd yn yr UE. Mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn caniatáu ar gyfer hyn, er gallai fod yn anodd llunio dadansoddiad ystyrlon oherwydd maint y samplau (gweler y nodyn isod).

[4] Mae amcangyfrifon gan ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu yn destun llawer o amrywiad rhwng y samplau, fel yn achos unrhyw arolwg sy'n seiliedig ar samplau. Ym mhob chwarter o'r Arolwg o'r Llafurlu, mae rhwng 143 a 218 o'r ymatebwyr o oedran gweithio sy'n preswylio yng Nghymru yn unigolion nad anwyd yn y DU. I gynyddu maint y sampl, a sicrhau bod yr ystadegau yn fwy dibynadwy, mae'r dadansoddiad yn cyfuno pob chwarter ar gyfer 2004-2007 (2,798 o ymatebwyr), 2010-2011 (1,557 o ymatebwyr), a phedwar chwarter o 2014 ymlaen (773 o ymatebwyr). I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r adran ar setiau data a chyfyngiadau ar wefan yr Arsyllfa Mudo.

Mae cyfradd hunangyflogaeth mudwyr sy'n byw yng Nghymru ychydig yn uwch nag ar gyfer y rheini a anwyd yn y DU (Tabl 7).

Ar gyfartaledd, mae gweithwyr mudol yng Nghymru yn ennill ychydig yn llai na gweithwyr a anwyd yn y DU (Tabl 8).

Mae gweithwyr mudol yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rheini nad ydynt yn fudwyr o gael eu cyflogi mewn 'galwedigaethau elfennol' (yn perfformio tasgau syml a rheolaidd sy'n aml yn galw am ymdrech gorfforol) ac, i raddau llai, mewn gwasanaethau proffesiynol (Tabl 9).

Mae'r gyfran fwyaf o weithwyr mudol yn gweithio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd (34%), ac mae hyn yn cael ei ddilyn gan ddosbarthu, gwestai a bwytai (20%) a gweithgynhyrchu (16%). Mae cyfran y gweithwyr a anwyd yn y DU yn y diwydiannau hyn yn debyg, ac eithrio gweithgynhyrchu (Tabl 10).

## Tabl 7: % o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n gyflogedig neu'n hunan gyflogedig (2015)

| | Cymru | | DU | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyflogedig | Hunan-gyflogedig | Cyflogedig | Hunan-gyflogedig |
| Wedi'u geni yn y DU | 61% | 9% | 64% | 10% |
| Mudwyr (heb eu geni yn y DU) | 57% | 11% | 59% | 11% |

Ffynhonnell: Markaki a Vargas-Silva (2016) yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu

## Tabl 8: Cyflog blynyddol cyfartalog gweithwyr (2015)

| | Cymru | DU |
|---|---|---|
| Wedi'u geni yn y DU | £23,417 | £26,050 |
| Mudwyr (heb eu geni yn y DU) | £22,478 | £26,222 |

Ffynhonnell: Markaki a Vargas-Silva (2016) yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu

## Tabl 9: Grwpiau galwedigaethol yng Nghymru i'r rhai o oedran gweithio (2015)

| | Cyfran o'r rhai wedi'u geni yn y DU | Cyfran o'r mudwyr (heb eu geni yn y DU) |
|---|---|---|
| Proffesiynol | 18% | 22% |
| Elfennol | 12% | 19% |
| Gofal, hamdden a gwasanaethau eraill | 11% | 12% |

Ffynhonnell: Markaki a Vargas-Silva (2016) yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu

## Tabl 10: Diwydiannau yng Nghymru i'r rhai o oedran gweithio (2015)


| | % o'r rhai wedi'u geni yn y DU | % o'r gweithwyr mudol (heb eu geni yn y DU) |
|---|---|---|
| Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd | 34% | 34% |
| Dosbarthu, gwestai a bwytai | 19% | 20% |
| Gweithgynhyrchu | 11% | 16% |
| Diwydiannau eraill | 36% | 30% |
| CYFANSWM | 100% | 100% |

Ffynhonnell: Markaki a Vargas-Silva (2016) yn seiliedig ar yr Arolwg o'r Llafurlu

Yn ôl y dadansoddiadau, mae'r cyfran fwyaf o fudwyr i'w cael yn y gweithlu twristiaeth (11%) a gweithgynhyrchu (9%).

Yn y rhan fwyaf o sectorau, mae tua'r un gyfran o weithwyr yn y gweithlu yn hanu o'r UE ag sydd yna o wledydd y tu allan i'r UE ond mae rhai eithriadau hefyd. Mae nifer y mudwyr o'r UE sy'n gweithio mewn gweithgynhyrchu yn fwy na theirgwaith y mudwyr o wledydd nad ydynt yn yr UE. Fodd bynnag, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, mae mwy na dwywaith cymaint o fudwyr o wledydd nad ydynt yn yr UE yn gweithio nag sydd yna o fudwyr o wledydd yr UE (Ffigur 9).

## Ffigur 9: Mudwyr fel cyfran o'r gweithlu yng Nghymru yn ôl diwydiant




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
* Ar gyfer 'ynni a dŵr' ac 'amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota', amcangyfrifir bod mudwyr o'r UE a mudwyr o wledydd nad ydynt yn yr UE yn llai na 1% o'r gweithlu


## Agweddau'r cyhoedd at Fudo

Darganfu Scully (2016) fod 29% o'r bobl yng Nghymru a gafodd eu holi fel rhan o Astudiaeth Etholiad Cymru yn dweud nad oedd ganddynt agwedd ffafriol at bobl o Ddwyrain Ewrop sy'n dod i fyw yng Nghymru. Mae dadansoddiad pellach (sydd heb ei gyhoeddi hyd yma) o'r data yn awgrymu bod modd rhagfynegi safbwyntiau ymatebwyr ynglŷn â phobl o Ddwyrain Ewrop yn llawer gwell trwy ystyried oedran, cyrhaeddiad addysgol a lefelau incwm yr ymatebwyr, yn hytrach na lle y maent yn byw.

Darganfu Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain fod 71% o'r ymatebwyr o Gymru yn meddwl bod gweithwyr mudol o'r UE yn dod â mwy o gostau nag o fuddion; roedd hon yn gyfran uwch nag yn unrhyw ran arall o Brydain (Ffigur 10).


Er bod maint y samplau'n fach, ac mae angen bod yn ofalus iawn wrth drin y data, mae'n ymddangos bod pobl yng Nghymru yn fwy tebygol o fod o blaid lleihau mewnfudo nag mewn rhannau eraill o Brydain, a chynyddodd y gefnogaeth i'r safbwynt hwn rhwng 2011 a 2013 (Ffigur 11).

### Ffigur 10: Cyfraniad canfyddedig pobl sy'n dod i weithio ym Mhrydain o wledydd eraill sy'n rhan o'r Undeb Ewropeaidd




Ffynhonnell: Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain (2013) yn seiliedig ar 1,055 o ymatebion (heb eu pwysoli)
Mae meintiau'r is-samplau yn weddol fach, felly mae ansawdd y data'n gyfyngedig

### Ffigur 11: % yr ymatebwyr sy'n credu y dylid cyfyngu ar fewnfudo i Brydain





Ffynhonnell: Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain (2011 a 2013). Mae meintiau'r is-samplau yn weddol fach, felly mae ansawdd y data'n gyfyngedig

Ar lefel y DU, nid yw'r cyhoedd erioed wedi ymddiddori cymaint mewn mewnfudo fel mater. Ym mis Medi 2015, dywedodd 56% o'r ymatebwyr i Fynegai Materion Economist/Ipsos Mori mai mewnfudo yw un o'r materion pwysicaf sy'n wynebu Prydain. Hwn yw'r ffigur uchaf ar gofnod ar gyfer mewnfudo ers i'r Mynegai ddechrau yn y 1970au ac mae Ipsos Mori (2016) yn dweud bod y bwlch rhwng y cenedlaethau yn tyfu, a bod pobl hŷn yn pryderu mwy ynghylch mewnfudo nag y mae pobl iau.

Darganfu Ipsos Mori hefyd fod 41% o'r ymatebwyr wedi newid eu barn am fewnfudo 'ryw ychydig' neu 'dipyn' ers etholiad cyffredinol 2010; mae 86% ohonynt wedi cynyddu mewn pryder.

Yn gyffredinol, nid oes perthynas gryf rhwng y newid yn y lefelau mudo i ardal â'r patrymau pleidleisio yn refferendwm yr UE. Yn Wrecsam, Ceredigion a Merthyr Tudful y bu'r newid canrannol uchaf o ran mudo fel cyfran o'r boblogaeth rhwng 2013-14 a 2014-15 ond roedd y gyfran a bleidleisiodd dros ymadael yn yr ardaloedd hyn yn amrywio'n eang (Ffigur 12)[5].

## Ffigur 12: Y bleidlais dros ymadael a'r newidiadau yn y mudo i Gymru fel cyfran o'r boblogaeth




Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

## Goblygiadau polisi

Mae'r dystiolaeth gychwynnol sydd wedi'i thynnu ynghyd gennym yn y nodyn hwn yn awgrymu bod yna nifer o oblygiadau polisi a allai fod o bwys.

Yn gyntaf, mae lefel gymharol isel y mudo o'r UE i Gymru yn awgrymu y gallai cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd gael llai o effaith mewn termau crynswth bras (yn nhermau cyfyngu ar gyflenwad y farchnad lafur neu 'ryddhau' cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer gweithwyr a anwyd yn y DU) nag mewn rhannau eraill o'r DU.

Yn ail, mae dosbarthiad anghytbwys y mudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru yn golygu y gallai'r effaith a gaiff cyfyngiadau ar hawl pobl i symud yn rhydd amrywio o un gymuned i'r llall, neu rhwng diwydiannau a gwasanaethau sydd wedi'u crynhoi mewn ardaloedd penodol.

Yn drydydd, gallai'r lefel gyffredinol isel o fewnfudo i Gymru hefyd gelu pa mor agored y mae rhai gwasanaethau cyhoeddus a sectorau economaidd o gael eu heffeithio gan gyfyngiadau ar hawl pobl i symud yn rhydd. Mae Ffigur 9 (tudalen 17) yn dangos y gallai twristiaeth a gweithgynhyrchu fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio na sectorau eraill. Awgrymwyd hefyd y gallai GIG Cymru gael ei effeithio petai nifer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n gweithio yn y DU yn destun cyfyngiadau (Zolle, 2016).

Yn bedwerydd, er bod lefel diddordeb y cyhoedd mewn mewnfudo wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae lefel y mewnfudo i'r mwyafrif o gymunedau yng Nghymru wedi parhau'n gymharol isel. I'r graddau bod y bleidlais dros ymadael â'r UE wedi'i hysgogi gan ffactorau ar wahân i brofiad uniongyrchol o fewnfudo, efallai na fydd cyfyngu ar hawl pobl i symud yn rhydd yn mynd i'r afael â'r mater sydd wrth wraidd yr anfodlonrwydd yn yr ardaloedd hyn.

[5] Mae'n drawiadol hefyd fod lefel y mudo yn llai nag 1% o'r boblogaeth bresennol ym mhob ardal heblaw am Gaerdydd. Er mai yn Wrecsam, Ceredigion a Merthyr Tudful y bu'r newid mwyaf o ran cyfran, dim ond cynnydd rhwng 0.1 a 0.2 pwynt canran mewn mudo fel cyfran o'r boblogaethau lleol y mae hyn yn ei gynrychioli (ee cynyddodd lefel y mudo fel cyfran o'r boblogaeth gyfan o 0.4% i 0.6% yn Wrecsam).

## Y Camau Nesaf

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar adolygiad cyflym o'r data eilaidd sydd ar gael i'w defnyddio.

Gellid rhoi'r casgliadau cychwynnol yr ydym wedi'u cyflwyno ar brawf trwy ddadansoddi data gweinyddol yn fanylach ac, yn wir, rydym o'r farn y dylid gwneud hynny. Byddai hyn yn cynnig dealltwriaeth well o'r llifau diweddar o fudwyr a'r rôl y mae mudwyr o'r UE yn ei chwarae yng Nghymru ar hyn o bryd.

Gallai'r dadansoddiad hwn hefyd helpu i nodi meysydd a sectorau sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan gyfyngiadau ar hawl pobl i symud yn rhydd, a thaflu mwy o oleuni ar effaith y gwahanol sefyllfaoedd a allai godi yn sgil cyfyngu ar yr hawl honno.

## Cyfeiriadau a Setiau Data


Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (2016) Nationality at point of NINo registration of DWP working age benefit recipients: data to Feb 2016. Ar gael ar-lein: https://www.gov.uk/government/statistics/nationality-at-point-of-nino-registration-of-dwp-working-age-benefit-recipients-data-to-feb-2015

Ipsos Mori (2015) Economist/Ipsos Mori September 2015 Issues Index. Llundain: Ipsos Mori.

Ipsos Mori (2016) Shifting Ground: Views on immigration during the long term and during election campaigns. Llundain: Ipsos Mori. Ar gael ar-lein: http://www.ipsos-mori.com/Assets/Docs/Publications/sri-shifting-ground-attitudes-to-immigration-2016.pdf

Krausova, K. a Vargas-Silva, C. (2014) Wales: Census Profile. Prifysgol Rhydychen: Yr Arsyllfa Mudo. Ar gael ar-lein: http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/briefings/wales-census-profile/

Markaki, Y. a Vargas-Silva, C. (2016) EU Migration to and from the UK. Prifysgol Rhydychen: Yr Arsyllfa Mudo. Ar gael ar-lein: http://www.migrationobservatory.ox.ac.uk/resources/briefings/eu-migration-to-and-from-the-uk/

NatCen Social Research (2011 a 2013) Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2016) Population of the United Kingdom by Country of Birth and Nationality. Ar gael ar-lein: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/datasets/populationoftheunitedkingdombycountryofbirthandnationality

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2016) Provisional Long-Term International Migration (LTIM) estimates. Ar gael ar-lein: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/internationalmigration/datasets/migrationstatisticsquarterlyreportprovisionallongterminternationalmigrationltimestimates

Scully, R. (2016) A Bit More on Prejudice in Wales. Blog Prifysgol Caerdydd, ar gael ar-lein: http://blogs.cardiff.ac.uk/electionsinwales/2016/10/31/a-bit-more-on-prejudice-in-wales/

Llywodraeth Cymru (2016) Catalog StatsCymru – Data Swyddogol Manwl ar Gymru. Ar gael ar-lein: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue

Zolle, N. (2016) Impact of Brexit on Public Services in Wales. Caerdydd: Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025. Ar gael ar-lein: http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/05/Brexit-WPS-2025-Revised-5th-July-16-v2.pdf